Y DRYSORFA.

Rhif. 722.] RHAGFYR, 1890. [Llyfr LX.

CANMLWYDDIANT FATHER MATHEW.

GAN Y PARCH. JOHN EVANS, ABERMEURIG.

Mae y flwyddyn 1890 yn un bwysig yn hanes yr achos dirwestol; a chydnabyddir hyny yn yr Iwerddon, a llawer o leoedd eraill, trwy gynnal cyfarfodydd Canmlwyddiant yr enwog Barchedig Theobald Mathew. Adnabyddir ef yn gyffredin wrth yr enw *Father* Mathew, yn ol ei safle yn eglwys yr Iwerddon. Gwnaeth y dyn da hwn y fath wrhydri gyda dirwest fel yr adnabyddir ef yn y cysylltiad dan yr enw "Apostol Dirwest." Gwnaeth hefyd gymaint o les trwy hyny i grefydd yr Arglwydd Iesu fel y galwyd, ac y gelwir ef gan lawer yn "Ail Patrick." Anfonwyd Patrick i'r Iwerddon gan Coelestine, Esgob Rhufain, yn y bummed ganrif, fel y danfonwyd Bran ap Llŷr ac Awstin i Brydain i'w hefengyleiddio. Gwnaeth gymaint er troi y trigolion oddiwrth eu paganiaeth a'u hofergoeledd, fel yr ennillodd yr enwau *Sant*, *Tad* Eglwys yr Iwerddon, ac *Apostol* yr Iwerddon. Oddiar amser St. Patrick ni chododd neb mwy yn yr Ynys na Father Mathew.

Mae yn syn meddwl nad oedd un o'r ddau ddiwygiwr yn frodor o'r Ynys. Yr oedd yr efengylydd cyntaf yn Ysgotiad, neu yn un o'r hen Frythoniaid. Ei enw oedd Succaethus, yr hwn a newidiwyd gan y Rhufeiniaid i Patricius, fel yr oeddynt yn newid enwau llawer o rai eraill. Mae sicrwydd fod Father Mathew yn Gymro o waed, ac o linach Gweithfoed Fawr, Brenin Ceredigion. Daeth yr enw Mathew gyntaf i'r llinach yn Syr Thomas Mathew, yr hwn oedd fanerwr (*standard-bearer*) i Edward IV. Dywedir na ddaeth neb o'r tylwyth i gyfanneddu i'r Iwerddon hyd y flwyddyn 1610. Wedi ymfudo yma daethant yn dirfeddianwyr cyfoethog. Cafodd un o honynt y teitl o Iarll Llandaf. Cymerodd un o'r ieirll hyny berthynas agos iddo yn arolygwr ei ystâd, sef James Mathews, yr hwn a briododd un Ann Whyte, a phedwerydd mab i'r rhai hyn oedd yr enwog Father Mathew. Ganwyd ef yn y palas yn Thomastown, Hydref 10, 1790; felly gwelir fod hon y ganfed flwyddyn oddiar ei enedigaeth.

Yr oedd ei fam yn coleddu meddwl mawr am offeiriadaeth yr Eglwys, a'i huchelgais penaf oedd cael rhai o'i meibion i'r swydd. Dywedai gyda golwg ar hyn, "Onid yw yn anffortunus iawn fod genyf naw o feibion, a dim un o honynt yn offeiriad!" Ar y pryd daeth y mab Theobald ymlaen, a dywedodd gyda llais penderfynol, "Mam, peidiwch bod yn anesmwyth, âf fi yn offeiriad." Edrychodd pawb arno o hyny allan fel un cysegredig i'r Eglwys; cafodd ei addysgu i'r perwyl, ac ordeiniwyd ef yn y flwyddyn 1814. Cafodd wasanaethu yn gyntaf yn ei Sir ei hun, ac heb fod ymhell o'i gartref. Wedi hyny ymsefydlodd yn Cork, lle yr oedd pan ymgymerodd â gwaith mawr ei fywyd.

Bu y pethau canlynol yn rhagarweiniad i'r Diwygiad mawr. Yr oedd yn ymaflyd gyda pharodrwydd ymhob gwaith oedd o les i'w gyd-drefwyr a'r wlad, ac ni roddai i fyny yr ymdrech o'u plaid nes gwneyd prawf ar bob dyfais a nerth. Yr oedd yn gymaint felly, fel yr aeth yn ddywediad cyffredin, os byddai anhawsdra i wneyd rhyw orchwyl, bod yn rhaid cael Father Mathew ato. Efe oedd offeryn penaf gwaith fel aelod o Fwrdd y Cork *House of Industry*. Wrth ei weled mor ymroddgar gyda phob peth, un o'i gyd-aelodau ar y Bwrdd, Crynwr o ran ei grefydd, o'r enw William Martin, a feddyliodd y gallai wneyd areithiwr Dirwest o'r fath oreu, a gwneyd ymgais gorchestol er dyrchafu y bobl o ran eu moesoldeb. Mynodd ymddyddan âg ef ar y mater, a dywedodd, "Theobald Mathew, pe byddet ti ddim ond cymeryd y gwaith mewn llaw, y fath ddaioni a wnelet i'r creaduriaid tlodion hyn!" Aeth yr ymadrodd at galon y dyngarwr; ond ofnai fod ei gydwladwyr wedi eu melldithio yn ormod gan y diodydd meddwol, fel na allai yr un ymdrech o'i eiddo eu hadferu i'w dillad a'u hiawn bwyll. Pa fodd bynag, meddyliodd ynddo ei hun beth oedd ei ddyledswydd yn wyneb y fath drueni oedd yn weled ar bob llaw iddo. Gwyddai pa le i droi am gyfarwyddyd a nerth, ac aeth at orsedd gras o ddifrif, a gosododd yr achos ger bron yr Hwn y mae calonau plant dynion yn ei law. Ac ar ol hir feddwl a chynllunio, pryderu a gweddio bob yn ail, cafodd argyhoeddiad trwyadl beth oedd ei ddyledswydd, a graddau o oleuni y byddai yn sicr o lwyddo i ryw fesur. Pan amlygodd ei benderfyniad i'w gyfaill y Crynwr, gwaeddodd hwnw allan, "O Theobald Mathew, yr wyt wedi fy ngwneyd heddyw yn ddyn dedwydd!" Ar y degfed o Ebrill, 1838, cymerodd yr ardystiad, ac wrth ysgrifenu ei enw dywedodd, "*Here goes in the name of God*"—"dyma fe yn myned yn enw Duw."

Ardystiad Father Mathew o ran ffurf oedd fel y canlyn:—"Yr wyf yn addaw, trwy gymhorth Dwyfol, i ymgadw oddiwrth bob math o ddiodydd meddwol, ac mor bell ag y gellir, trwy gynghor ac esiampl, i rwystro anghymedroldeb yn eraill hefyd." Hon oedd yr efengyl a bregethai; hwn oedd yr offeryn â'r hwn yr ymdrechai godi y Gwyddel i fyny o bydew meddwdod ac aflendid; a hon oedd y lamp a ddaliai yn ei law i'w harwain at Geidwad eu heneidiau. A cheir gweled trwy y gwahanol ffigyrau a osodwn i lawr pa mor bell y llwyddodd, a pha mor bell yr adnabyddodd yr hen Grynwr y cymhwysderau gofynol at y gwaith oedd âg anghen am ei wneyd.

"Ymhen tri mis ar ol iddo gymeryd yr ardystiad ei hun, yr oedd 25,000 o enwau wedi eu cofrestru; mewn pum' mis, 131,000; ac mewn naw mis, 156,000. Erbyn hyn yr oedd Father Mathew wedi ei wisgo mewn cyflawn arfogaeth fel diwygiwr dirwestol. Teithiodd yr ynys a thrawsffurfiodd hi hefyd. Yr oedd ei gydwladwyr yn dylifo wrth y miliynau at faner bur a sanctaidd dirwest. O'r boreu hyd nos byddai yntau yn rhoddi yr ardystiad i'r miloedd a fyddent yn gofyn am dano. Nid oedd yn adnabod gwahaniaeth rhwng credo na phlaid, ac ni adawodd i bethau dadleuol mewn crefydd na gwleidyddiaeth i ddyfod i fewn i'w gyfarfodydd. Yr oedd Protestaniaid a Phresbyteriaid oll yn ufuddhau i'w ddylanwad swynol. Trowyd y farn gyhoeddus yn gymaint o blaid achos sobrwydd, fel yr oedd nid yn unig y dynion yn ardystio, ond hefyd ffynnonell yr afiechyd yn cael ei sychu i fyny, fel erbyn 1842 yr oedd 797,677 o dafarnau wedi eu cau, a'r bobl trwy yr holl wlad yn edrych ar feddwdod fel un

o'r lliwiau pechadurus dyfnaf, fel y byddent yn llawn mor barod i gyfeillachu â llofrudd ag â dyn y gwyddent ei fod yn feddwyn." Dyna dystiolaeth un o newyddiaduron y wlad ar y pryd, a gallwn weled oddiwrthi y fath ddylanwad oedd areithiau tanllyd y diwygiwr yn gael ar farn gyhoeddus y wlad, trwy ddarlunio echryslonrwydd yr yfed a'r meddwi. Pa ryfedd, gan fod dros 5,000,000 wedi cymeryd yr ardystiad yn yr Iwerddon yn mlynyddoedd y diwygiad, cynifer a 237 o dafarnau wedi eu rhoddi i fyny yn Dublin yn unig mewn un flwyddyn, a'r un fath mewn cyfartaledd i'w rhifedi ymhob man arall.

Yn 1843, ar daer gymhelliad daeth y diwygiwr drosodd i Loegr. Wedi ymweled â'r prif drefydd, aeth i'r Brifddinas, a dechreuodd ar ei genadaeth trwy areithio ar ddarn o *waste land* yn Commercial Road. Cymerodd 4000 yr ardystiad ar y pryd, ac yn eu plith Earl Stanhope, Dr. Jabez Burns, Dr. Lovell, ac eraill. Ac wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd o Gorphenaf 31 hyd Medi 4, yr oedd dros 69,000 wedi cymeryd yr ymrwymiad yn Llundain a'i chylchoedd yn unig. Tra bu ar ymweliad â'r wlad hon, er na bu ond yn y prif drefydd, cymerodd dros 600,000 yr ymrwymiad. Yr oedd un arolygwr carchar yn yr Iwerddon yn dyweyd fod llai o £250,000 yn myned i gynnal y carcharorion yn yr ynys yn mlynyddoedd y diwygiad nag oedd yno o'r blaen. Pa ryfedd; oblegid yn lle o 300 i 400 oedd yn arferol o fod yn y carchar mwyaf, nid oedd y pryd hyny ond o 110 i 130. Yr oedd y meddygon yn tystiolaethu eu bod heb ddim i'w wneyd. Ac yr oedd 3,000,000 o alwyni o'r diodydd meddwol yn llai yn flynyddol yn cael eu difa nag oedd o'r blaen.

Mae y ffigyrau a roddwyd yn myned ymhell i brofi y lles a wnaed i foesoldeb trwy offerynoliaeth y diwygiwr; ond y mae daioni mwy wedi ei wneyd trwyddo mewn ystyr ysbrydol a thragywyddol. O'r 600,000 o yfwyr y wlad hon a sobrwyd, bernir fod 20,000 wedi dyfod at grefydd. Gwnaeth y diwygiad dirwestol hefyd agor y ffordd i'r diwygiad crefyddol a gymerodd le ar ei ol, pryd y daeth dros 70,000 at grefydd mewn gwahanol fanau yn Lloegr, ac y chwanegwyd 3000 at yr Ysgol Sabbothol mewn un plwyf yn unig. Dywedai Father Mathew ei hun pan yn areithio yn Leeds, pan yn dyweyd am ei awydd i roddi y Bibl i'r bobl, "Mae yn awr yn y wasg yn Dublin argraffiad rhad o'r Bibl, i'w orphen mewn 12 rhifyn, chwe' cheiniog yr un, trwy yr hyn y rhoddir copi o fewn cyrhaedd pob penteulu dirwestol trwy yr ynys. Mae y mwnwyr yn nghymydogaeth Waterford, y rhai oedd gynt mewn sefyllfa druenus oblegid eu harferion yfawl, yn awr wedi sefydlu ysgolion a chapelau yn lle tafarnau; ac y mae yno gannoedd o filoedd ar hyd Iwerddon yn cyflym osod sylfaen etifeddiaethau i'w teuluoedd oedd o'r blaen mewn sefyllfa druenus." Mae geiriau y diwygiwr yn profi ei fod am roddi y Bibl i'r werin, yr hyn na ddysgir gan y grefydd Babaidd. Ac y mae ei areithiau hefyd yn profi ei fod am gael y bobl at Grist ac yn ganlynwyr iddo. Bu ef ei hun hefyd farw ar yr 8fed o Rhagfyr, 1856, gan "orphwys yn unig," fel yr hysbyswyd, "ar aberth sanctaidd y Gwaredwr."

Pan gyhoeddwyd *Bywgraffiad* Father Mathew, ysgrifenodd Mr. Gladstone at ei awdwr, Mr. John Francis Maguire, M.P., fel y canlyn:—"Ar wahan oddiwrth y pwnc o ddirwest, pa fath gymeriad ydych wedi ddangos i ni! yn ei symledd, ei ddifrifolrwydd, ei deimlad addolgar dwfn, ac, uwchlaw y cwbl, ei gariad diderfyn, yr hwn a barodd iddo amlygu mewn gweithred a gwirionedd brydferthwch sancteiddrwydd, ac i bresennoli o flaen ei gydgreaduriaid gymaint o ddelw ein ben-

digedig Waredwr." Mae geiriau Mr. Maguire hefyd gyda golwg ar yr uchod yn werth eu cofnodi:—"*A graceful tribute from the foremost man of the day to the memory of the greatest Moral Reformer of the age*—teyrnged hardd oddiwrth ddyn blaenaf y dydd i goffadwriaeth Diwygiwr Moesol mwyaf yr oes. "*The greatest Irishman that ever lived*"—Mr. John E. Redmond, M.P. "Ac edrych ar waith Father Mathew gyda dirwest yn ei holl agweddau, gwnaeth fwy nag un dyn arall, a'i gymeryd ar ei ben ei hun, er creadigaeth y byd."—Arglwydd Faer Dublin. Mae y tystiolaethau uchod yn myned ymhell, ond dichon fod y rhan fwyaf o'r rhai cyfarwydd â hanes y diwygiwr yn barod i ddyweyd, "Gwir bob gair."

Ond a ydyw yn ddigon o goffadwriaeth i'r dyngarwr hwn i agor Capel Coffadwriaethol iddo yn Cork ar ddydd ei enedigaeth, a rhoddi careg sylfaen cofgolofn hardd iddo yn Dublin, prifddinas Iwerddon? A ydyw yn ddigon cael prif ddynion y Deyrnas Gyfunol i draddodi areithiau hyawdl o ganmoliaeth i'w ymdrechion? Mae pawb yn ateb, Nac ydyw. Ni fydd dim yn deilwng goffadwriaeth iddo ond adfywiad o'r ysbryd a daflodd ef i galonau ei gydwladwyr, a chymeryd mesurau penderfynol i wneyd yr un gwaith ag a wnaeth yntau. Os na wna un dyn y gwaith, os na wna dwsin o'r dynion goreu hyny, dylai y miloedd godi at y gwaith, a mynu gweled diwygiad. Fel y dywedai un areithiwr, "Mae y drwg yr ymdrechodd ef yn ei erbyn mor fawr, os nid yn fwy, nag oedd yn ei amser ef. Mae yr arian a roddant am y diodydd meddwol yn fwy na'r holl renti a dalant am eu ffermydd a'u tai, a gellir dyweyd mai felly y mae yn Mhrydain hefyd, ond bod hyny lawer o dan y nod. Ymdrechir llawer yn erbyn yr ardrethoedd uchel yn y ddwy ynys, ond nid yw y rhai hyny yn gymaint a'r draul ar y diodydd afraid, a gwaeth na diles, ac eto nid oes fawr o ymdrech yn eu herbyn. Byddai yn dda i ni ail edrych eto, yn adeg y canmlwyddiant, pa fodd yr aeth Father Mathew at y gwaith, ac y llwyddodd.

1. Gallwn feddwl wrth adolygu hanes y diwygiad fod ei *dymher ennillgar* yn fanteisiol iddo. Yr oedd y fath *favourite* gan ei fam ag oedd Joseph gan Jacob, a galwai ei frodyr a'i chwiorydd ef, "*The Pet*," o herwydd hyny. Yr oedd ef yr un mor anwyl gan yr holl deulu, gan y rhai oedd yn gweini, a chan bawb a ddeuai i gysylltiad âg ef. Mae yn amlwg fod natur wedi ei gymhwyso at y gwaith oedd wedi ei dori allan iddo, sef ennill sylw, calon, ac ewyllys rhai mor afrywiog, anwadal, a chaethiwus gan eu blysiau a'r meddwon. Ymddygai fel boneddwr tuag at y trueiniaid, nes y teimlent fod yr un oedd yn siarad â hwy yn eu caru fel ei enaid ei hun. Dangosai ei fod yn edrych arnynt fel dynion, a hyny mor bell nes y teimlent eu *dignity* gwreiddiol, er eu bod wedi ei hen golli. Pa ryfedd, dyna yr un fu yn cadw ysgol i ferched ieuainc yn Cork, ac yr oedd mor ennillgar, fel yr oedd ganddo yn fuan ryw 500 o'r cyfryw. Agorodd ysgol nos i fechgyn ieuainc, a llwyddodd hono yn gyffelyb. Dywedir nad oedd ganddo ddim i'w llywodraethu ond gwenau wyneb, geiriau teg, anrhegion mynych, gwleddoedd achlysurol, ac ymweled â gwahanol ranau o'r wlad yn eu cwmni. Yr oedd yn fwy galluog i "ladrata calonau" nag y bu Absalom erioed. Gallu rhagorol at ennill yfwyr o berygl y cwpan! fel y denodd y fam hono ei phlentyn, pan ar ddibyn clogwyn craig, â'r tusw blodau.

2. Yr oedd yn meddu ar *annibyniaeth meddwl* yn gysylltiedig â *phenderfyniad i gyrhaedd ei amcan*. Pan anfonwyd ef gan Lady Elizabeth Mathew i ysgol yn Killarney, yn ei serch rhyfeddol at ei fam, cerddodd

adref yn amser y Pasg, heb ofyn cenad i neb. Teimlai ei fod yn alluog i benderfynu drosto ei hun. Pwy allai feddwl y byddai un mor annibynol yn rhy wan i ddal yr olwg ar ysgyfarnog yn cael ei dal gan filgwn, nac ar *pheasant* ar y maes a'i aden wedi tori ac yn gwaedu? Yr oedd yn llawn o *humour*, a bron bob amser yn chwerthin; a chan ei fod yn ddi-ildio yn ei ffordd, yr oedd trwy ei ddengarwch yn gallu ei chael hefyd trwy swyn ei ddynoliaeth garuaidd a charedig. Mae eisieu rhai fel efe o hyd at ddynion fel rhai oedd a fynai â hwy.

3. Yr oedd yn *weithiwr ymroddgar*. Yr oedd yn bleser ganddo ef fod am 12 awr allan yn Llundain, heb na bwyta nac yfed, er mwyn siarad a'r bobl a derbyn eu hardystiad. Gweithiai mewn amser ac allan o amser. Yr ydym yn argyhoeddedig er's blynyddoedd, mai yr achos bod dirwest mor anmhoblogaidd yw ei fod yn gofyn cymaint o waith. Digon hawdd cael rhai i gynllunio a ffurfio penderfyniadau, gwneir hyny pan yn gwisgo menyg *kid* a dillad esmwyth. Ni allai Iesu Grist weithio allan benderfyniadau cyfammod y prynedigaeth ac aros ar ei orsedd mewn gogoniant, rhaid oedd iddo ddyfod i garchar tywyll ac aflan y byd hwn, gan adael ffurf Duw a gwisgo dillad y carcharorion, a gweithio a chwblhau. Da i ninnau gofio wrth lunio penderfyniadau, fod y rhai hyny yn meddwl croesgadau caled a phoenus, tebyg i rai Father Mathew, os myner eu cario allan a chael gafael yn y dynion y mae a fynont â hwy. Dyma wers fawr y canmlwyddiant. Gellir hebgor llawer o'r penderfyniadau a ffurfir gyda golwg ar ddirwest, ond ni ellir hebgor cyfarfodydd dirwestol, a llafurio ar eu cyfer, os ydym am gadw y wlad yn sobr. Ac yr ydym yn credu y byddai yn well troi llawer o'r cyfarfodydd eglwysig at amcan dirwestol mewn llawer lle, na myned ymlaen gyda phethau eraill, a gadael yr aelodau i yfed fel y maent, ac heb un cyfarfod dirwestol ar eu cyfer.

4. Yr oedd yn *aberthwr* mawr. Nid oedd dim yn ormod ganddo wneyd er cael gafael yn y dynion. Yr un fath ag yr oedd yn cadw plant yr Ysgol gyda'i roddion, a'i orymdeithiau, y rhai fyddai oll ar ei draul ef, dyna fel y byddai gydag achos dirwest, ond ar raddfa llawer eangach. Trwy ei deithiau pell ac agos, trwy gyfraniadau i'r trueiniaid fyddai yn sobri er eu rhoddi ar ben y ffordd i fyw, a chyfranu i deuluoedd anghenus y meddwon er lleddfu eu dyoddefiadau, ac at achosion da fyddai yn dal cysylltiad â gwellhau moesau ac amgylchiadau plant dynion; ïe, dyma un gyfranodd nes dyhysbyddu ystâd fawr, a myned i ddyled o £5000 gyda hyny. Gorfu ar gymdeithas wneyd tanysgrifiadau cyhoeddus er mwyn ei gadw o gyfyngder; a gwnaeth y Llywodraeth, trwy y Frenines, roddi *pension* o £300 y flwyddyn iddo fel cydnabyddiaeth am ei ymdrech i lesoli ei wlad a'i genedl. A gwel pawb na waddolwyd neb mwy teilwng gan y Llywodraeth erioed. Yr oedd rhodd y Llywodraeth yn dipyn o anrhydedd iddo, heblaw modd i fyw, ond yr ydym yn credu fod yr 50,000 ddaeth i'w gladdu yn Cemetery Cork, ac o'r rhai hyny filoedd o'r meddwon y bu yn offeryn i'w sobri, yn fwy o anrhydedd arno, am yr ymdrechion a'r aberthau a wnaeth.

Cofied pawb ddelo i gysylltiad â hanes y dyn hynod hwn, wrando ar y llais sydd yn ei ganmlwyddiant, a'i holl orchestion dyngarol ag y mae y canmlwyddiant yn arddangosiad o honynt; y llais, meddwn, sydd yn dyweyd, "Deffro di yr hwn wyt yn cysgu. Dyma y ffordd, rhodiwch ynddi. Dos dithau a gwna yr un modd. Gwared y rhai a lusgir i angeu."

MR. DAVID DAVIES, LLANDINAM.

Gan y Parch. D. Lloyd Jones, M.A., *Llandinam.*

PENNOD IV.—CYFNOD Y GLOFEYDD.

Pan y mae dynion wedi eu cynnysgaeddu â galluoedd cryfach na'r cyffredin yn ymddangos, y mae Duw yn ei ragluniaeth yn gofalu am rhyw gylch yn yr hwn y byddo lle i'r galluoedd hyny ymddadblygu. Pe buasai Mr. Davies wedi d'od ar chwareufwrdd y byd ganrif neu ddwy yn gynt, diau y buasai ei graffder a'i ŷni yn mynu ymwthio i'r golwg mewn rhyw gylch neu gilydd, ond ni buasai yn cyrhaedd enwogrwydd fel un o brif anturiaethwyr ei oes yn y gwaith o gloddio allan gyfoeth tanddaearol ei wlad. Yr oedd ystorfeydd helaeth o'r cyfoeth hwn wedi bod yn llechu yn nghelloedd dirgeledig y ddaear am gyfnodau mor feithion fel nas gall y dychymyg cryfaf ddim meiddio ceisio rhedeg drostynt. Y cwbl a wyddom ni yw fod y Creawdwr wrth ddwyn yr adnoddau gwerthfawr hyn i fodolaeth wedi eu bwriadu oll i fod at "wasanaeth dyn." "Y ddaearen, o honi y daw bara, trowyd megys tân oddi tani. Ei cheryg hi a fyddant le i saphir, a phriddellau aur sydd iddi." Rhoddes awdwr llyfr Job ddesgrifiad tra barddonol o'r mwngloddiwr yn ei ddyddiau ef, yn ymwthio trwy lwybrau tywyll yn nghrawen y ddaear, yn cyfarfod â ffrydiau o ddwfr yn rhedeg rhwng yr haenau, yn tori *channels* iddynt i redeg ymaith rhag ei rwystro ef i gloddio ymlaen yn ei ymgais am feini gwerthfawr, ac yn hollti y graig gallestr wrth dyllu dan sylfaen y mynyddoedd; ond y mae yn ammheus genym a oedd y trysor mwyaf gwasanaethgar i ddynolryw yn adnabyddus i'r bardd ysbrydoledig o gwbl. Nid oedd gan yr hynafiaid gynt ddim syniad fod y fath haenau eang a thrwchus o sylwedd mor wasanaethgar a'r glo, yn drysoredig yn y ddaear ar gyfer cenedlaethau i dd'od.

Yr oedd Mr. Davies, fel y crybwyllasom eisoes, wedi bod yn llafurio mewn amryw feusydd. Dechreuodd gyda'r fasnach goed, ychwanegodd at hyny amaethyddiaeth, yna ymgymerodd â gwneyd ffyrdd a phontydd yn ei sir enedigol, ac wedi hyny daeth allan ar raddfa eang fel gwneuthurwr rheilffyrdd; ond i'r oes sydd yn codi adnabyddir ef fel anturiaethwr llwyddianus mewn glofeydd, a chyfranwr haelionus at brif sefydliadau dyngarol a chrefyddol ei oes.

Gan fod gwrthddrych ein hysgrif mor adnabyddus fel prif berchenog y gwaith glo mwyaf yn Nghymru, a chan fod nifer mor helaeth o drigolion ein gwlad yn ennill eu bywioliaeth trwy lafurio mewn glofeydd, cymerwn ein rhyddid i roddi braslun o'r prif ffeithiau ynglŷn â'r pwnc hwn.

Y mae'r glo i'w gael yn y gyfundrefn hono o greigiau sydd yn cynnyrchu ulyf neu olosg *(carboniferous)*. Gorwedda rhwng y ddwy haen o greigiau a elwir y tywodfaen a'r cleifaen a'r grut a'r graig galch, y *sandstone* a'r *shale* a'r *millstone grit* a'r *mountain limestone*. Y mae'r cloddion a geir mewn cysylltiad âg ef, a'r argraffiadau a ganfyddir ar y ceryg, yn ein harwain i'r casgliad mai sylwedd llysieuol ydyw wedi myned dan gyfnewidiad trwy ddirwasgiad dan bwysau haenau trwchus o greigiau. Gorchuddid y pantleoedd a lenwir ganddo, gyfnodau meithion yn ol, gan goedwigoedd mawrion a thrwchus o rywogaethau dyeithriol o goed a adnabyddir wrth yr enw *sigellariæ*, *stigmariæ*, *coniferæ*, *calamites*, a *lepidodendra*, y rhai na cheir dim yn cyfateb yn gwbl iddynt yn tyfu mewn un parth o'r byd yn awr. I ba raddau yr oeddynt yn dibynu ar y gwres sydd yn y ddaear nis gwyddom, ond yr ydym yn sicr eu bod yn derbyn yn helaeth o wres yr haul, a fod y gwres hwnw wedi cael ei drysori am gyfnodau mor feithion fel mai prin y gallwn ffurfio un math o ddychymyg am danynt, a bod yr ystorfa helaeth hon o ŷni anianyddol yn awr yn cael ei dadlenu ac yn d'od yn wasanaethgar i gynnydd a chysur dyn.

Y mae'r nwydd gwerthfawr hwn i'w gael ymhob gwlad y ceir y gyfundrefn o greigiau a grybwyllwyd eisoes yn gorchuddio cyfran o'i harwynebedd. Ceir haenau o hono yn yr Yspaen, Sweden, Ffrainc, Belgium, ac am Germany a Rwssia y maent hwy yn meddu ar fwy o'r adnoddau hyn na'r un wlad yn Ewrop gyda'r eithriad o Brydain Fawr. Pe taflem gipdrem ar wledydd eraill y byd o'r

tu allan i derfynau Ewrop, gwelem fod llawer o honynt yn meddu ar swm mor fawr o hono, a'i fesur yn ol ei drwch a'i arwynebedd, fel y byddai mor anhawdd i ni ffurfio syniad clir am dano wrth ei osod i lawr mewn ffigyrau ag a fyddai i ni amgyffred pellder un o'r ser sefydlog. Ceir haen fechan yn New Zealand, a chyflenwad gweddol, ac yn ol barn rhai, ystorfa helaeth yn Awstralia. Cynnwysa y wlad sydd yn amgylchynu Culfor Persia welyau o hono, ac am ymherodraethau India, Burmah a China, y mae amryw haenau wedi eu darganfod ynddynt, ac er nad ydynt hyd yn hyn yn cael eu gweithio ar raddfa eang, gallant droi allan mor gyfoethog nes taflu glofeydd Prydain yn gwbl i'r cysgodion. Ffaith ryfedd yw fod glo i'w gael yn Ynys Melville o fewn cylch y Pegwn Gogleddol, rhan o'r byd sydd yn cael ei gorchuddio gan eira a rhew bron o ddechreu y flwyddyn hyd ei diwedd. Ond y parth Gogleddol o'r Cyfandir mawr Gorllewinol yw y rhan sydd yn cynnwys yr haenau mwyaf trwchus ac eang o hono ar wyneb y ddaear. Yn yr Unol Dalaethau ceir y nwydd gwerthfawr hwn yn y fath gyflawnder fel nad yw adnoddau holl Ewrop ddim yn deilwng i'w cystadlu âg ef. Y mae ystorfeydd o lo llosglysaid *(bituminous)* mor fawr yn Pennsylvania, Virginia, Ohio, Indiana, Illinois, Michigan, Tennessee, Alabama, a Missouri, fel na byddem yn euog o ormodiaeth pe dywedem nad yw yr holl welyau sydd wedi eu darganfod trwy y gweddill o'r byd yn deilwng i'w cymharu mewn trwch ac arwynebedd â hwy. Cynnwysa Ffrainc 984 o filldiroedd ysgwar o ddaear yn cynnwys haenau glo; Prwssia, 1370; Prydain Fawr, 5400; ond y mae yr haenau hyn, â llawer o honynt yn dra thrwchus, yn gorwedd dan 196,000 o filldiroedd o arwynebedd yn yr Unol Dalaethau, ac o dan 7530 yn Ngogledd America Brydeinig. Ni raid i Brydain, pa fodd bynag, ofni cael ei threchu yn y fasnach hon gan wledydd eraill y byd, oblegid y mae haenau trwchus yr Unol Dalaethau mewn cyfandir eang gannoedd o filldiroedd oddiwrth y môr, ac y mae y treuliau o'i gludo o'r gweithfeydd i'r llongau mor fawr, ac o ganlyniad ei bris yn y farchnad mor uchel, fel nas gall ymgystadlu mewn rhadlonrwydd â'r eiddom ni; ac heblaw hyn, y mae'r llafur o'i gloddio yn uwch ei bris, ac o bosibl, llawer o'r glo ei hunan yn israddol ei ansawdd. Heblaw hyn, nid oes gan Brydain ddim i'w ofni yn y fasnach hon oddiwrth gydymgeisiaeth â gwledydd eraill Ewrop. Yn 1871 yr oedd glo wedi ei ddarganfod dan 8964 o filldiroedd o arwynebedd yn Ewrop, ac o'r rhai hyn yr oedd 5400, neu *bum' rhan o wyth, yn Mhrydain Fawr yn unig.*

Pan oedd Mr. Davies yn brysur wrth y gwaith o wneyd rheilffyrdd, yr oedd yn ddigon craff i ragweled fod y maes hwnw yn lleihau, am fod y rhanau o'r wlad a safent mewn mwyaf o anghen am danynt, a'r lleoedd y gallesid dysgwyl iddynt dalu llog rhesymol ar y cyfalaf i'r cyfranddalwyr, wedi eu cyflenwi yn barod; a chan ei fod mor llawn o ŷni fel yr oedd gweithio mor anghenrheidiol i'w ysbryd ag oedd anadlu i'w gorff, yn y flwyddyn 1864 troes ei sylw at adnoddau tanddaearol ei wlad. Canfyddai yn eglur mai y maes oedd â'r rhagolygon dysgleiriaf o'i flaen oedd y fasnach lo. Cyn ysgogi gyda'r dosbarth newydd hwn o anturiaethau, gofalodd am ymgynghori â dynion yr oedd ganddo berffaith ymddiried ynddynt mewn hamcanion a chywirdeb eu barn. Yr oedd ganddo un gŵr yn ei wasanaeth er ys rhai blynyddoedd, am fedrusrwydd a gonestrwydd yr hwn y coleddai Mr. Davies y syniadau uchaf, ac i ddeheurwydd yr hwn y priodolai raddau helaeth o'i lwyddiant mewn anturiaethau masnachol. Daeth y gŵr hwn â Mr. Davies i gydnabyddiaeth â chyfaill iddo, yr hwn a drigai ar y pryd yn Sir Forganwg, ac yr oedd gan y cyfaill bwll glo ar werth. Nid efe oedd perchenog y pwll, ond yr oedd y gwaith wedi ei roddi i'w ofal ef gan y perchenog gyda'r amcan o'i werthu, os gellid cael pris boddhaol am dano. Gan nad oedd Mr. Davies wedi cael dim manteision i ffurfio barn ar y pwnc o werth gweithiau glo, anfonodd y ddau wŷr hyn at ŵr arall, yr hwn oedd yn arolygwr ar bwll glo, ac felly yn meddu gwybodaeth brofiadol a chymhwysder i roddi cynghor a chyfarwyddyd iddynt pa fodd i weithredu. Defnyddiasant y moddion mwyaf tebyg o'u harwain at

y gwirionedd; ac wedi iddynt ddwyn eu hymchwiliadau i derfyniad, rhoddasant eu hadroddiad i Mr. Davies, a phenderfynodd yntau mewn canlyniad roddi terfyn ar yr ymdrafodaeth. Er fod y telerau wedi eu trefnu, a gweithredoedd y gwerthiant yn barod i'w harwyddo, fflachiodd argyhoeddiad trwy ei feddwl mai arwain i ganlyniadau anffodus a wnai y fargen, ac felly, megys ar yr awr ddiweddaf, gwnaeth ei feddwl i fyny i beidio myned gam ymhellach. Ni arwyddodd y gweithredoedd, ac ni chymerodd feddiant o'r gwaith. Yr ydym yn crybwyll hyn am ei fod yn dwyn i'r golwg un o brif nodweddion ei feddwl. Darganfyddai y gwirionedd yn sydyn, megys trwy weithrediad greddf—fel pe buasai pelydryn o heulwen yn fflachio trwy agen yn y cymylau, ac yntau yn canfod y gwirionedd o dano—ac wedi iddo ei ganfod yr oedd ganddo wroldeb anorchfygol i gario ei benderfyniad allan. Diau i gyflymder ei ganfyddiad a'i wroldeb i weithredu, ei gadw ar lawer achlysur rhag cyfeiliorni trwy ymgymeryd âg anturiaethau peryglus yn arwain i drychineb masnachol. Yr oedd dygwyddiadau eraill cyffelyb i hwn yn ei hanes yn ymddangos bron fel pe buasai rhyw allu oddiuchod yn rhoddi awgrymiadau cryfion iddo pa fodd i weithredu. Nid ydym yn dyweyd ei fod ef yn ymwybodol o ddim ond gweithrediad ei gynneddfau meddyliol ei hunan; ond nid yw hyn yn rheswm digonol dros i ni gredu nad oedd yr Arglwydd, trwy ryw ddylanwad dirgeledig, yn cyfeirio ei gamrau.

Wedi i'r ymdrafodaeth hon ddyfod i derfyniad, gan ei fod yn teimlo tueddfryd gref i ddefnyddio ei ŷni a'i fedrusrwydd o hyn allan i agor adnoddau tanddaearol y wlad, cyfeiriwyd ei sylw, gan ddau wŷr y daethai i gdynabyddiaeth â hwy, at haenau cyfoethog ond cuddiedig Dyffryn y Rhondda. Dywedai un o honynt yn hyderus fod gwell glofeydd i'w cael na'r un oedd wedi ei ddarganfod hyd y pryd hwnw yn Neheudir Cymru. Dywedai fod dygwyddiad a elwir *upheaval* yn yr haenau glo wedi cymeryd lle rywbryd mewn man penodol yn y Dyffryn uchod. Gwnaed ymchwiliad i'r pwnc, a chafwyd fod hyn yn wir. Oddeutu 100 llath o'r tu ol i balasdŷ Ystrad Fechan y mae yr haenau, ac, wrth gwrs, y creigiau sydd rhyngddynt, wedi eu gwthio rywbryd, gan ryw allu tanddaearol, neu gan ymgrebychiad *(shrinking)* crawen y ddaear 85 o latheni yn nês i wyneb y tir na'r haenau sydd yn cyfateb iddynt o ran ansawdd a thrwch ar yr ochr arall i'r Dyffryn. Yr oedd hyn wrth gwrs yn eu gwneyd yn fwy cyrhaeddadwy, ac yn lleihau y draul o suddo pyllau o'r gwyneb i lawr atynt. Nid oedd y Dyffryn poblog hwn y pryd hwnw ond megys yn ei fabandod, ac eto yr oedd y profion oedd wedi eu gwneyd arno gan eraill, ynghyd a gorweddiad yr haenau, yn rhoddi seiliau cryfion i Mr. Davies i gredu y byddai ei anturiaeth yn llwyddiannus. Nid oedd yn llamu i'r tywyllwch, ond meddai ddigon o ffeithiau ger ei fron i'w argyhoeddi ei fod yn ymlwybro yn nghyfeiriad diogelwch a llwyddiant. Yr oedd pyllau wedi eu suddo yn barod ar yr ochr arall i'r Dyffryn. Yr oedd pwll Ardalydd Bute wedi ei agoryd lawer o flynyddoedd cyn i Mr. Davies anturio ar ei waith. Yr oedd Cwmni pwll Ynysfeio wedi bod yn gweithio yn y glo am rai blynyddoedd. Yn yr un modd yr oedd pwll glo y Dinas wedi bod yn codi glo am gryn lawer o amser. Yr oedd y Meistri Coffin wedi dechreu suddo am lo oddeutu ugain mlynedd cyn hyn, ond digalonodd y Cwmni hwn cyn cyrhaedd y trysor, a bu y gwaith yn sefyll am flynyddoedd lawer. Yr oedd pwll Abergorci wedi cyrhaedd y glo cyn i Mr. Davies gychwyn, ac yr oedd pwll Dunraven wedi ei ddechreu. Yr oedd yr holl brofion hyn yn dangos ansawdd y nwydd, ond gallu suddo ato a'i weithio heb i'r treulion orbwyso yr ennillion. Wedi i Mr. Davies gael ei lwyr argyhoeddi am ddiogelwch yr anturiaeth, gorchymynodd i'r parth uchaf o Ddyffryn y Rhondda gael ei archwilio a'i fesur. Wedi i hyn gael ei orphen, daeth i gytundeb â Mr. Crawshay Bailey am brydles ar gyfran helaeth o dir, er mwyn dadblygu ei ansoddau tanddaearol. Arwyddwyd y cytundeb, ac ymhen amser cafwyd y brydles yn barod, ac arwyddwyd hithau. Hwn oedd hedyn cyntaf y gweithiau eang a adnabyddir yn awr fel un o'r gweithiau glo mwyaf llwyddiannus yn

y deyrnas, dan yr enw "Ocean Collieries."

Wedi i'r anturiaeth gyntaf hon droi allan yn llwyddiannus, penderfynodd Mr. Davies eangu ei weithiau, a thuag at hyn cymerodd brydlesoedd ar ychwaneg o dir gan dirfeddiannwyr eraill yn y gymydogaeth, megys y Meistri Morgans, o Tremaines, Griffith Llywelyn, Ardalydd Bute, &c., a suddodd byllau newyddion y naill ar ol y llall, nes y maent yn awr yn saith mewn rhifedi. Y pyllau cyntaf a agorwyd oedd pyllau y Maindy, a Cwmparc. Yr oedd cymeriad y tir o dan ba un y gweithir y glo yn y pyllau hyn yn cymeryd lle ar y 29ain o Fedi, 1864. Daethpwyd o hyd i'r glo, neu "tarawyd ef," fel y dywed y glowyr, yn Chwefror, 1866. Y mae y pwll cyntaf yn mesur 212 o latheni o'r gwyneb i lawr at yr haen gyntaf o lo ager *(steam coal)*, a'r diweddaf 132 o latheni. Y pwll nesaf a agorwyd oedd pwll Cwmdâr, a chymerodd hyn le yn 1869. Agorwyd pyllau yr "Eastern," gerllaw yr Ystrad, a'r "Western," yn Nghwmogwr, y ddau oddeutu yr un adeg, sef tua 1872 ac 1873. Agorwyd y chweched pwll yn Cwm Garw yn 1884 ac 1885; a'r seithfed, yr hwn a adnabyddir dan yr enw pwll "Lady Windsor," yn Llanwyno, yn 1885—86.

Nid oes yr un nwydd ag y mae llwyddiant y deyrnas hon yn dibynu cymaint arno a'r glo. Y mae'r gwahanol ddybenion i ba rai y defnyddir ef, mor lliosog, fel na oddef ein gofod i ni eu crybwyll. Y mae'r Arglwydd yn ei Ragluniaeth yn d'od â dynion o alluoedd neillduol ac amgylchiadau cymhwys i ddadblygu y galluoedd hyny i gyfarfod â'u gilydd. Cododd Watt a Stephenson i ddyfeisio yr agerddbeiriant a'r agerddgerbyd, a chododd y llen oddiar ystorfeydd helaeth o lo i gynnyrchu yr agerdd bron ar yr un pryd. Pa ddyben a ateba adnoddau materol helaeth, heb alluoedd meddyliol craff a chyflym i ddysgu dynion pa ddefnydd i wneyd o honynt? Y mae'n sicr na buasai fawr o werth ar y glo oni b'ai am y ddwy ddyfais ryfedd hyn. Ond gyda'r rhai hyn, gellir ei gludo yn gyflym ac yn rhad i bob rhan o'r deyrnas, a'i drosglwyddo yn symiau mawrion i holl borthladdoedd y byd, ac nid oes un dosbarth o gymdeithas nad yw yn gwneyd defnydd helaeth o hono. Y mae'r cynnydd sydd wedi cymeryd lle yn nadblygiad y gangen hon o fasnach yn y 30 mlynedd diweddaf bron yn anhygoel. Y mae dyn fel pe byddai wedi ennill buddugoliaeth lwyr ar y ddaear ac yn rhwygo ei choffrau yn agored, gan ei hysbeilio o'i meddiannau. Y mae ystorfeydd o gyfoeth tanddaearol fel pe buasent yn anhysbyddadwy, a dyn yn eu cloddio i'r gwyneb gyda'r fath fedrusrwydd, yni ac awch, a phe buasent i barhau byth. Er fod llanw a thrai yn perthyn iddi, y mae'n ammheus genym a oedd un fasnach yn y deyrnas â rhagolygon mor ddysglaer iddi 25 mlynedd yn ol a'r fasnach hon. Dengys y cynnydd dirfawr sydd wedi bod ar gynyrch ein glofeydd yn y cyfnod uchod graffder meddwl Mr. Davies. Gwyddai fod y llanw yn d'od i mewn, a gwthiodd ei lestr i mewn iddo. Gwelai fod y nwydd hwn mor ddefnyddiol fel ffynnonell yni anianyddol, a fod dyfeisiau a gwelliantau peirianyddol yn lliosogi, fel yr oedd y gangen hon o fasnach yn rhwym o fyned ar gynnydd. Cafodd fyw i weled cyflawniad ei ddyfaliadau. Gwel y darllenydd oddiwrth y daflen a ganlyn gyda pha gyflymdra y mae'n llamu yn ei blaen.

	Tunnelli o lo a godwyd yn holl lofeydd y deyrnas.
1854.....	64,661,000
1858.....	65,008,000
1862.....	83,638,300
1865.....	98,150,000
1884.....	160,757,000

Erbyn 1890 cyfrifir fod 176,000,000 o dunnelli o lo yn cael ei gloddio allan o'r ddaear yn flynyddol yn y deyrnas hon yn unig. Yn ddiweddar mewn cymhariaeth y daeth y nwydd hwn i chwareu rhan mor bwysig ar faes hanesiaeth. Ceir y crybwylliad cyntaf am dano yn hanes ein gwlad ni mewn hen *charter* a ganiatawyd gan Harry III. i drigolion Newcastle yn y flwyddyn 1234; ond ni ddaeth i arferiad cyffredin yn y rhan ddeheuol o'r deyrnas hyd deyrnasiad Charles I. Erbyn hyn, o'r holl adnoddau tanddaearol, efe yw prif ffynnonell cyfoeth ein teyrnas.

Y mae Glofeydd Cwmni yr Ocean, hanner cyfalaf pa un a berthynai i Mr.

Davies, yn rhoddi gwaith i dros 6000 o bersonau, a chyn bo hir dysgwylir y bydd eu nifer yn 7000. Codwyd y chwe' mis cyntaf o 1890, 870,000 o dunnelli o lo ynddynt, yr hyn sydd yn gyfartal a 1,740,000 yn flynyddol. Gellid codi yn flynyddol o'r pyllau hyn, pe byddai y glowyr yn gweithio gyda chysondeb, o lo mawr a mân ddwy filiwn o dunnelli (2,000,000). A chan fod y swm a gynnyrchir ynddynt yn myned ar gynnydd rheolaidd fel y maent yn ymeangu, nid yw yr ystorfa o lo a ddygir allan trwyddynt o goluddion y ddaear ymhell o gyrhaedd y swm enfawr hwn yn awr. Trwy y gweithfeydd llwyddiannus hyn bu Mr. Davies yn foddion i roddi moddion bywioliaeth yn nghyrhaedd degau o filoedd o drigolion Morganwg.

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

DOSBARTH IEUENGAF.

Gan y Parch. R. Humphreys, *Bontnewydd.*

LLYFR GENESIS.

Rhagfyr 7fed. Gen. xix. 15—30. Boreu olaf y Dinasoedd.

Yr ydym wedi cael lliaws o engreifftiau o'r gwahaniaeth mawr oedd rhwng Abraham a Lot o ran eu cymeriadau. Y mae yr oll yn myned i brofi uwchafiaeth mawr Abraham ar Lot fel dyn ac fel sant. Y mae y cyfeiriadau a wneir at Lot yn y Testament Newydd yn rhoddi pob sail i gredu ei fod yn ddyn duwiol (2 Petr ii. 7, 8). Ond yr oedd yn ddyn duwiol â cholliadau pwysig ynddo. Fe ddaw un o'i golliadau i'r golwg yn yr hanes a geir yn y wers hon. Yn yr holl orchymynion a roddwyd i Abraham gan yr Arglwydd nid oes genym hanes ei fod gymaint ag unwaith yn petruso ynghylch rhoddi ufudd-dod iddynt, er y byddai hyny weithiau yn golygu aberth mawr ar ei ran. Yn y wers hon y mae Lot yn cael gorchymyn i fyned allan o Sodom er mwyn achub ei fywyd, ond y mae yn hwyrfrydig i ufuddhau. Dengys felly annybendod i wneyd yr hyn a orchymynai yr Arglwydd iddo pan yr oedd hyny y fantais fwyaf iddo. Yr oedd yn ddyn o feddwl gwan ac o ffydd wan. Y mae yr Arglwydd yn dangos tynerwch mawr tuag ato er hyny. Dangosir y tynerwch trwy waith y gŵr yn ymaflyd yn ei law, ac yn llaw ei wraig, ac yn llaw ei ddwy ferch, ac yn eu gosod o'r tu allan i'r ddinas. Ar ol eu cael allan, gorchymynir i Lot ddianc i'r mynydd. Y "mynydd" hwn oedd yr un a alwyd ar ol hyny yn fynydd Moab. Safai ar du y dwyrain i'r Iorddonen. Gorchymynid iddo hefyd beidio edrych ar ei ol, er mwyn iddo ddangos ei fod yn dianc yn ewyllysgar, ac nad oedd yn gadael ei galon ar ol yn Sodom wrth fyned allan o honi. Ar ol cael y gorchymyn hwn, y mae Lot yn dangos gwendid ei ffydd ymhellach trwy amlygu ei anfoddlonrwydd i fyned i'r mynydd am ei fod ymhell, a bod arno ofn i ddrwg ei oddiweddyd; hyny yw, ofn i'r dinystr oedd ar ddisgyn ar Sodom ei ddal ef cyn iddo gyrhaedd yno. Am hyny, gofyna am gael ffoi i ddinas fechan (Soar) oedd yn ymyl. Y mae yn gofyn am i'r ddinas hono gael ei chadw, nid er mwyn y trigolion oedd yn byw ynddi, ond er ei fwyn ef. Y mae hon yn engraifft ychwanegol o'i hunanoldeb. Caniataodd yr Arglwydd ei ddymuniad. Galwodd Lot enw y ddinas hono Soar. Ystyr yr enw Soar yw *bychander*. Ei henw blaenorol oedd Bela. Cyfeirir ati o'r blaen yn hanes rhyfel y breninoedd (pen. xiv. 2). Erbyn i Lot gyrhaedd Soar, yr oedd yr haul wedi codi. Yna gwlawiodd yr Arglwydd "oddiwrth yr Arglwydd," h. y., gwlawiodd yr Arglwydd oddiwrtho ei hunan, frwmstan a thân, &c. Troseddodd y wraig delerau y waredigaeth, a hi a aeth yn golofn o halen. Darfu i ewyn y gwlaw hallt, brwmstanaidd, ei mygu, ac yna aeth yn grawen am ei holl gorff. Cafodd gynnyg ar waredigaeth am ei bod yn wraig i Lot, ond nid oedd ei pherthynas â Lot yn ei chadw rhag cosb pan y darfu iddi bechu. Y mae y Môr Marw yn awr yn gorchuddio y lle y safai y dinasoedd hyn arno. Nid yw yn hollol sicr pa un ai yn y pen gogleddol ai yn y pen deheuol yr oeddynt. Yr oedd yr hen esbonwyr o blaid y golygiad cyntaf, ac y mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr diweddar o blaid yr ail. Yr oedd Abraham yn byw, fel y cofir, dan dderw Mamre. Aeth yn foreu i'r man lle yr oedd wedi bod yn eiriol dros y dinasoedd i weled y dinystr. Ni fu ei eiriolaeth drostynt yn ofer, canys gwaredwyd Lot, yn ol pob tebyg, mewn canlyniad iddi.

RHAGFYR 14EG. GEN. XX. 1—18. ABRAHAM YN GWADU EI WRAIG YR AIL WAITH.

Y peth cyntaf a geir yn y wers yw ymadawiad Abraham o Mamre "i dir y dehau," sef parthau deheuol Gwlad Canaan, Gerar. Tref ac ardal yn nghwr deheuol gwlad Canaan, yn ngwlad y Philistiaid, yn agos i Gaza. Cades: dinas tua 24 milldir i'r dehau i Hebron, ar gŵr anialwch Paran: yr un lle a Cades Barnea, ac a elwid gynt Enmispat (pen. xiv. 7). Sur: lle ar derfyn dwyreiniol yr Aipht. Abimelech: yr oedd yr enw yn un cyffredinol, yn treiglo o dad i fab, fel yr enw Pharaoh ar freninoedd yr Aipht. Brenin Gerar ydoedd Abimelech. Ystyr yr enw yw *tad y brenin*. Yr oedd Sarah yr adeg yma tua 90 oed. Er ei hoedran mawr cymerodd Abimelech hi ato. Yr oedd ei hieuenctyd wedi ei adnewyddu er pan gafodd yr addewid am Isaac, ac ymddangosai yn ieuanc. Y rheswm i Abimelech ei chymeryd ato oedd gwaith Abraham yn hysbysu mai ei chwaer oedd Sarah. Yr oedd Abraham yn ddyn da, ond nid oedd yn ddyn perffaith. Mae yn bosibl fod yr amgylchiadau yn gwneyd y demtasiwn i Abraham yn un gref iawn. Ond dylid cofio nad oes unrhyw amgylchiadau yn gwneyd anwiredd yn beth cyfreithlawn. Yr oedd Abraham wedi arwain ei hun i brofedigaeth o'r blaen trwy ddyweyd anwiredd (gwel pen. xii. 10—20), a dylasai y wers a gafodd y pryd hwnw ei gadw rhag celu y gwir drachefn. Cyfryngodd yr Arglwydd yn y mater trwy lefaru wrth Abimelech, a'i hysbysu ei fod yn ddyn marw os na fyddai iddo roddi Sarah yn ol i'w phriod. Y mae adn. 4, 5, yn cynnwys amddiffyniad Abimelech iddo ei hun. "A leddi di genedl gyfiawn hefyd?" Casglai y brenin fod ei ddeiliaid, yn ogystal ag yntau, i gael eu cosbi, a dadleuai ddiniweidrwydd y bobl dros iddynt gael eu harbed. Yn adn. 5 dadleua ei ddiniweidrwydd ei hun. Yn adn. 6, 7, cydnebydd yr Arglwydd fod ei ddadl yn un deg, a dywed wrtho pa fodd i weithredu tuag at fod yn rhydd o fai. "Prophwyd:" Abraham yw y cyntaf a elwir yn brophwyd yn y Bibl. Ystyr y gair yn y lle hwn yw *un yn siarad dros arall*. Am hyny dywed yr Arglwydd y byddai i Abraham weddio arno Ef drosto. Ar ol galw ei weision a hysbysu geiriau yr Arglwydd wrthynt, y mae y brenin yn galw am Abraham ac yn ei geryddu. Yn ei amddiffyniad dywed Abraham *fod* Sarah yn hanner chwaer iddo. Nid oedd hyn yn ei gyfiawnhau, oblegid pan y daeth Sarah yn wraig iddo yr oedd y berthynas o hanner chwaer yn ymgolli yn y berthynas newydd. Ni wyddom ddim am enedigaeth Sarah, ond yr hyn a ddywedir yma. Y mae yr hyn a ddywed Abraham yn profi mai nid yr un ydoedd ag Iscah fel y tybia rhai. Cymmodwyd y ddau â'u gilydd, a rhoddodd Abimelech i Abraham fil o ddarnau arian; tua £125 o'n harian ni. Y mae ystyr adn. 16 fel y canlyn:—"Wele rhoddais i'th frawd fil o ddarnau arian; wele, bydd yn orchudd llygaid i bawb sydd gyda mi (h.y., bydd i iawn mor fawr a hyn am dy gymeryd oddiar dy ŵr yn brawf i'th holl gyfeillion, a'r rhai sydd gyda thi, dy fod wedi cael ymddwyn yn anrhydeddus tuag atat yn ystod yr adeg y buost oddiwrtho), a chyda golwg ar yr oll a ddygwyddodd, yr wyt wedi cael iawn digonol."

RHAGFYR 21AIN. GEN. XXI. 1—14. GENI ISAAC.

Y gofyniad cyntaf oddiwrth y wers yw, pa bryd y llefarodd yr Arglwydd wrth Sarah? Ceir yr ateb yn pen. xvii. 19; xviii. 10, 14. Rhoddodd Abraham yr enw Isaac ar ei fab yn ol y gorchymyn (xvii. 19). Galwer i gôf ystyr yr enw. Enwaedodd ef hefyd yn ol y gorchymyn (xvii. 10, 12). Wrth ddyweyd fod Duw wedi gwneyd iddi chwerthin, y mae Sarah yn cyfeirio at yr adeg yr hysbyswyd gyntaf y byddai iddi fod yn fam (xviii. 12). "A chwardd gyda mi." Yn llythyrenol, *a chwardd am fy mhen*, h.y., fe fydd y syniad am hen wraig 90 oed yn cael mab yn destyn chwerthin i bawb a glywo yr hanes. Ymhen amser daeth yn amser diddyfnu y plentyn. Ymysg yr Hebreaid nid oedd plant yn cael eu diddyfnu cyn bod yn dair oed. Gan fod Ismael yn 13 oed pan enwaedwyd ef (xvii. 25), ac mai ymhen y flwyddyn ar ol hyny y ganwyd Isaac (xvii. 21), yr oedd Ismael felly adeg diddyfnu Isaac yn llanc dwy ar bymtheg oed. Yr oedd gwneyd gwledd adeg diddyfnu yn beth arferedig ymysg yr Hebreaid, ac y mae yn arferiad eto yn India a Persia. Yr oedd dau fab Abraham yn bresennol yn y wledd. Yr oedd gan Ismael achos i deimlo yn siomedig oblegid yr oedd wedi cael ei arwain i gredu o'i febyd mai efe fyddai etifedd Abraham. Ond yn awr dyma fab arall wedi ei eni, a gwledd yn cael ei chynnal ar ei ddiddyfniad. Nid annaturiol gan hyny oedd iddo watwar (adn. 9). Ystyr y gair "gwatwar" yn y lle hwn yw *chwerthin yn wawdlyd*. Bu Isaac yn achlysur tri chwerthiniad gwahanol i'w gilydd. Chwarddodd Abraham o lawenydd; chwarddodd Sarah yn anghrediniol; chwarddodd Ismael yn wawdlyd. Gwelodd Sarah Ismael yn chwerthin. Nid oes dim yn myned yn

ddyfnach i galon mam na gwawdio ei mab, am hyny, yn nghanol llawenydd y wledd, rhoddir gorchymyn i Ismael gael ei fwrw allan o'r tŷ. Yn ei brofedigaeth oblegid hyn cafodd Abraham gadarnhad i orchymyn Sarah gan yr Arglwydd, a hysbysiad am ddyfodol y ddau fab ar yr yr un pryd (adn. 12, 13). 1. Yr oedd addewidion Duw i ddisgynyddion Abraham i ddyfod trwy Isaac: "Yn Isaac y gelwir i ti hâd." O hono ef yr oedd Crist a'i fendithion i ddyfod. 2. Er nad oedd bendithion y cyfammod i ddyfod trwy Ismael, yr oedd, er hyny, genedlaeth i ddisgyn o hono (gwel ar pen. xvi. 10; xvii. 20). Yr oedd Ismael i gael ei fendithio am ei fod yn fab i Abraham; prawf pellach o'r lle uchel oedd i Abraham yn ngolwg yr Arglwydd. Mae adn. 14 yn rhoddi hanes ufudd-dod Abraham. Nid yn anewyllysgar fel Lot yr oedd efe yn ufuddhau, ond yr oedd ei ufudd-dod yn barod ac ewyllysgar. "Costrel:" potel wedi ei gwneyd o groen gafr i ddal dwfr. "A'r bachgen hefyd:" nid yr ystyr yw fod y bachgen wedi ei roddi ar ei hysgwydd hi, oblegid yr oedd efe yn awr yn 17 oed, ond ei fod wedi cael ei ddwyn at ei fam gan ei dad i gychwyn ymaith. Mae yr un gair yn cael ei gyfieithu "llanc" yn pen. iv. 23. Beerseba *(ffynnon y llw)*: cwr eithaf Canaan yn y dehau, fel yr oedd Dan yn y gogledd (1 Chron. xxi. 2).

Rhagfyr 28ain. Gen. xxi. 15—34. Ismael ac Abimelech.

Yn y rhan gyntaf o'r wers (adn. 15—21), dangosir mewn modd tarawiadel bryder mam ynghylch ei bachgen, a'r pryder hwnw yn cael ei symud trwy i'r Arglwydd ddangos ei ofal am dano a'i amddiffyn drosto. Yn y gwastadedd poeth darfu y dwfr. Eisteddodd y fam a'r plentyn i farw. Nis gallai y fam edrych ar ei bachgen yn marw. Hi a'i bwriodd dan un o'r gwŷdd, h. y., dan un o'r coed, neu prysgoed. Aeth hithau bellder oddiwrtho. "Ergyd bwa," h. y., mor bell ag y bydd bwäwr yn gosod ei *target*. Wylodd Agar. Dyma y wylo cyntaf y cyfeirir ato yn y Bibl. Yr oedd Ismael hefyd yn wylo. Llais y llanc, ac nid llais y fam, a glybu yr Arglwydd. "A Duw a agorodd ei llygaid hi." Yr ystyr yw fod yr Arglwydd wedi cyfeirio ei llygaid at ffynnon oedd yn ymyl, yr hon nad oedd hi wedi gallu dyfod o hyd iddi pan yr oedd yn chwilio am ddwfr. "Perchen bwa:" bod yn alluog i saethu gyda bwa. Paran: yr anialwch a gynnwysai y drydedd ran o'r orynys a orweddai rhwng Canaan a'r Aight. Yn yr ail ran o'r wers, rhoddir hanes y cyfammod rhwng Abraham ac Abimelech. Gyda golwg ar Abimelech gwel ar pen. xx. 2. Phicol: prifweinidog y brenin. Ystyr yr enw yw *genau pawb*. Diau fod Abimelech yn gydnabyddus â phrif ddygwyddiadau bywyd Abraham, megys ei fuddugoliaeth ar y pedwar brenin, gwaredigaethau Sarah ei wraig (xii., xx.), a'r hysbysiad a roddodd yr Arglwydd i Abimelech am dano fel prophwyd. Yr oedd pethau o'r fath yn gwneyd y brenin yn awyddus i wneyd cyfammod o gyfeillgarwch âg ef. Am y drugaredd oedd Abimelech wedi ei gwneyd âg Abraham, gwel pen xx. 14—16. Cyn y boddlonai Abraham i dyngu yr oedd un mater ag yr oedd eisieu deall-twriaeth gyda golwg arno. Yr oedd gweision Abimelech wedi trawsfeddiannu ffynnon o ddwfr a berthynai i Abraham, a theimlai yntau yn oer at Abimelech mewn canlyniad. Nid oedd grym yn nghrerydd Abraham, oblegid ni wyddai Abimelech ddim am yr helynt. Y mae Abraham yn derbyn eglurhad y brenin, ac yn gwneyd cyfammod âg ef. Y dull boreuol o wneyd cyfammod oedd trwy aberthu saith o greaduriaid, neu trwy roddi saith o roddion (fel yn yr amgylchiad hwn), neu trwy bresennoldeb saith o dystion. Nid yw yn ymddangos fod Abimelech yn gydnabyddus a'r dull hwn, oblegid gofyna, "Beth a wna y saith hespin?" &c. Ateba Abraham mai yn dystiolaeth fod y pydew yn eiddo iddo ef. Nid prynu y pydew yr oedd Abraham, ond mynu cael sicrwydd o gydsyniad ffurfiol a chyffredinol ynghylch y pydew fel ei eiddo ef o hyny allan, fel na byddai lle i ymrafael byth mwy yn ei gylch. Yr oedd gwaith Abimelech yn derbyn yr anrhegion yn rhoddi y sicrwydd hwnw. "Hespinod:" defaid blwydd oed. "Beerseba:" gwel nodiad ar ddiwedd gwers y Sul o'r blaen.

DOSBARTH HYNAF.

YR EPISTOL AT YR HEBREAID.

Gan y Golygydd.

Sabboth, Rhagfyr 7fed. Heb. vi. 7, 8.

Adn. 7: *Canys y ddaear, yr hon sydd yn yfed y gwlaw sydd yn mynych ddyfod arni.* Cyfeiriad at ddarn o'r ddaear, at faes neilldnol—tir. Y mae y ferf "yfed" yn y gorphenol, "y tir, yr hwn a yfodd y gwlaw." Golyga y gair "yfed y gwlaw" fod y tir wedi ei fwydo â chawodau. "Yn mynych ddyfod arni:" desgrifiad o gyflawnder manteision y bobl yr ysgrifenai atynt. Dylasent fod yn athrawon o ran swm ac ansawdd y

triniaethau a gawsent. *Ac yn dwyn llysiau cymhwys i'r rhai y llafurir hi er ganddynt.* "I'r rhai y llafurir hi er eu mwyn" yw y cyfieithiad cywiraf. "Llysiau cymhwys"—cyfatebol i'r tir a'r driniaeth, a buddiol i berchen y tir. Yr hyn sydd yn cyfateb i'r tir da, ffrwythlon hwn yw y "gwaith a'r llafurus gariad," adn. 10. Dyma ffrwyth yn cyfateb o ran ei *natur* i'r driniaeth, er eu bod hwy ymhell iawn ar ol o ran gwybodaeth ac addfedrwydd y cymeriad Cristionogol. *Sydd yn derbyn bendith gan Dduw.* Y mae y ffrwythlondeb yn brawf o fendith Duw. Ond y mae mwy na hyny, y mae y ffrwythlondeb yn peri bendith ychwanegol: "I'r hwn y mae ganddo y rhoddir, ac efe a gaiff helaethrwydd."

Adn. 8: *Eithr yr hon sydd yn dwyn drain a mïeri.* Nid am ddau fath o dir y sonir, yn ol manylrwydd y geiriad, er y buasai hyny yn dyfod i'r un peth o ran egwyddor. Ar yr un pryd, un tir mewn dwy ystâd wahanol sydd yn cyfateb agosaf o ran ffurf i'r cymhwysiad a wna yr awdwr at yr Hebreaid hyn, y rhai oeddynt wedi cael y manteision mwyaf, a golwg obeithiol wedi bod arnynt unwaith, ond trwy ddiffrwythder oeddynt yn y perygl o syrthio ymaith yn hollol oddiwrth Gristionogaeth, ac o gyfranogi yn niwedd y tir anghymeradwy. *Sydd anghymeradwy.* Annerbyniol, gwrthodedig. *Ac agos i felldith.* Yn gyferbyniol i'r tir pan yn ffrwythlawn "yn derbyn bendith gan Dduw." Agos i gael ei rhoddi i fyny i *farn* o ddiffrwythder, fel y darfu i'n Hiachawdwr felldithio y ffigysbren ddiffrwyth, a chyhoeddi uwch ei phen, "Na thyfed ffrwyth arnat byth mwyach." *Diwedd yr hon yw ei llosgi.* Gwahaniaetha esbonwyr ar y cwestiwn beth yw rhagflaenorydd "yr hon"—pa un ai y tir ai y felldith. Yr olaf os cymerwn y cyfieithiad llythyrenol—"agos i felldith hyd at losgiad;" melldith yn dybenu mewn dinystr. Nid goddeithiad, nid llosgi y drain a'r chwŷn, ond y tir ei hunan. Y mae yn dra thebyg fod yma gyfeiriad at ddinystr dinasoedd y gwastadedd, a'r tir y safent arno, gan dân o'r nefoedd: Deut. xxix. 23.

Sabboth, Rhagfyr 14eg. Heb. vi. 9—12

Adn. 9: *Eithr yr ydym ni yn coelio am danoch chwi, anwylyd, bethau gwell, a phethau ynglŷn wrth iachawdwriaeth, er ein bod yn dywedyd fel hyn.* Try yr awdwr yn awr, gyda doethineb a thynerwch mawr, ar ol y rhybudd difrifol a roddasai, i ddadgan ei hyder am yr Hebreaid hyn mai nid tynged y tir drwg a fyddai eu diwedd hwynt. Y mae y gair "coelio" yn air cryf, ac yn golygu argyhoeddiad trwyadl. "Bethau gwell." Gwell na pha beth? Eu bod wedi profi pethau gwell, medd rhai esbonwyr, na'r pethau a brofasid gan y rhai a ddesgrifiwyd o'r blaen, yn gymaint a bod y rhai hyny yn cael eu tybied wedi syrthio ymaith, tra yr oedd y pethau hyn, yn ol yr ymadrodd nesaf, yn bethau cadwedigol. Yn llythyrenol "y pethau gwell"—*τὰ κρείττονα*—y pethau goreu o'r ddau ddosbarth o bethau a ddarluniwyd. Y pethau ynghylch y tir da yn dwyn ffrwyth. "A phethau ynglŷn wrth iachawdwriaeth." Yr oeddynt yn "well" am eu bod "ynglŷn wrth iachawdwriaeth." Y ffrwythlonedd a'r fendith a berthynai i'r tir da. Credai yr awdwr fod gan yr Hebreaid hyn rasau cadwedigol a'u ffrwyth, pethau anwahanol oddiwrth iachawdwriaeth. Noda hwynt yn yr adnod nesaf, "Er ein bod yn dywedyd fel hyn," sef wedi dyweyd mor bell yn ol oeddynt, ac wedi rhoddi y rhybudd a'r darluniad difrifol o'r diwedd ag yr oedd tuedd yn y fath gyflwr i arwain iddo.

Adn. 10: *Canys nid yw Duw yn anghyfiawn, fel yr anghofio eich gwaith a'r llafurus gariad, yr hwn a ddangosasoch tuag at ei enw ef.* Dywedir i ni fod y gair "llafurus," neu "llafur" yn hytrach, allan o'r llaw-ysgrifau hynaf. Gwrthodir ef gan y beirniaid diweddaraf yn hollol. Bernir iddo gael ei ddwyn i mewn i'r testyn gan gopïwr y llawysgrif D. o 1 Thess. i. 3. Dyma "gariad"—gras cadwedigol, ynglŷn wrth iachawdwriaeth, a chariad yn profi ei hunan yn ei "waith:" "eich gwaith a'ch cariad." Dyma y triniaethau yn dwyn ffrwyth, fel y sylwasom ar yr adnodau 4, 5, 6, tra nad oedd dim ffrwyth ar y rhai a ddarlunir yno, ond yn lle ffrwyth y drain a'r mïeri o ail-groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw. Y ffurf neillduol ar y "gwaith" a nodir yma yw cyfranu i gyfreidiau y saint, a'u gwasanaethu, mewn tymmorau o erledigaeth dybygid. Nodweddid yr Eglwys Gristionogol ymysg yr Hebreaid, fel y noda Dr. Thomas, o'i sylfaeniad cyntaf gan y gras hwn, ac yr oeddynt yn parhau ynddo: Act. ii. 44, 45; iv. 32—37. Sylwa Principal Edwards gan nad yw yn sicr fod yr enw "y saint" yn cael ei ddefnyddio yn y Testament Newydd am yr eglwys yn Jerusalem yn arbenig, y gellir esbonio yr adnod hon fel canmoliaeth i'r aelodau yn eglwys Jerusalem am gynnorthwyo eu gilydd. Yr oedd yno rai heb fod yn dlawd, yn ol Rhuf. xv. 26 (yn y gwreiddiol). "Nid yw Duw yn anghyfiawn." Nid yw yn anffyddlawn i'w ordeiniad, ei Air a'i addewidion. Addaw-

odd o'i ras wobrwyo y rhai sydd yn ffyddlawn yn ei wasanaeth, er nas gall y rhai goreu hawlio dim ar dir haeddiant. Fel yn 1 Ioan i. 9: "Ffyddlawn yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau."

Adn. 11: *Ac yr ydym yn chwennych fod i bob un o honoch ddangos yr un diwydrwydd.* Yn hytrach "*Ond* yr ydym yn chwennych." Er ei fod mor obeithiol am danynt eu bod mewn cyflwr cadwedig, nid yw efe am iddynt hwy gymeryd hyny yn achlysur i ymddiofalhau, ond i ymroddi i lafur crefydd, fel ag i gyrhaedd llawn sicrwydd gobaith am eu hachos eu hunain. "Pob un;" yr oedd rhai o honynt fel hyn. "Yr un diwydrwydd" â pha beth? Yr un ag oeddent wedi ei ddangos hyd yma mewn gweini, dal ati, myned ymlaen yn yr un cyfeiriad hyd y diwedd. Dyma yr hen olygiad, a dadleua Dr. Thomas yn gryf drosto. Golygiad Calvin a Bengel, a'r esbonwyr diweddar gan mwyaf yw, mai yr un diwydrwydd i gyrhaedd llawn sicrwydd gobaith ag a ddangosasent mewn gweini i'r saint. Hwn a amddiffyna Principal Edwards. *Er mwyn llawn sicrwydd gobaith hyd y diwedd.* Hyder cryf a sicr ar seiliau da, nid yn unig o gadernid trefn yr Efengyl, ac o sicrwydd cadwedigaeth pob un a gredo, ond o'n hawl personol ni ein hunain yn Nghrist, ac o sicrwydd ein hiachawdwriaeth drwyddo.

Adn. 12: *Fel na byddoch fusgrell.* "Fel na ddeloch i fod yn fusgrell." Gair tyner. Neu yn hwyrdrwm, fel yr oeddynt mewn gwirionedd wedi bod. *Eithr yn ddilynwyr i'r rhai trwy ffydd ac amynedd sydd yn etifeddu yr addewidion.* Yn efelychwyr, yn ddynwaredwyr, i'r tadau enwog oeddynt wedi cyflawni gorchestion a gorchfygu pob anhawsderau trwy ffydd. Ffydd yma yw y *gallu* sydd mewn crefydd—y gallu i orchfygu pob rhwystr, i gyflawni pob gwrolwaith yn y bywyd crefyddol. Nid yr ystyr yn Epistolau Paul o *gredu* yn Nghrist yn gyferbyniol i weithredoedd. Ond dwy ochr ydynt i'r un gras, neu yn hytrach yr un gras fel achos ac effaith. Yr oedd y tadau wedi etifeddu yr addewidion yn eu cyflawniad.

Sabboth, Rhagfyr 21ain. Heb. vi. 13—16.

Adn. 13: *Canys Duw, wrth wneuthur addewid i Abraham, oblegid na allai dyngu i neb oedd fwy, a dyngodd iddo ei hun.* Teimlir anhawsder mawr gan rai esbonwyr i benderfynu cysylltiad y geiriau hyn â'r adnodau blaenorol. Defnyddir y gair a gyfieithir "canys" weithiau mewn ffordd o ymresymiad, ac weithiau mewn ffordd o eglurhad, fel prawf ac fel engraifft. Y mae esiampl Abraham, medd Principal Edwards, yn engraifft ac yn brawf. I Abraham y gwnaethpwyd yr addewid fawr am Grist, o'r hon y deilliodd yr holl addewidion eraill. A'r addewid hon, yn rhinweddol—yr iachawdwriaeth trwy Grist a'r oll a gynnwysa—yw yr un y gelwir yr Hebreaid i'w hetifeddu. "Tyngu iddo ei hun"—tyngu yn ei *enw* ei hun. Annoga yr Apostol i ffydd ac amynedd er mwyn etifeddu yr addewidion, trwy ddangos cadernid a dianwadalwch yr addewidion.

Adn. 14: *Gan ddywedyd, Yn ddiau gan fendithio y'th fendithiaf, a chan amlhau y'th amlhaf.* Dyma y llw, neu yr addewid yn gysylltiedig â'r hon y gwnaed y llw. Gen. xxii. 16.

Adn. 15: *Ac felly, wedi iddo hir ymaros, efe a gafodd yr addewid.* Credwn gyda Principal Edwards fod yr "hir ymaros" hwn yn cymeryd i mewn nid yn unig ei fywyd ar y ddaear, ond ei "ddysgwyliad ffyddlog ac amyneddgar yn y nefoedd, hyd nes y gwelodd efe ddydd Crist ac y llawenychodd." Gwel y Nodiadau yn y Drysorfa ar y Wers:—Ioan viii. 56.

Adn. 16: *Canys dynion yn wir sydd yn tyngu i un a fo mwy.* Eglurhad ar y llw dwyfol fel sail ffydd i ddynion yn ngwirionedd yr addewid. Eglurhad oddiwrth yr arferion sydd yn ffynu ymhlith dynion. "Tyngu i'r mwy," neu "yn enw yr un mwy," hyny yw, mwy na phawb, sef Duw." *A llw er sicrwydd, sydd derfyn iddynt ar bob ymryson.* Gosoda yr ysgrifenydd allan werth llw, fel y mae yn cael ei gydnabod ymhlith dynion, fel y sicrhâd uchaf a ellir ei roddi ar unrhyw beth ag y mae ammheuaeth yn ei gylch, gan y naill ddyn i'r llall. Cynnwysa llw apêliad difrifol at wybodaeth a gallu goruwch-naturiol i gadarnhau yr hyn a dystiolaethir. A pha beth mwy a all dyn ei gael na'i ofyn? Felly y mae llw y sicrhad uchaf, ac am hyny cymerir ef i derfynu pob ymryson.

Sabboth, Rhagfyr 28ain. Heb. vi. 17, 18.

Adn. 17: *Yn yr hyn.* Yr ystyr dybygid yw, "yn unol â hyn," sef am fod llw y sicrhâd uchaf. *Duw, yn ewyllysio yn helaethach ddangos i etifeddion yr addewid ddianwadalwch ei gynghor.* Y mae y geiriau "yn helaethach" i'w cysylltu â "dangos," nid âg ewyllysio; "ewyllysio dangos yn helaethach." Yn helaethach na pha beth? Nag yr oedd *wedi* dangos eisoes trwy addewid. Yr oedd yr addewid yn dangos dianwadalwch y cynghor, ond dyma ddangosiad helaethach. *A gyf-*

ryngodd trwy lw. Dywedir yma *trwy* ba beth y cyfryngodd. Ond *rhwng* pa beth-au? Y mae amrywiaeth golygiadau ar hyn. Rhwng Duw ei hun a'i addewid; rhwng y credinwyr a'r addewid; neu rhyngddo Ef ei hun fel un yn addaw, a hwythau fel y rhai yr addewid iddynt. Dywed Principal Edwards mai dyma yr hyn sydd yn y llw yn ychwaneg na'r addewid: wrth addaw fod Duw yn gosod ei hun rhwng Abraham yn derbyn yr addewid ac Abraham yn cyflawni ammodau yr addewid. Daliodd Abraham y prawf o ufudd-dod. Yna gwobrwyodd Duw Abraham trwy gymeryd llw. Safodd yn awr rhwng Abraham fel derbynydd a Duw ei hun yn ei eirwiredd a'i ffyddlondeb iddo ei hun.

Adn. 18: *Fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog.* Y "ddau beth," medd rhai, oedd y ddau lw, un i Abraham a'r llall i'r Mab. Ychydig esbonwyr sydd yn rhoddi yr ystyr yna. Yr addewid a'r llw yw y ddau beth, yn ol y rhan fwyaf. Eraill, y cynghor a'r llw. "Gallai yr addewid fod yn ammodol, yna byddai y cyflawniad yn ansicr. Ond nid felly *cynghor* Duw, yr hwn sydd yn sicr o gael ei gyflawni" (Edwards). Barna yr un esboniwr fod y gair "anmhosibl" yn cael ei ddwyn i fewn yma mewn cyfeiriad at yr "anmhosibl" arall ynglŷn âg adferiad y rhai a syrthient ymaith. Y mae yn anmhosibl adfer y rhai a syrthiant ymaith; ac y mae yr un mor anmhosibl i'r rhai na syrthiant ymaith fethu etifeddu yr addewid, am fod yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog. *Y gallem ni gael cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen.* Golyga y gair a gyfieithir "cysur," gymhelliad, calondid, annogaeth. Y mae yn gysur "cryf" am ei fod yn cryfhau dynion i gymeryd gafael gref yn y gobaith. Fel yna y dealla rhai esbonwyr enwog y geiriau:—"Y gallem ni, y rhai a ffoisom, gael cymhelliad cryf i gymeryd gafael cadarn yn y gobaith a osodwyd o'n blaen." "*A ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen.*" Tybir gan esbonwyr yn gyffredin fod yma gyfeiriad pendant at y llofrudd gynt yn Israel yn ffoi i'r ddinas noddfa rhag dialydd y gwaed, ac felly y mae llïaws yn cyfieithu, "Y rhai a ffoisom am noddfa." Neu, fel y bernir, gall fod yma gyfeiriad at un yn ffoi i ymaflyd yn nghyrn yr allor am arbediad a bywyd. Y mae y geiriau "cymeryd gafael" yn awgrymu y cyfeiriad olaf. Sylwa Principal Edwards yn darawiadol iawn fod yr awdwr yn symud yma oddiwrth hanes Abraham, yn ffydd yr hwn yr oedd llawer o bethau annhebyg, yn gystal â thebyg, i ffydd y ffyddloniaid Cristionogol. "Nid oes dim," meddai, "yn nghrefydd Abraham y gellir ei gymharu â ffoi rhag y llid a fydd. Ei hiraeth ef oedd cael ei gasglu at ei dadau yn y ddinas y mae iddi sylfeini." Gallai fod yma olwg ar ffoedigaeth Lot.

Pa fodd y dywedir yn "y gobaith a osodwyd o'n blaen?" Gras tumewnol ydyw gobaith. Gwrthddrych gobaith, medd llïaws o esbonwyr—yr hyn y gobeithir am dano. Tybia Principal Edwards fod yr awdwr yn desgrifio y teimlad o obaith ei hun fel gwrthddrych i ddal gafael sicr yn ddo; gan ei fod yn yr adnod nesaf yn son am y teimlad oddifewn fel gwrthddrych oddiallan, fel "angor." Y gobaith ei hun, medd efe, yw allor ein diogelwch. Gollwng y gafael o obaith, sef llwfrhau, oedd perygl mawr yr Hebreaid.

Hanesion a Darnau Detholedig.

HANES DECHREUAD METHODISTIAETH YN TANYGRISIAU, FFESTINIOG.

AIL YSGRIF.

Gan Robert Rowland, Ysw., U.H., *Pwllheli.*

Y mae cryn amser wedi myned heibio er pan ymddangosodd ein hysgrif gyntaf ar y penawd uchod, ac yr addawsom ychydig nodiadau bywgraffyddol ar rai o'r hen frodyr anwyl a ddefnyddiwyd mor amlwg gan Dduw i gychwyn achos crefydd yn yr ardal uchod. Lluddiwyd ni i gyflawni hyny hyd yn bresennol gan amlder gorchwylion eraill, ynghyd a hwyrfrydigrwydd ysbryd at y gorchwyl o ysgrifenu.

Wrth alw i gof mor ddiddysg, diddawn, a chyffredin oedd y dynion hyn, a'r gwaith mawr a wnaed trwyddynt, nis gallwn lai na chyfeirio at ymadroddion yr Apostol Paul: "Canys y mae ffolineb Duw yn ddoethach na dynion, a gwendid Duw yn gryfach na dynion. Canys yr ydych yn gweled eich galwedigaeth, frodyr, nad llawer o rai doethion yn ol y cnawd, nad llawer o rai galluog, nad llawer o rai boneddigion, a alwyd. Eithr Duw a etholodd ffol bethau y byd, fel y gwaradwyddai y doethion; a gwan-bethau y byd a etholodd Duw, fel y gwaradwyddai y pethau cedyrn; a phethau distadl y byd, a phethau dirmygus a

ddewisodd Duw, a'r pethau nid ydynt, fel y diddymai y pethau sydd; fel na orfoleddai un cnawd ger ei fron ef." Y mae'r geiriau a ddyfynwyd yn ddarluniad llythyrenol o sefyllfa pethau yn Tanygrisiau, ar sefydliad yr eglwys Fethodistaidd gyntaf yn y lle; a'r gwaith rhyfeddol a wnaed trwy y fath offerynau yn brawf diammheuol mai trwy Dduw y galluogwyd hwynt i gyflawni gwaith mor rhagorol, fel y gellir ychwanegu yn eithaf priodol, "Felly nid yw yr hwn sydd yn planu ddim na'r hwn sydd yn dyfrhau; ond Duw yr hwn sydd yn rhoi y cynnydd." Gogoneddwn Dduw gan hyny yn ein tadau a lafuriasant mor ffyddlawn yn ngwinllan eu Harglwydd!

Y cyntaf o'r hen frodyr hyn ddaw tan ein sylw ydyw John Pierce, gŵr byr a thrwchus, ei gerddediad yn araf, ac wedi gwargrymu i raddau helaeth pan y daethom ni i adnabyddiaeth o hono; ei wisgiad, er yn blaen a diaddurn, yn daclus a thrwsiadus. Siaradwr arafaidd ydoedd, ei dôn bob amser yn y cywair lleddf, tymher naturiol lled afrywiog, ond wedi ei sancteiddio gan ras Duw, i raddau helaeth iawn, fel mai anfynych y deuai i'r golwg yn ei ymwneyd â'i gyd-ddynion, yn neillduol felly yn ei gysylltiadau crefyddol.

Mab ydoedd i Pierce Dafydd a Catherine Jones, Bwlch-y-we (neu Bwlchywaedd). Ymddengys mai cyfyng a gwasgedig iawn oedd amgylchiadau'r teulu pan anwyd John Pierce (y pedwerydd o'r wyth plentyn) yn 1795. Fe'n hysbyswyd gan ei nai, y diweddar Mr. Pierce Davies, Porthmadog, iddo glywed ei dad, David Pierce, yn dyweyd fod prinder ymborth anarferol yn y wlad pan oedd John tua phedair oed, yr adeg y dechreuodd yr anghydfod blin rhwng y wlad hon a Ffrainc, yr hwn a barhaodd hyd frwydr fythgofiadwy Waterloo yn 1815. Yr oedd y prinder gymaint fel yr ymborthai teuluoedd tlodion ar gloron a maip mân, &c. Pan y daeth i'r plwyf lwyth o ryg *(rye)*, ac y rhanwyd ef rhwng y teuluoedd, fe aeth ei fam Catherine Jones â'r dogn a ddaeth i'w rhan hwynt fel teulu, yn ddiymaros ar ei hysgwyddau yn llawen ei hysbryd i'w falu, i felin Pengwern, tua hanner milldir o bellder o Bwlchywaedd; ond erbyn cyrhaedd yno yr oedd cynifer o'r plwyfolion wedi cyrhaedd o'i blaen ar yr un neges, fel nad oedd gobaith i'w thro hi ddyfod oddiamgylch y diwrnod hwnw. Cyfeiriodd ei chamrau yn frysiog i felin Tanybwlch, pellder o dair milldir, ond yn anffodus iddi hi a'i theulu, yr oedd y dwfr wedi pallu. Cymaint oedd teimlad y fam, fel y penderfynodd fyned oddiyno drachefn i felin Tyddyndu, yn agos i hen drigle gysegredig yr Archddiacon Prys, pellder o tua dwy filldir o'r lle olaf yr aeth iddo. Wedi llwyddo yn ei neges y tro hwn, y mae'n cyfeirio ei chamrau tuag adref yn hwyr ar y dydd, yn flin ei gwala, ond ei hysbryd o'i mewn wedi ei sirioli gan y gobaith o allu rhoddi ymborth i'w rhai bychain, yn gystal ag iddi hi ei hun a'i phriod. Gweithiai Pierce Dafydd, y tad, yn y ffermydd cyfagos, yn gystal ag ar ei dyddyn ei hun, er cael moddion cynnaliaeth iddo ef a'i deulu lliosog. Yr ydym yn cael i'r tad, mewn amser wedi hyn, benderfynu dwyn John i fyny yn saer coed, ac i'r perwyl hwnw anfonodd ef at ŵr o'r enw ——— ; ond blinodd y bachgen yn lled fuan ar saernïo, a phan ofynwyd iddo gan un o'i gyfoedion paham y rhoddodd heibio mor swta y gwaith y dechreuasai arno? ei atebiad ydoedd, iddo fyned i Gapel y ——— y Sabboth, a sylwai mai'r tlotaf yr olwg arno o bawb yn y lle ydoedd —— y Saer, a'r Sabboth canlynol iddo fyned i Gapel y ———, ac mai'r tlotaf yr olwg arno yno hefyd ydoedd —— y Saer. Yn ddiweddaf oll, aeth y Sul canlynol i Eglwys y Plwyf, a'r truenusaf ei olwg yno drachefn oedd —— y Saer. Oblegid yr hyn a nodwyd daeth i'r penderfyniad nad oedd saernïaeth yn gelfyddyd ennillgar, neu ynte fod rhyw aflwydd ar bawb oedd mewn cysylltiad â hi. Ar ol hyn bu yn gweini yn y ffermydd cyfagos am dymmor byr. Gadawodd y gwaith hwn drachefn, ac aeth i weithio i Chwarel y Diffwys, yr hon a gèrid ymlaen gan Gwmni Cymreig. Yn y flwyddyn 1815 daeth yn ddirwasgiad cyffredinol ar y fasnach lechi, yn neillduol felly yn ardal Ffestiniog, fel yr ymfudodd ef a dau o'i gyfoedion i chwarel Cae-braich-y-cafn, yn Bethesda, Arfon. Un diwrnod pan oedd wrthi yn ceisio taflu plyg (darn o graig) i lawr, er ei fraw canfyddai fod y graig ar bob llaw iddo yn ymollwng, ac yntau heb obaith diangfa, ond yn hytrach cael ei gladdu yn nghanol yr ysbwrial. Ymollyngodd darn anferth o'r graig, gan gladdu y dyfnder islaw, yr hyn a barodd ddychryn a braw mawr i'r gweithwyr yn y rhanau eraill o'r chwarel. Rhedent i'r lle gan lefain rhai am eu tad, eraill am eu plant, a'u brodyr, a chyfoedion John Pierce mewn galar mawr am dano yntau. Yr oedd y cyffro mor fawr fel mai gwaith anhawdd oedd cael y bobl i drefn i ddechreu clirio yr ysbwrial, ac i gael gafael ar y rhai a gladdesid odditano. Pan ymlonyddasant ac y dystawodd y twrf ychydig, canfyddwyd John Pierce yn ymwthio allan trwy agoriad cul oddi tan y malurion rai llatheni o'r man yr aeth i lawr, yr hyn oedd bron mor hynod

a gweled Lazarus yn dyfod allan o'i fedd. Wedi iddo ddyfod ychydig ato ei hun a chael hamdden, eglurodd i'w gyfeillion y modd y diangodd mor ddianaf, gan ddyweyd ddarfod i ddarn anferth o'r graig gysgodi trosto. Mewn atebiad i un o'i gyfeillion, paham na buasai yn dyfod allan yn gynt wrth glywed eu gwaedd dorcalonus hwy am dano? dywedai:—"Yr oeddwn yn ofni i ychwaneg o'r graig ddyfod i lawr rhyngwyf ag allan a'm malurio; ac ofnwn aros yn hwy rhag i chwi wrth dirio atafgyhyrfu yr ysbwrial ac iddo gau rhyngwyf ag allan." Anafwyd ef yn lled dost yn ei ysgwydd, yr hyn a achlysurodd ddiffyg anadl (*asthma*), oddiwrth yr hyn y dyoddefodd am y gweddill o'i oes, ac o'r hyn y bu farw.

Effeithiodd yr amgylchiad difrifol hwn yn ddwys arno, yn gymaint fel ag y dygwyd ef i ystyried ei gyflwr fel pechadur ger bron Duw, a phenderfynu cyflwyno ei hunan i wasanaeth yr Hwn a'i gwaredodd mor rhyfeddol megys o safn marwolaeth. Ymunodd yn ddiymaros â'r Methodistiaid Calfinaidd, yn yr eglwys a ymgynnullai yn Penau'r Carneddi, fel ei gelwid y pryd hwnw. Ymhen ênyd drachefn y mae yn priodi gyda merch ieuanc rinweddol a phrydweddol o'r enw Jane Griffith, merch Griffith Jones, Caehir, Clynnog, ac, os da yr ydym yn cofio, chwaer i'r hen flaenor synwyrgall a dyddan, James Williams, Penrhiwiau. Yr oedd yn wraig ddarbodus, glanwaith a chrefyddol iawn, a bu yn gynnorthwy mawr i'w gŵr tra bu byw i gyflawni ei ddyledswyddau fel aelod a swyddog eglwysig. Yr oedd hi o dymher llawer mwy siriol a chalonogol nag ef. Pan yr ymollyngai ef yn ei ysbryd, chwareuai hithau ran Dafydd o flaen Saul, fel yr ymadawai y prudd-glwyf a'r ymollyngiad ysbryd âg ef yn ebrwydd. Tua'r adeg y dechreuodd y diwygiad mawr a elwid yn Ddiwygiad Beddgelert, yr oedd ef a'i briod yn byw yn ardal Carneddi; a chawn yn *Hanes Methodistiaeth Cymru* i un o'r enw John Pierce a'i briod, yn 1818, glywed yr hyn a elwid y "canu nefol." Yr oedd John Pierce yn nrws ei dŷ pan y clywodd y canu gyntaf, a dywedir i'r wraig alw arno o ryw gŵr arall, gan ddatgan ei bod yn clywed y canu rhyfeddaf a mwyaf nefolaidd a glywodd erioed. Yn niffyg gwybodaeth am neb arall o'r enw hwn yn byw yn yr ardal ar y pryd hwnw, nid yw allan o le i ni dybio mai at y pâr hwn y cyfeirir. Mewn amser symudodd yn ol i'w hen ardal enedigol, a daeth i fyw i Tŷ'nllwyn, Tanygrisiau, ymha le y treuliodd y gweddill o'i oes. Dygwyddodd hyn yn fuan wedi adeiladu Capel Bethesda, Blaenau Ffestiniog, a dewiswyd ef yn flaenor ar y ddeadell fechan yno. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth agoriadol gan y diweddar Barchedigion Richard Jones, Wern, Llanfrothen; Richard Jones, Trawsfynydd (wedi hyny Bala); a Richard Humphreys, Dyffryn. Gwasanaethodd J. Pierce ei swydd yn ffyddlawn yn Bethesda hyd y flwyddyn 1838, pryd yr ymadawodd rhan o'r eglwys ac yr ymsefydlasant yn eglwys yn y capel newydd a adeiladwyd yn Tanygrisiau; a chan ei fod yn byw yn yr ardal hon, ymunodd â'r eglwys yma, a gwasanaethai ynddi fel diacon tra fu byw.

Yn fuan ar ol hyn daeth Owen Pierce i'r ardal i fyw, o Lanfrothen, yr hwn oedd yn flaenor yno, a dewiswyd ef i lanw yr un swydd yn Tanygrisiau, am yr hwn y mae llawer i'w ddyweyd; a thua yr un adeg dewiswyd y diweddar William Mona Williams i flaenori, swydd a lanwodd mor ffyddlawn a chymeradwy am yspaid o hanner can' mlynedd. Bu y ddau hyn fel Aaron a Hur, yn cynnal breichiau yr hen flaenor J. Pierce tra y bu byw; a hyfryd oedd gweled y fath gydweithrediad a brawdgarwch rhwng y tri wŷr rhagorol hyn. Prif nodweddion J. Pierce oedd ffyddlondeb i'r achos yn ei holl ranau, a manylrwydd yn ei gyflawniadau o holl ddyledswyddau crefydd, yn bersonol, teuluaidd a chymdeithasol. Arferai ddysgyblaeth eglwysig fanwl, gan gadw rhag y gerwindra a'r llymdra oedd yn nodweddu lliaws o'r hen flaenoriaid y pryd hwnw. Yr ydym yn cofio am ddau neu dri o amgylchiadau ag yr oedd yr hen frodyr fyddai yn arferol o arwain y cyfarfod eglwysig, mewn achosion o ddysgyblaeth yn myned i eithafion mewn gerwindeb a llymdostedd, pryd yr oedd ef yn meddwl y buasai cerydd ysgafnach yn gwneyd y tro, os nad yn ateb y dyben yn well, wrth gyfodi i gyhoeddi dedfryd y mwyafrif, ei fod yn wylo nes methu tori y geiriau gan floesgni a gynnyrchid gan dynerwch ei deimladau; a phob tro cyn eistedd i lawr gofalai am ddyweyd ychydig eiriau fyddent fel dyferiad olew i friwiau y cyhuddedig, ac yna agorai yn gynnil ddrws gobaith o'i flaen, fel y gwyddai y truan pa le i droi am ddyddanwch ac ymgeledd pan elai yr ystorm oedd yn curo arno ar y pryd drosodd. Nid oedd yn meddu gwybodaeth ddofn a helaeth o athrawiaethau crefydd, a diau na fethem wrth ddyweyd fod cylch ei efrydiaeth yn gyfyngedig i'r Bibl, *Geiriadur* Charles, *Amseryddiaeth* Simon Llwyd, ac ychydig o lyfrau yn cynnwys y syniadau mwyaf Uchel-Galfinaidd; ond yr oedd ei dduwioldeb diammheuol, a'i gymdeithas bar-

haus â Duw, wedi ei wneyd yn hynod mewn profiad crefyddol, ac felly i raddau helaeth yn gymhwys i borthi praidd Duw er maint ei anfanteision. Cofus genym glywed y diweddar Pierce Davies, Porthmadog, yn adrodd am ddadl rhwng ei ewythr J. P. a William Rowland ar etholedigaeth gras. Pan oeddynt yn dychwelyd un nos Sabboth o'r oedfa yn nghapel Bethesda, ac yn eistedd ar ben y Bwlchllydan i ddadluddedu, ar ol dringo y llethr serth o Gwmbowydd, dechreuasant ymddyddan am y bregeth —hen arferiad dda ymysg ein tadau. Daethant ar draws y pwnc o etholedigaeth gras, a methai ef a W. R. gytuno, gan fod yr olaf lawer yn fwy eang ei syniadau na J. P. ar y pwnc hwn. Cychwynodd y fintai tuag adref, gan nad oedd gobaith y ceid pen buan ar y ddadl, a dilynwyd hwy gan y ddau hen gyfaill, y naill yn dilyn y llall ar hyd y llwybr cul, caregog yn y tywyllwch, gan barhau i gyfnewid syniadau ar y pwnc mewn dadl. Ymhen ychydig, gan na chlywai W. R. mo'i gyfaill yn dilyn, gwaeddodd, "Pa le'r wyt ti, dywed? Tyr'd yn dy flaen oddiyna i ti." Atebai'r llall oddiar lawr, "Aros, was" (canys dyna oedd ei hoff air am frawd, &c.) "gael i mi orphen fy esboniad, rhag ofn i mi ei golli." Nid ydym yn gwybod pa fodd y dybenodd y ddadl, ond gwyddom eu bod yn mwynhau eu gilydd yn yr Arglwydd.

Y nesaf o'r hen gymeriadau, ag y mae yn canlyn yn naturiol i ni grybwyll am dano, yw William Rolant (Rowland), brodor o'r Waenfawr, yn Arfon; mab Rolant Morris o'r Gwastadanas, yn rhanbarth uchaf plwyf Beddgelert (brawd i'r hen flaenor adnabyddus, William Morris, Cwmglas, Llanberis), a Catherine Jones, gweddw Richard Jones o Lanfagdalen. Yr oedd iddo ddau frawd, sef Richard Jones, Prysgol-bach, yr hwn a wasanaethodd swydd diacon yn eglwys Caeathraw ger Caernarfon am lawer o flynyddoedd, a David Rowland, yr hwn a wasanaethodd swydd diacon am saith mlynedd yn eglwys Waenfawr, ac wedi hyny am yr yspaid maith o ddeugain mlynedd yn Moriah, Caernarfon, a chwaer o'r enw Jane, yr hon a fu farw yn ferch ieuanc.

Ganwyd gwrthddrych y sylwadau hyn yn Cae Steel yn y flwyddyn 1790. Yr oedd y fam yn wraig rinweddol a chrefyddol, ond y tad, am y rhan flaenaf o'i oes, yn dra gwahanol. Er fod y fam, y brodyr a'r chwaer, yn grefyddol, tyfodd William i fyny i oedran gŵr yn hynod ddioruchwyliaeth, ac esgeulus o grefydd a'i hawliau. Dilynodd yn hytrach llaws ieuenctyd ei ardal mewn oferedd a gl[illegible]ldest. Yr oedd chwant at y gwlybyroedd meddwol wedi ei meithrin mor gref ganddo, nes gwau ei rhwydau mor dŷnion am dano, fel y methai ymryddhau o'r rhwydau a wauodd ef ei hun, hyd nes yr oedd yn agos i ddeugain oed. Nid oedd cymaint a son am ddirwest y pryd hyny. Pan yn fachgenyn ieuanc iawn, aeth gyda'i dad i weithio i Chwarel-ddu Dolyddelen, ond oblegid ei ddireidi tynodd ŵg rhyw rai, fel y gadawodd Dolyddelen, ac y daeth drosodd i Ffestinog, a chafodd waith yn Chwarel y Diffwys, a llettŷ gyda'r diweddar Richard Griffith, Plasyn-dre, a Catherine Ellis ei wraig, tad a mam y brodyr sydd yn dra adnabyddus yn y cylch Methodistaidd, Robert Griffith, Melbourne House, Ffestiniog, a Griffith Prichard, Castle House, Penrhyndeudraeth. Bu Richard Griffith a'i wraig yn ofalus a thyner iawn o'r bachgen a ddaeth megys yn ddamweiniol i lechu dan eu cronglwyd. Gwnaethant eu rhan yn gydwybodol mewn gweddïo drosto, a'i gynghori, ond yn gwbl aneffeithiol ar y *pryd*, i'w ddiddyfnu oddiwrth ei arferion drwg. Yn fuan wedi ei ddyfodiad i Ffestiniog, torodd allan yr anghydfod blin rhwng Llywodraeth y wlad hon ac America yn adeg Gweinyddiaeth Canning, ac ar ei ol ef Iarll Llynlleifiad, a hyny ar y pryd ag yr oedd Napoleon yn bygwth llethu teyrnasoedd Lloegr a'r Cyfandir, fel y gorfu i'r Llywodraeth hon syrthio ar y cynllun o Gofrestriad Gorfodol, er cael cyflenwad digonol o filwyr i fyned allan i Ddeheudir America, a darbod yn effeithiol rhag ymosodiadau sydyn y rhyfelwr pybyr Napoleon. Yr oedd felly yn rhaid i bob plwyf ddarpar nifer penodol, yn ol nifer y trigolion. Ymwelodd W. Rowland â Thrawsfynydd y diwrnod y bwrid y coelbreni *(lots)*, a phan y clywodd un o'r ffermwyr, ar yr hwn yr oedd y coelbren wedi syrthio, yn llefain ac yn ochain oblegid yr anffawd hwn a ddaethai i'w ran, gwaeddodd allan, "Paid ag wylo, mi âf fi yn dy le di." Gan ei fod yn ŵr ieuanc heinyf a gwisgi ei symudiadau, yn llawn pum' troedfedd a deng modfedd o daldra, unionsyth ei gorff, ysgwyddau llydain, a phrydweddol ei olwg, a'i holl osgedd yn filwraidd, nid rhaid i ni eich sicrhau i'r swyddogion milwraidd ollwng y cyntaf yn rhydd i fyned adref at ei deulu fel milwyr Gideon gynt, a chymeryd y gŵr ieuanc gwrol yn ei le. Aeth felly gyda'r adran oedd dan ofal y Cadlywyddion Syr George Prevost, a Ross, i ymladd â'r Americaniaid, ac amddiffyn Canada yn 1811—12. Trodd yr ymgyrch hon o eiddo Lloegr allan yn llawer mwy anffafriol iddi na'i dysgwyliad. Wedi i filoedd o fywydau

gael eu haberthu ar allor hunanoldeb a thrahausder ychydig wŷr hunandybus o ddau Dŷ y Senedd, da oedd cael rhoi pen ar y rhyfel, a gadael pethau yn y cyflwr yr oeddynt cyn ei dechreu o'r bron.

Ar y 24ain o Ragfyr, 1814, y mae'r adran y perthynai William Rowland iddi yn cael ei gorchymyn adref, ac y maent yn glanio yn Antwerp ar yr 17eg o Mehefin, 1815, diwrnod cyn terfyniad buddugoliaethus brwydr Waterloo, ac oddiyno yn myned yn ddiymaros tua maes y gâd; ond yn lle ymladd, y gwaith a gawsant oedd claddu y meirw. Bu yn y rhanbarth hwnw am yn agos i bedair blynedd yn cadw meddiannau, &c.

Wedi i amser ei ymrwymiad (10 mlynedd) ddyfod i ben, y mae'n dyfod yn ol i'w hen wlad enedigol, ac yn cyfeirio ei gamrau yn llawen ei galon, ac ysgafn ei droediad fel cynt, am Plas-yn-dre, a mawr oedd llawenydd yr hen bobl, eu meibion a'u merched, wrth dderbyn y bachgen afradlawn yn ol i'w plith; ond chwerwid cwpan eu llawenydd i raddau pan ddeallasant nad oedd ei ysbryd wedi ei ddwyn i'r un ystâd â'r eiddo y mab afradlawn yn y ddammeg. Ymhen ychydig flynyddoedd ar ol dychwelyd, priododd â Margaret, merch Robert Jones a Lowry Owen, Clogwyn-brith, Ffestiniog, yr hon a fu yn fendithiol iawn iddo, yn dymorol ac ysbrydol; ac a fu farw mewn llawn feddiant o dangnefedd yr Efengyl Mehefin, 1846. Yn fuan wedi hyn ymunodd â'r eglwys fechan a ymgynnullai yn y Neuadd-ddu, yr hon a flaenoriid gan Owen Rhobert, taid y Parch. Robert Owen, M.A., Pennal. Yr oedd yr ŷni a'r bywiogrwydd a berthynai yn naturiol iddo o hyn allan yn cael ei gyflwyno yn hollol ac yn gwbl ar allor gwasanaeth crefydd. Tua'r un adeg dyrchafwyd ef o fod yn weithiwr yn arolygwr ar chwarel y tu uchaf i Drefriw, perthynol i Mr. Samuel Holland, y cyn-Aelod Seneddol dros Meirion. Symudwyd ef oddiyno i lanw yr un swydd dan yr un boneddwr yn Chwarel y Rhiw; ac ar ol gwerthu hono i'r "Cwmni Cymreig," llanwai yr un swydd drachefn yn "Chwarel Holland," lle y bu yn arolygu gyda medrusrwydd a ffyddlondeb mawr hyd ei farwolaeth, Mawrth 25, 1838, heb gyrhaedd ei lawn nawfed flwydd a deugain. Cyn ei farwolaeth cafodd yr hyfrydwch o ad-dalu ychydig i hen deulu Plas-yn-dre am eu caredigrwydd tuag ato yn yr amgylchiadau y cyfeiriwyd atynt, trwy gymeryd ato yn ysgrifenydd ŵr ieuanc o'r un ardal ag yntau—y Waenfawr—o'r enw William Owen, yr hwn oedd erbyn hyn wedi priodi Ellen, un o ferched Richard Griffith, a'r hwn, wedi marwolaeth William Rowland, a ddewiswyd yn olynydd iddo yn yr oruchwyliaeth, yr hon swydd a lanwodd yn anrhydeddus hyd adeg ei farwolaeth. Dilynodd ef hefyd yn ffyddlawn mewn gofal am yr achos crefyddol.

Yr oedd William Rowland, yn ystod y pedair blynedd ar ddeg y bu yn arolygu y Chwarel, wedi ennill lle dwfn yn serchiadau'r meistr a'r gweithwyr, fel yr oedd galar cyffredinol am dano, nid yn unig yn mhlwyf Ffestiniog, ond y plwyfydd oddiamgylch. Ni phetrusai sefyll yn dŷn dros, ac amddiffyn hawliau y meistr mewn amgylchiadau neilltuol, a dwyn y gweithwyr i ymostwng yn dawel i'r iau a roddid arnynt. Galluogid ef i wneyd hyny oblegid y gwyddent yn dda y safai yr un mor benderfynol dros eu hawliau a'u hiawnderau hwythau mewn adegau eraill, yn gymaint felly fel y cyflwynai yn ol yr arolygiaeth hyd oni ddeuai'r meistr i gydolygu âg ef ar y pwnc mewn dadl.

Fel y sylwasom yn ein hysgrif flaenorol, ymgymerodd â dyledswyddau cyhoeddus crefydd y Sabboth cyntaf wedi ymuno â'r eglwys, trwy ddechreu'r ysgol; ac ymroes i symbylu ei gyfeillion crefyddol i ddarpar adeilad mwy cyfleus i gynnal yr ysgol na'r hen annedd-dŷ cysegredig yn yr hwn ei cynnelid am gynifer o flynyddoedd. Ar ol hyny ymdaflodd â'i holl allu i adeiladu capel, y cyntaf yn y fro, a chafodd y fraint a'r mwynhâd o gydaddoli ynddo â'i frodyr a'i chwiorydd am yr ysbaid byr o ddau fis cyn cael ei symud i'w orphwysfa nefol, i gymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig. Cymerai ran arbenig a blaenllaw yn yr Ysgol Sabbothol, y cyfarfodydd gweddi ac eglwysig. Hoff wrthddrychau ei ofal yn y naill a'r llall oedd y plant a'r bobl ieuainc. Gwnaeth wasanaeth annhraethol hefyd i achos crefydd yn yr ardal, trwy gymeryd i'w dŷ i lettŷa, ddynion ieuainc crefyddol, awyddus am wybodaeth ysgrythyrol, er cymhwyso eu hunain i waith crefydd, oblegid yr oedd yn meddu y llyfrgell oreu a llawnaf yn lyfrau Cymreig o neb yn y gymydogaeth; ymysg y rhai y cawn fod y diweddar Barchedigion Thomas Williams, Utica, America, a David Williams, Maentwrog, wedi hyny, Beulah, Swydd Drefaldwyn; a'r Mri. William Mona Williams ac Emwnt Evans, tad y diweddar Barchedig William Evans, a gychwynodd yr Achos Methodistaidd Cymreig yn Australia. Fel hyn cawn ychydig lefain yn lefeinio yr holl does! Bu ei waith yn cymeryd y gwŷr ieuainc hyn dan ei nawdd a rhoddi ei lyfrfa at eu gwasanaeth, pryd nad oedd ganddynt foddion

i brynu llyfrau, yn wasanaeth anmhrisiadwy dan fendith Duw i achos crefydd yn Tanygrisiau, America, ac Australia. Gall y darllenydd ganfod graddau o ddyfnder ac angerddolrwydd ei argyhoeddiad, a'i brofiad ar ol hyny, oddiwrth yr emynau canlynol a roddai allan i'w canu mewn cyfarfodydd crefyddol. Pan wedi bod mewn ymdrechfa, ac yn dyoddef oddiwrth edliwiadau *cyhuddwr y brodyr*, ceid ganddo yn ddïeithriad a ganlyn:—

"Mae Satan a'i blant yn edliw fy meïau,
Gan ddyweyd fod fy mhechod yn ormod i'w faddeu," &c.

Os yn ystod y dydd blaenorol y byddai'n cael ei faeddu gan ofnau ac ammheuon, rhoddai allan mewn tôn gwynfanus,—

"Anghrediniaeth, gad fi 'n llonydd,
Onidê mi goda 'm llef,
O ddyffryn adfyd, lle 'r wy 'n gorwedd,
I fyny fry i entrych nef;
Mae yno Frawd yn eiriol droswyf,
Nas gad fi 'n anghof nos na dydd;
Brawd a dyr fy holl gadwynau,
Brawd a ddaw â'r caeth yn rhydd."

Ond pan ar uchelfanau'r maes o ran ei brofiad, ceid ganddo mewn tôn orfoleddus,—

"Llais hyfryd rhad ras sy 'n gwaeddi diangfa,
Yn nghlwyfau Mab Duw, bechadur, mae noddfa;
I olchi aflendid a phechod yn hollol,
Fe redodd ei waed yn ffrydiau iachusol;
Haleliwia i'r Oen bwrcasodd ein pardwn,
'N ol croesi'r Iorddonen drachefn ni a'i molwn."

Er holl nodweddion gwahaniaethol y ddau gymeriad a nodwyd, gellir cymhwyso y geiriau canlynol atynt: "Enaid Jonathan a ymglymodd wrth enaid Dafydd." Nodweddion neillduol William Rowland oeddynt tymher naturiol boethlyd, zel, bywiogrwydd, a gweithgarwch; ynghyd a phenderfyniad meddwl di-droi-yn-ol, yn gymysg â llawer o dynerwch a chydymdeimlad â'r gwan a'r trallodus.

Pan droseddid rheolau'r gwaith, &c., gan rai o'r gweithwyr, gweinyddai'r gosb arnynt yn ol natur y trosedd, ac ansawdd meddwl y troseddwr: weithiau cerydd personol, bryd arall cerydd yn mhresennoldeb y gweithwyr. Cymerai'r cerydd hwn le yn ddïeithriad, os y trosedd fyddai cario chwedlau iddo ar ei gydweithwyr. Y dull arall ydoedd anfon y troseddwr i ran neillduol o'r gwaith a adnabyddir fel carehar W. Rolant. Mynych yr ychwanegid at brofedigaeth ambell i droseddwr, trwy i rai direidus fyned ato i ofyn am ei helynt a'i deimlad yn y carchar. Y pedwerydd dull o gosbi ydoedd troi ymaith o'r gwaith yn llwyr. Nid yn fynych y gweinyddid hon ar benteulu oddieithr fod pob moddion arall wedi methu.

Rhoddwn un esiampl allan o lawer o dynerwch cydwybod crefyddwyr yr oes hono. Tramgwyddodd un o'i weithwyr ag oedd yn gydaelod eglwysig âg ef, am iddo, yn ol ei dyb ef, beidio cwblhâu addewid o roddi iddo ran mewn cymeriad *contract* neillduol. Deallodd W. Rowland hyn y Sadwrn canlynol, er fod yr achos o hyn yn gorwedd wrth ddrws y partneriaid, a chan fod y cymundeb i fod drannoeth, penderfynodd wneyd ei ran er dyfod i gymmod â'r gweithiwr. Aeth at dalcen y capel yn brydlon boreu Sabboth, a phan ddaeth y brawd hwn i'r cyrhaedd, galwodd arno, a dywedodd pa fodd y bu pethau, ac nad allai efe feddwl am gyfranogi o'r Swper Sanctaidd heb ymheddychu âg ef yn gyntaf, gan ychwanegu, "Ti wyddost fy mod wedi ymddwyn atat fel at wraig trwy dy gadw yn glaf ac yn iach yn y gwaith." Daethant i ddealltwriaeth, a chymmododdd y ddau yn y fan, ac ymaith â hwy i'r gwasanaeth, a deallai y brodyr yn y fan fod pob peth yn dda rhyngddynt.

Syrthiodd y goruchwyliwr ei hunan un tro i'r un camwedd trwy dramgwyddo wrth ei gyfaill ffyddlon J. Pierce, am iddo geryddu un o'i blant fel y tybiai ef yn rhy lym, o herwydd cweryl a gymerodd le rhyngddi â gwraig weddw dlawd. Drannoeth wedi y cyfarfod eglwysig ymliwiai â'r hen flaenor, gan fygwth attal ei gydweithrediad a'i gynnorthwy arferol. Torodd yr olaf allan i wylo a dywedodd, "Gad lonydd i mi, W. Rolant, y mae gwaith ac achos yr Arglwydd yn pwyso digon ar fy meddwl heb i ti ei drymhau." Nid cynt yr oedd y geiriau dros ei wefusau nad oedd y llall yn wylo ac yn dadgan ei edifeirwch, a'i benderfyniad i weithio fel o'r blaen gyda'u gilydd. Gwelir fel yr oedd difrifwch, a geiriau synwyrol y gweithiwr, yn gorchfygu y milwr a'r goruchwyliwr. Y fath nerth sydd yn ngras yr Efengyl, fel y gwna yn gyffelyb eto lle mae'n teyrnasu ar y galon. Anhawdd ymattal heb ofyn weithiau, "Y tadau, pa le y maent?" ac a ydym ni eu disgynyddion yn cyflawni y cynghor apostolaidd, "Ffydd y rhai dilynwch."

[Mab i'r Mr. William Rowland y roddir ei hanes yma yw ysgrifenydd yr Adgofion hyn.—GOL.]

Barddoniaeth.

Y BEDD.

Y BEDD! arswydol a dychrynllyd fan,
Wrth grybwyll d' enw cryna 'm henaid gwan;
Ond rhyfedd dyweyd na welaf ynot ti
Ddim dychrynedig ond a wnaethum i.
Dy dywyll gell; lle y teyrnasa nos;
Heb un pelydryn o'r ffurfafen dlos.
Dystawrwydd ynot megys teyrn y sydd
Yn llywodraethu yn dy fynwes brudd.
O! welw tedd; rhoi terfyn yw dy waith
Ar fy mhleseran 'r ochr yma i'r daith.
P' le mae 'r cellweirus a'r digrifwas 'n awr
Fu gynt ar lwyfan y chwareudy 'n gawr,
Yn fawr ddigrifwch i'r edrychwyr ffol?
Ow! yn y bedd, O! na chai droi yn ol;
Clöed'g yw ei wefus; yntau 'n fud;
Mor fud a'r tywyrch a orchuddia 'i gryd.
Ti, 'r Prydferth, O! mor hardd a thlws dy wedd
A lyncir mewn gwaradwydd gau y bedd;
Dy fwyn rosynau a'th dlos lili hardd,
A welwyd mewn pêr wisgoedd yn yr ardd:
Ow bruddaidd wedd! y gwisgoedd prydferth sydd
Yn awr yn dlodaidd ac yn welw 'u grudd.
O ddyn! ystyria yn ddifrifol 'n awr
Dy gyflwr a dy gyfrifoldeb mawr;
Ystyria faint yn fwy yn ngolwg Duw
Wyt ti na llysiau 'r maes a phobpeth byw:
Mae byd i ti i fyw tu draw i'r bedd,
Gan hyny canlyn Iesu, T'wysog hedd;
Ac yn yr awr y geilw Mab y dyn
'R hell feirw 'nghyd i'r farn, ti fyddi 'n un
O'i saint gyfodir fry i wynfyd hedd;
'R ol dyoddef adfyd mawr tu yma i'r bedd.
O ddedwydd awr! cael d'od o'r bedd yn rhydd,
Agoryd llygaid ar dragwyddol ddydd.
O Dduw, dod dduwiol anian ynom ni,
Tu draw i'r bedd y byddom yn dy wyddfod di.
Rho'th ras achubol in' "mewn pryd" yn awr,
Fel gallwn sefyll ddydd y cyfrif mawr;
Fel byddo 'r corff a'r enaid yn gytun
Mewn undeb yn dyrchafu Mab y dyn.
Tragwyddol ganu gawn am Iawn y Groes
Heb ofni byth cael profi angeu loes.

JOHN OWEN.

Caernarfon.

SERCH GOFEB

Am y ddiweddar Mrs. MARY JANE HERBERT, Wylfa House, Alroy Road, Anfield, yr hon a fu farw Chwefror 16eg, 1890. Cyflwynedig i'w phriod, Mr. John Herbert.

HIRAETHU 'r ydych, gyfaill hoff,
Am briod aeth ymhell;
Tystiolaeth gawsoch fod ei bryd
Ar Briod llawer gwell.

Eich gweled 'r wyf yn gwisgo du,
A'ch llygaid prudd yn llŷn,
Tra mae 'r hon garech chwi mor fawr
Yn awr yn gwisgo gwŷn.

Ei chofio 'r wyf yn eneth lon,
Yn llaw ei mam a'i thad,
Yn myn'd a d'od i'r Ysgol Sul
I ddysgu stori 'r Gwaed.

Bu yn fy nosbarth flwyddau rai,
Ces drwyddi fawr lesâd:
O hen gadernid Gair y llw
Fe dynai wir fwynhad.

Oedd wir garedig fel ei mam,
Mor siriol oedd ei gwedd;
Ond mil siriolach yw yn awr,
Dan wenau dwyfol hedd.

Wrth wylo am dani cofiwch, frawd,
Nad yw ond dechreu byw—
Na all eich priod farw mwy—
Mai iach dragwyddol yw.

Marwolaeth er mor chwerw yw,
Yn elw iddi droes,—
Fe drodd yn fywyd iddi byth
Trwy angeu pren y groes.

Bu farw 'n dawel, dawel iawn,
Ni frysiai Mary Jane;
Hi garai ei Gwaredwr mawr,
Aeth ato dan ei gwên.

Chwefror 24ain. TRISANT

PILAT YN GOLCHI EI DDWYLAW.

"A Philat . . . a gymerth ddwfr, ac a olchodd ei ddwylaw."—Mat. xxvii. 24.

(Cyfeithiad o Hen Awdwr Seisonig.)

AI â dwfr y ceisi 'n ebrwydd
Olchi ymaith dy euogrwydd?
'R unig ddwfr a'th olcha 'n gauaid
Sydd â'i ffynnon yn dy lygaid.

G.

PROFIAD DIWEDD EINIOES.

Gan y diweddar Barch. DAVID PRICE, *(gynt) Penbontfawr.*

DIGONWYD fi o deganau—y byd,
Aed ei barch ac yntau
I ryw ddyn a gâr y ddau,
Mynwent a Nef i minau.

Adolygiad y Wasg.

YR EPISTOL AT YR HEBREAID, *gydag Arweiniad i mewn a Nodiadau. Gan* THOMAS CHARLES EDWARDS, M.A., D.D., *Prifathraw Coleg y Brifysgol i Gymru, Aberystwyth.* Caernarfon: D. W. Davies & Co. 1890.

GAN brinder lle a llawnder defnyddiau buom yn hŵy nag y bwriadem cyn gwneuthur Nodiad ar yr Esboniad hwn. A theimlwn mai prin y mae anghen am hyny; am fod rhagoriaethau y llyfr mor arbenig ac adnabyddus, ac am fod argraffiad ar ol argraffiad o hono, o filoedd bob un, wedi eu gwerthu, mewn rhan fawr cyn dyfod o honynt allan o'r Wasg. Y mae y llyfr yn awr yn nwylaw miloedd lawer o aelodau ein Hysgolion Sabbothol yn athrawon ac ysgolheigion, ac yn profi iddynt yn ddiammeu o wasanaeth anmhrisiadwy. Digon yw dyweyd fod yr Esboniad hwn, er yn fychan o ran ei

faint a'i bris, yn amlygu y cymhwysderau uchel a nodedig sydd yn dyfod i'r golwg yn yr Esboniadau Seisonig ar y Corinthiaid a'r Hebreaid o eiddo yr Awdwr, y rhai a'i gosodasant ar unwaith yn y rhestr flaenaf o esbonwyr, nid yn unig yn Mhrydain, ond yn y byd. Dyna oedd tystiolaeth y Parch. W. Parke, M.A., Cadeirydd Cymanfa Gyffredinol yr Henaduriaethwyr yn yr Iwerddon, pan oedd pedwar o honom yn sefyll ger ei fron ar yr esgynlawr i dderbyn ei gyfarchiad, pan oeddym yn ymadael o'r Gymanfa Gyffredinol yn Belfast, yr hon a gynnelid yn nghapel Mr. Parke—wedi iddo ddadgan ei farn uchel am ein Cyfundeb, gan enwi Harries a Rowlands, ac eraill o'r tadau, diweddodd trwy enwi un o'n gweinidogion presennol yn y geiriau hyn:—"*And the name of Dr. Charles Edwards is a name of authority throughout the whole Protestant world*"

Y mae yn hysbys fod gan yr Awdwr ddysgeidiaeth fanwl ac eang i esbonio ystyr *geiriau*. Ond y mae yn gallu gwneyd mwy—esbonio *meddyliau*. Ac y mae yn esbonio y meddyliau hefyd *yn eu perthynas â'u gilydd*, heb yr hyn nis gellir byth eu hesbonio yn iawn. Dyma un o brif gymhwysderau esboniwr—nerth a chraffder i fyned i mewn i *unoliaeth* y meddyliau. Nid digon yw ateb *Beth* a ddywedir yn yr adnod hon? ond i gyrhaedd amcan eithaf esboniad, rhaid ateb *Paham* y dywedir hyn? Y mae Dr. Edwards yn amlygu tueddfryd a gallu anarferol i fyned i mewn i'r cysegr hwn—i enaid yr ymresymiad neu yr ymdriniaeth. Credwn fod rhyw fath o *reddf* esbonio yn bod. Gall hon wneyd rhywbeth heb ddysg, a gall dysg wneyd cryn lawer hebddi hithau. Ond pan y mae y ddau gymhwysder wedi cyfarfod, megys y credwn eu bod i raddau anghyffredin yn Principal Edwards, y mae yr esboniwr wedi ei gyflawn ddarparu i'w waith. Bydd yn rhyfedd genym os na bydd i'r Esboniad hwn, heblaw gwasanaethu ei amcan uniongyrchol fel llawlyfr i'r gyfran bwysig hon o'r Ysgrythyr, fod hefyd yn foddion i feithrin awyddfryd newydd yn ieuenctyd Cymru i astudio y Bibl.

HANES METHODISTIAETH GORLLEWIN MEIRIONYDD, *o'r dechreuad hyd y flwyddyn* 1888. *Gan y Parch.* ROBERT OWEN, M.A., *Pennal*. Cyfrol I. Cyfolgellau: E. W. Evans. 1889.

DARLLENASOM lawer ar y gyfrol ddyddorol hon, ac yr ydym yn parhau i'w darllen, gyda graddau helaeth iawn o fudd a mwynhad. Y mae y llyfr yn un hynod werthfawr pe na byddai ond am y gronfa helaeth o ffeithiau a gynnwysa, am agwedd ein gwlad cyn dyfodiad yr Efengyl i ond ychydig ranau o honi, tua chan' mlynedd yn ol, neu gant a deg neu ugain, neu cyn blwyddyn dechreuad yr Ysgol Sabbothol yn Nghymru, dywedwn, yr hon oedd y flwyddyn 1785. Ac hefyd, y ffeithiau rhyfedd a dyddorol dros ben a gofnodir yma am ddechreuad yr Achos crefyddol mewn llawer o fanau, ac am y dull y dygid ef ymlaen am flynyddoedd yn wyneb gwawd ac erlid, ac o dan bob math o anfanteision. Y mae llaw Duw i'w chanfod yn eglur iawn yn yr hanes, yn amddiffyn ei bobl a'i waith, yn gwneuthur i gynddaredd dyn ei foliannu, ac yn attal gweddill cynddaredd. Y mae y llyfr yn gronfa o wybodaeth nodedig o werthfawr a dyddorol i bob Methodist yn arbenig, ac i bob Cristion, ac yn wir i bob gwladgarwr a hynafiaethydd.

Heblaw hyny, nis gallwn lai na theimlo fod y llyfr hwn yn hynod o ran ei naws grefyddol. Y mae ei ddarllen yn effeithio yn ddaionus ar ysbryd dyn. Teimlwn ein hunain ynddo yn byw gydag oes arall o grefyddwyr, dysyml, zelog, ymroddedig i wasanaeth Duw ac i weithio allan eu hiachawdwriaeth eu hunain trwy bob rhwystrau. Yr ydym yn cymdeithasu â'r hen Fethodistiaid cyntaf, gyda hwynt yn y Cyfarfodydd Gweddïau, yn y Cyfarfodydd Eglwysig, ac yn gwrando y pregethau, ac yn dylyn y pregethwyr o gapel i gapel. Ac yn ddiau y mae yr awyr yn nefolaidd. Y mae ambell i hanesyn a dygwyddiad yn llawn o *pathos*. Er enghraifft:—

Yn perthyn i'r un cyfnod yr oedd yr hen wraig y ceir ei hanes, yn mynu dylyn moddion gras er gwaethaf gwrthwynebiad ei gŵr, ac yn myned iddynt yn ei *chlocsiau*. Yr oedd yn ardal Llanegryn hen wraig yn un o'u nifer (sef yn un o'r rhai a ddylynent foddion gras trwy rwystrau), yr hon a wrthwynebid yn greulawn gan ei gŵr i fyned i'r cyfarfodydd crefyddol. Er ei hattal, arferai guddio ei hesgidiau; hithau, yn hytrach na cholli y moddion, a äi iddynt yn ei *chlocsiau*. Ac ymddengys mai nid "ofer y bu ei llafur yn yr Arglwydd," gan y dywedai yn orfoleddus wrth ei gŵr, ychydig cyn marw, "Mae y *clocsiau* wedi cario'r dydd!"

Carasem ddyfynu llawer, ond rhaid ymattal am y tro hwn. Gobeithiwn y bydd i lïaws mawr o'n darllenwyr brynu, a darllen y gyfrol hon yn ddyfal. Chwanega, ni a gredwn, at eu gwybodaeth a'u gras. Y mae yr awdwr wedi cyflawni ei waith yn rhagorol. Teilynga

y parch hwnw sydd yn ddyledus i weithiwr trwyadl, cydwybodol. Hawdd gweled nad arbedodd Mr. Owen unrhyw drafferth tuag at gasglu defnydddiau yr Hanes, a thuag at sicrhau cywirdeb yn y cwbl i lawr i'r manylion lleiaf. Tebyga yn hyn i Macaulay, yr hwn ni feddyliai ddim o deithio can' milldir er mwyn bod yn sicr o ryw fanylbeth bychan a fyddai yn dyfod i mewn i'w hanes. Y mae delw yr hanesydd difrifol ar bob tu dalen o'r llyfr hwn. Hawdd gweled fod ei fryd ar ysgrifenu yn fanwl, yn gyflawn, ac yn gywir. Buasai gwreichionen o *humour* yn awr ac eilwaith yn ysgafnhau yr awyr—y nawseidd-dra ffraeth, digrifddifrif ag yr oedd y diweddar Mr. Humphreys, Dyffryn, mor lawn o hono. Ond ar y llaw arall, prin y buasai Mr. Humphreys yn gallu cymeryd cymaint o drafferth i sicrhau cywirdeb y ffeithiau a'r manylion. Y mae y llyfr yn ymborth maethlon a blasus o'r fath a gâr y pererinion. Y mae y gyfrol yn gof-golofn deilwng o'r Canmlwyddiant. Diau y sycheda llawer am ymddangosiad yr Ail Gyfrol.

Holwyddoreg ar *Hanes Noah*. Holwyddoreg ar *Hanes Abraham Gan y Parch.* O. J. Owen, M.A., *Rock Ferry*. Liverpool: Foulkes and Evans.

Dau Holwyddoreg i Blant, yn dechreu Cyfres o rai cyffelyb, dybygem, ar Hanesiaeth Ysgrythyrol. Y mae y Cwestiynau yn syml, yn fyr, yn eglur a chywir; mewn gair y maent yr hyn y proffesant fod—yn "gyfaddas i Blant." Gwna Mr. Owen wasanaeth i'n Hysgolion Sabbothol, yn yr adeg hon o ddeffroad ar waith yr Ysgol, trwy eu dwyn allan.

Y Geninen. *Hydref* 1890. Caernarfon: W. G. Evans.

Y mae y *Geninen* am y chwarter hwn eto yn cynnwys erthyglau rhagorol, ar amrywiaeth mawr o bynciau, oll yn adeiladol a dyddorol, i'r duwinydd, yr athronydd, y llenor, y bardd, yr hynafiaethydd, yr hanesydd, a'r gwladweinydd. Y mae enwau llu o ysgrifenwyr galluog a phrofedig hefyd yn cael eu hysbysu mewn cysylltiad â rhifyn Ionawr.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf, a gynnaliwyd yn Mhontrobert, Hydref 21 a'r 22ain, galwyd sylw at lyfr Mr. J. Davies, Salford, *Cronfa o Adgofion*. Annogwyd r'w brynu, a hysbyswyd y bydd yr elw yn myned at gapel Pendleton.

Yn Nghyfarfod Misol Gogledd Aberteifi, a gynnaliwyd yn Rhydlwyd, Hydref 22 a'r 23ain, bu ymdriniaeth helaeth ar y Genadaeth Dramor. Gaed adroddiadau calonogol am yr ymdrech ynglŷn â Chasgliad y Jiwbili. Gobeithid y byddai o leiaf fil o bunnau yn cael eu trosglwyddo i'r Trysorydd cyffedinol ar fyrder. Rhoddodd y Parch. D. Morgan, Penllwyn, adroddiad manwl a llawn am agwedd pethau ynglŷn â'r Ysgol Sabbothol. Gwnaed rhai trefniadau ar gyfer yr ŵyl ddirwestol a fwriedir ei chynnal yn ystod yr haf nesaf.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Conwy, a gynnaliwyd yn Rhydymeirch, Hydref 22 a'r 23ain, hysbyswyd fod gwedd lewyrchus ar yr achos, a llawer o ffyddlondeb yn cael ei ddangos gyda holl ranau y gwaith. Cafwyd ymdriniaeth fanwl ar y mater, "Moesoldeb Cristionogaeth," a thalwyd diolchgarwch i'r Parch. O. Evans, Colwyn Bay, am ei sylwadau agoriadol.

Yn Nghyfarfod Misol Môn, a gynnaliwyd yn Bodedern, Hydref 27 a'r 28ain, derbyniwyd hysbysiad o Gaergybi fod Robert Davies, Ysw., U.H., Menai Bridge, wedi anfon *cheque* am £250 at leihau dyled y capel Seisonig yno. A bod Richard Davies, Ysw., Arglwydd Raglaw Môn, wedi anfon £100 yn flaenorol. Penodwyd y llywydd a'r ysgrifenydd i dalu ymweliad â'r boneddigion hyn, i ddiolch iddynt ar ran y Cyfarfod Misol, am eu mawr garedigrwydd a'u haelioni.

Yn Nghyfarfod Misol Manchester, a gynnaliwyd Hydref 28ain, rhoddwyd annogaeth i'r blaenoriaid i alw sylw y gwahanol gynnulleidfaoedd at lythyr y Parch. W. Williams, Abertawe, ar gylchrediad y Drysorfa. Darllenwyd papyr gan Mr. John Jones, Moss Side, ar y drydedd reol ar ddeg o'r Rheolau Dysgyblaethol. Cyflwynwyd diolchgarwch i Mr. Jones am roddi ei bresennoldeb yn y Cyfarfod, yn wyneb afiechyd a digalondid o herwydd ei brofedigaethau diweddar, ac hefyd am ei bapyr rhagorol ac amserol. Ar gais taer rhai o'r brodyr, addawodd Mr. Jones fyned i rai o'r eglwysi i draddodi yr anerchiad hwn.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fflint, a gynnaliwyd yn Helygain, Hydref 27 a'r 28ain, darllenwyd llythyr o Gyfarfod

Misol Arfon yn cyflwyno Mr. Michael Roberts Owen i gylch Cyfarfod Misol Sir Fflint, ar ei ymsefydliad yn weinidog yn Crewe. Rhoddwyd iddo dderbyniad cynhes. Cyflwynwyd diolchgarwch gwresog y Cyfarfod Misol i Robert Davies, Ysw., Menai Bridge, am ei garedigrwydd mawr i eglwys Seisonig Fflint. Galwyd sylw at y ddau Gatecism a gyfansoddwyd gan y Parch. O. J. Owen, M.A., Rock Ferry, ar Noah ac Abraham.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Uchaf, a gynnaliwyd yn Llandinam, Hydref 30 a'r 31ain, rhanwyd tafleni yn cynnwys llythyr y Parch. William Williams, Abertawe, at yr eglwysi, mewn perthynas i gylchrediad y DRYSORFA. Pasiwyd fod y llythyr hwn i gael ei ddarllen yn y cyfarfod eglwysig, ac yn yr Ysgol Sabbothol, ymhob capel, er mwyn eangu y cylchrediad yn y dyfodol. Galwodd y Parch. D. Lloyd Jones, M.A., sylw at y Drysorfa Gynnorthwyol, a phasiwyd nifer o benderfyniadau gyda golwg ar helaethu y casgliad at y Drysorfa hon.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Frycheiniog, a gynnaliwyd yn Hermon, Hydref 30 a'r 31ain, hysbyswyd fod Mr. W. Jones, Birmingham, yr hwn sydd wedi addaw *Mil o Bunnau* at Gasgliad y Jiwbili, wedi addaw dyfod ar daith fer i'r sir ar ran y Casgliad. Arganmolwyd Llawlyfr y Parch. W. Lewis, Pontypridd, ar Lyfr Genesis.

Yn Nghyfarfod Misol Llundain, a gynnaliwyd Hydref 26ain, ymdriniwyd â'r mater penodedig, "Rhagluniaeth." Agorwyd y mater gan Mr. Hugh Edwards, Shirland Road. Dadganwyd cydymdeimlad llwyraf y Cyfarfod â'r brawd Mr. D. Edwards yn wyneb y brofedigaeth chwerw ac annysgwyliadwy o farwolaeth ei anwyl briod.

Yn Nghyfarfod Misol Caerfyrddin, a gynnaliwyd yn Myddfai, Hydref 27 a'r 28ain, hysbyswyd fod cyhoeddwyr y *Cylchgrawn* wedi penderfynu ei ail gychwyn fel o'r blaen, gan obeithio y bydd yn fantais i grefydd ysbrydol. Gwnaed sylwadau parchus am amryw frodyr ymadawedig.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn y Groes, Hydref 30 a'r 31ain, gwnaed trefniadau tuag at ddwyn llythyr y Parch. W. Williams ar gylchrediad y DRYSORFA i sylw arbenig yr Ysgolion Sabbothol, a bod yr arolygwr a'r ysgrifenydd i fyned trwy bob ysgol er cael derbynwyr newyddion i'r ddwy DRYSORFA. Galwyd sylw at yr Achosion Seisonig ac at yr Achos Dirwestol. Pasiwyd penderfyniad yn erbyn cynnal *Bazaars* tuag at gael arian i ddybenion crefyddol. Cadarnhäwyd nifer o benderfyniadau o berthynas i flwyddyn brawf ymgeiswyr am y weinidogaeth.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd, a gynnaliwyd yn Rhiw, Ffestiniog, Tachwedd 10 a'r 11eg, agorwyd y mater, "Crefydd deuluaidd," gan y Parch. R. Evans, Harlech. Teimlid fod y mater hwn yn neilldiol o bwysig, a'r sylwadau arno mor dda fel yr amlygwyd awydd am i'r anerchiad gael ei argraffu, er mwyn ei roddi ymhob tŷ. Penderfynwyd ar hyny.

YR ARHOLIAD CYMDEITHASFAOL.

A GANLYN sydd restr o'r rhai llwyddiannus yn yr Arholiad Cymdeithasfäol diweddaf, yn ol eu teilyngdod. Teg ydyw hysbysu ddarfod i Mr. Robert Jones, B.A., ar ganol yr Arholiad, dderbyn y newydd am farwolaeth ei anwyl fam. Ymgeisiodd 48. Arholwyr: Parchn. W. Jenkins, M.A., Tyddewi; Griffith Ellis, M.A., Bootle; W. James, M.A., Nantymoel; a W. R. Jones, Caergybi.

1 W. Lewis Jones, B.A., Bangor.
2 R. Rowland Roberts, B.A., Broughton.
3 W. O. Jones, B.A., Waenfawr.
4 Owen Prys, B.A., Trefecca.
5, 6 { E. Price, Gorwydd. / D. D. Williams, Croesor.
7 J. Pulford Williams, Runcorn.
8 W. M. Jenkins, Llantrisant.
9 J Hughes, Oldham.
10 David Evans, Llysyfronydd.
11, 12 { Robert Jones, B A., Llidiardau. / W. Williams Lloyd, Hanley.
13, 14 { D. Meirig Jones, Llanbadarn Fawr. / W. R. Jones, Uwchymynydd.
15 Christmas J. Lewis, Tonypandy.
16 Robert Williams, Dinbych.
17 James Jones, Aberdaron.
18, 19 { W. Henry, Pontypridd. / Barac Rees, Pontypridd.
20, 21 { Rowland Morgan, Trewilliam. / Cadwaladr Jones, Dolgellau.
22 D. Oliver, Rhymni.
23 M. E. Morris, Minffordd.
24 J. C. Evans, Goginan.
25 J. T. Prichard, Birmingham.
26 H. W. Griffiths, Cynon.
27, 28 { R. H Jones, Tregarth. / John J. Evans, Llanfachreth.
29 O. N. Jones, Pwllheli.
30 Thomas Jones, Gelli.
31 B. Daniel, Nantgaredig.
32 Owen Lloyd, Wyddgrug.
33, 34 { J. M. Francis, Tredegar. / Evan Davies, St. Mellons.
35 John Griffiths, Nantyglo.
36 W. Ll. Davies, Glandyfi.
37, 38 { J. Henlyn Owen, Dinmae / W. Roberts, Llanaelhaiarn
39 W. E. Jones, Pentwyn.
40 Griffith Parry, Portmadoc.
41 E. W. Edwards, Goitre.

42 John Jones, Pumsant.
43 J. Davies, Tanygroes.
44 J. D. Jones, Llithfaen.
45 H. W. Thomas, Solva.

CYFARFODYDD PREGETHU.

CAERFYRDDIN.

CYNNALIWYD Cyfarfod Pregethu blynyddyddol Capel Heol-y-dŵr yn mis Hydref. Gwasanaethwyd gan y Prifathraw D. C. Davies, M.A., a'r Parch. D. Lewis, Llanstephan. Casglwyd £82 at ddileu dyled yr ysgoldy.

PENMARK.

Cynnaliodd yr eglwys hon ei Chyfarfod Pregethu blynyddol eleni ar ddydd-iau Mercher a Iau, y 15 a'r 16eg o Hydref. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. W. Evans, M.A., Pembroke Dock; W. Prytherch, Goppa; a T. C. Thomas, Bedlinog.

PANT-TYWYLL, MERTHYR.

Cynnaliodd eglwys Bethlehem yn y lle uchod y Cyfarfod Pregethu blynyddol eleni ar y Sabboth a Llun, Hydref 19 a'r 20fed. Gweinyddwyd gan y Parchn. W. David Morris, Cwmaman, a D. H. Williams, Casnewydd. Casglwyd dros £55.

PENUEL, TWYNRODYN.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu y lle hwn Sabboth a Llun, Hydref 19 a'r 20fed. Gwasanaethwyd gan y Parchn. W. E. Prytherch, Goppa, a Moses Thomas, Resolven.

CAPEL SILOH, GER PRESCOT.

Cynnaliwyd Cyfarfodydd agoriadol y capel newydd yn y lle uchod nos Sadwrn a'r Sabboth, Hydref 4 a'r 5ed. Pregethwyd gan y Parchn. J. S. Roberts, y gweinidog; M. E. Roberts, a T. Gray. Pregethwyd yno ar y nosweithiau yn ystod y ddwy wythnos ganlynol gan amryw o weinidogion Liverpool a'r cylch. Cynnaliwyd yno hefyd Gyfarfod Tŷ a Chyngherdd.

BURY.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol y lle hwn nos Sadwrn a'r Sabboth, Hydref 4 a'r 5ed. Gwasanaethwyd yn Gymraeg a Saesoneg gan y Parch. T. E. Roberts, M.A., Croesoswallt.

VICTORIA, MYNWY.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu y lle hwn Hydref 19eg, pryd y pregethwyd gan y Parch. T. C. Phillips, Abercarn.

MORRISTON.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol y lle hwn Sabboth a Llun, Hydref 26 a'r 27ain, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. W. J. Nicholson, Abertawe, a S. T. Jones, Rhyl.

CANTON, CAERDYDD.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol y lle hwn, Sabboth a Llun, Hydref 26 a'r 27ain. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parchn. E. James Jones, M.A., a R. E. Morris, M.A., Llundain.

PENTYRCH.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu ynglŷn âg agoriad capel Horeb nos Sadwrn a'r Sabboth, Hydref 25 a'r 26ain. Pregethodd y Parchn. B. Watkins, Ferndale, a Thomas H. Jones, Llansamlet.

CILFYNYDD

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn y lle hwn Sabboth a Llun, Hydref 26 a'r 27. Pregethodd y Parchn. T. C. Phillips, Abercarn, a W. Lewis, Pontypridd.

DALTON, LANCASHIRE.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol y lle hwn, dydd Sabboth, Hydref 26ain. Gwasanaethwyd gan y Parch. Griffith Ellis, M.A., Bootle. Pregethwyd yn Saesoneg prydnawn Sabbath, ac yn Gymraeg boreu a nos Sabboth. Ar derfyn oedfa nos Sabboth siaradodd Mr. Ellis ar Jiwbili y Genadaeth Dramor.

SARDIS, DOLANOG.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol yn y lle uchod Tachwedd 4 a'r 5ed. Gwasanaethwyd gan y Parchn. H. Jones, Cann Office; R. Watkin, Soar; J. Evans, Llanfair; D. B. Edmunds, Tregynon; ac E. Griffiths, Meifod.

BAGILLT.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn y dref hon nos Fawrth a dydd Mercher, Hydref 14 a'r 15fed. Pregethwyd gan y Parch. Abraham Roberts, Liverpool, ac Edward Jones, Ysw., Maer Pwllheli.

AMRYWION.

COEDPOETH.

CYFLWYNWYD Tysteb i Mr. E. J. Jones High Street, yn cynnwys pwrs a swm da o arian fel cydnabyddiaeth o'i wasanaeth fel organydd yn nghapel y Nant.

RHODDION TYWYSOGAIDD.

Rhoddodd Robert Davies, Ysw., £1000 i'r Genadaeth Dramor, ei danysgrifiad am y flwyddyn 1890.

Hefyd cyfranodd yr un boneddwr haelionus Fil o Bunnau er ys ychydig wythnosau yn ol rhwng pedwar o Achosion Seisonig, sef Caergybi, Wyddgrug, Colwyn Bay, a Llandudno, Yn ychwanegol cyfranodd £100 at y capel newydd a adeiledir gan yr eglwys Seisonig yn Fflint.

Nodiadau Misol.

BYDDIN IACHAWDWRIAETH.

Y MAE llyfr newydd y Cadfridog Booth, "*In Darkest England, and the Way Out*," yn adseinio trwy yr holl deyrnas. Galwyd ef wrth y teitl hwn oblegid y cyffelybrwydd a deimlai yr awdwr, wrth ddarllen llyfr Stanley, oedd rhwng cyflwr corachiaid a dynion-fwytawyr y Congo â'r truenusion sydd yn y wlad hon wrth y cannoedd o filoedd yn dihoeni yn nghanol gwareiddiad. Gŵyr pawb erbyn hyn am ei gynllun beiddgar i wella cyflwr dosbarthiadau isaf cymdeithas, i leddfu tlodi, i ddarpar gwaith i'r rhai sydd allan o waith, ac ymborth a llettŷ am dymmor i'r rhai sydd allan o waith ac ar fin newynu, hyd nes y ceir gwaith iddynt. Cynnygia wneyd hyn trwy ddadblygiad pellach a helaethiad mawr ar y sefydliadau sydd eisoes mewn gweithrediad â Byddin Iachawdwriaeth a ei gwaith o leddfu trueni cymdeithasol. Gofyna am filiwn o bunnau tuag at roddi y peirianwaith i gychwyn a'i gadw i weithio. Neu, £100,000 ar unwaith, a swm blynyddol sicr o £30,000, yr hyn sydd gyfartal i lôg ar £900,000.

Credwn fod *General* Booth wedi taro yr hoel ar ei phen. Deallodd anghen mwyaf gwaeddfawr y byd ar yr adeg bresennol. A Byddin Iachawdwriaeth o bob peirianwaith yw y cymhwysaf i ymaflyd codwm â'r trueni aruthrol hwn. Cylch ei dylanwad eisoes yw dosbarthiadau isaf cymdeithas; a bydd trwy hyn yn dwyn iachawdwriaeth i'w tai yn gystal ag i'w calonau. Rhaid yw uno y ddau yn haenau isaf y boblogaeth. Ofer iawn yw son am delynau a phalmwydd mewn byd arall i deuluoedd truenus sydd ar fin newynu yn y byd hwn. Mwy i'r pwrpas fyddai agor mynedia i'w calonau i ddechreu trwy "roddi iddynt beth i'w fwyta." Y mae Byddin Iachawdwriaeth wedi dechreu gwneyd gwaith rhagorol yn y cyfeiriad hwn eisoes. Y mae ganddi amryw *Depôts* wedi eu hagor i roddi bwyd a llettŷ i'r tlodion tlotaf am y peth nesaf i ddim:—Swper, gwely, a boreufwyd am *bedair ceiniog!* Beth os na fydd yr un geiniog i'w chael? Y mae darpariaeth ragorol ar gyfer hyn. Y mae *gwaith* yn barod yn y sefydliadau hyn. Ac os na fydd gan y truan bedair ceiniog i'w talu am ei fwyd a'i llettŷ dros noswaith, caiff wneyd gwerth pedair ceiniog o *waith* cyn gadael yn y boreu. Y mae y cynllun cynnygiedig, wrth gwrs, yn golygu helaethiad dirfawr ar y sefydliadau hyn, ynghyd a thori allan ffyrdd newyddion o weithio, yn Mhrydain ac mewn gwledydd eraill. Ceisir gwneyd y byd yn fwy o gartref, ac yn llai o garchar neu o uffern i'r rhai sydd yn byw ynddo. Credwn fod y symudiad hwn a'r ysbryd sydd yn ei gynhyrfu, yn fwy o wir "Ddiwygiad," ac yn arwydd sicrach o ddyfodiad teyrnas Crist, yr hon sydd i wella dynion yn eu holl achosion, na llawer cynhyrfiad ar y teimladau a alwyd felly.

Y mae cydgyfarfyddiad anghyffredin o gymhwysderau yn *General* Booth i arwain y symudiad mawr hwn, ac i'w weithio allan yn llwyddiannus. 1. Y mae ganddo ffydd ddiderfyn, a brwdfrydedd nas gellir ei ddiffodd. Cred fod gras Duw "yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn"—yn dymmorol yn gystal ag ysbrydol. Er nad oes neb wedi bod mor gynnefin ag edrych ar drueni dynol yn ei ffurfiau mwyaf ofnadwy, am ddeugain mlynedd, nid yw wedi bwrw ymaith ei hyder. Fel y dywedodd un am dano, "y mae yn edrych yn ngwyneb y diafol, ac eto yn gobeithio yn Nuw." 2. Y mae yn ddyn craff a chall, llawn o synwyr ymarferol; cymer bwyll i dynu ei gynlluniau, gan eistedd i lawr a bwrw y draul. Y mae ei ffydd yn un "â'i llygad yn ei phen." 3. Unir ynddo y cydymdeimlad tyneraf â nerth ewyllys a phenderfyniad cadarn. Cred mewn llywodraethu dynion; a chred fod dynion, yn gystal a phlant, yn hoffi cael eu llywodraethu (yn *ddaj*. Diammheu genym ei fod yn hollol yn ei le. Teimla plant, trwy reddf, nad ydynt yn ddedwydd pan y maent yn ddilywodraeth ac yn cael eu ffordd eu hunain. Felly hefyd plant mwy. Y mae *greddf* o ufudd-dod yn y ddynoliaeth. Gelwir ar y cenedloedd i lawenhau ac i fod yn hyfryd, am y byddai y Brenin a addewir yn "*llywodraethu* y cenedloedd." Buasai peirianwaith anferth *General* Booth wedi myned yn chwilfriw er ys talm, oni b'ai ei fod yn medru llywodraethu. Y mae yn drefniedydd heb ei fath, o ran doethineb a nerth. 4. Y mae yn ddyn gostyngedig, er ei lwyddiant dirfawr. Cyfaddefa ei anwybodaeth yn rhwydd, ac ni chymer arno fod yn ddim nad ydyw. Croesawa hysbysrwydd o ba le bynag y daw. 5. Dywedir i ni ei fod yn ddyn o ysbryd Catholig, hollol ddi-eiddigedd at bawb sydd yn gweithio dros Grist ac iachawdwriaeth y byd, er ei fod yn credu â'i holl enaid yn efengyl a threfniadau Byddin Iachawdwriaeth.

Y mae un gŵr boneddig wedi addaw

mil o bunnau, os daw 99 eraill i addaw yr un swm, er mwyn gwneyd y £100,000 sydd yn anghenrheidiol i gychwyn. Addawyd eisoes dros ddeugain mil.

Y FEDDYGINIAETH I WELLA Y DARFODEDIGAETH.

Y MAE erthygl Dr. Koch, y buwyd yn dysgwyl yn hir am dani, yn yr hon y mae yn rhoddi eglurhâd mor gyflawn ag y gellir ar hyn o bryd o'i ddarganfyddiad rhyfeddol ar achos y darfodedigaeth a'r feddyginiaeth i'w wella, newydd ymddangos mewn cyhoeddiad Germanaidd. Y mae yn dra dyddorol. Un peth sydd yn cryfhau ein ffydd ynddo ydyw ei gynnildeb a'i ochelgarwch wrth egluro ei feddyginiaeth. Nid yw yn rhy sicr ac anffaeledig; nid yw yn ffrostio pethau mawrion, er fod yr hyn a brofwyd mewn gwirionedd yn bethau mawrion. Y mae llawer o sail i gredu ein bod yn awr o leiaf ar drothwy y darganfyddiad pwysicaf a wnaed erioed mewn meddyginiaeth, heb eithrio yr eiddo Jenner, sef buchfrechiad, os nad yw eisoes wedi ei wneuthur. *Lymph* ydyw y feddyginiaeth yn cael ei roddi o dan y croen, *sub-cutaneous injection*, tebyg i'r hyn a ddefnyddir wrth weinyddu buchfrechiad. Nid yw pa fodd bynag yn lladd y *bacillus* (y pryfyn bychan yn y *tissue*) ond y *tissue* ei hunan, y darn byw o sylwedd corfforol yn yr hwn y mae.

Dywedir fod yr adroddiad yn llawer mwy ffafriol nag y dysgwylid. A dywedir i ni hefyd beth arall o bwysigrwydd heb fod yn ail i'r llall bron. Os bydd y feddyginiaeth hon i iachâu o'r darfodedigaeth yn llwyddiannus, nad yw ond cwestiwn o amser i gael allan feddyginiaeth i iachâu o'r *cancer*, gan fod y ddau afiechyd, fel y tybir, yn gyffelyb yn eu gwreiddyn, yn cael eu hachosi gan bryfyn bychan. A dyma y ddau glefyd mwyaf dychrynllyd ac anobeithiol mewn bod.

Dywedai Proffeswr Nethnagel wrth ei efrydwyr meddygol, yn yr athrofa neu yr ysbyty yn Vienna, pan yn dechreu traddodi ei ddarlith arferol iddynt, y boreu ar ol ymddangosiad yr erthygl:—"Cyn dechreu ar waith y dydd chwi a oddefwch i mi lefaru rhai geiriau; geiriau o frwdfrydedd pur, y cyfryw ag y mae dyn yn eu traethu mewn mynydau o edmygedd calonog. Unwaith mewn oes fe elwir arnom i fod yn dystion o un o'r buddugoliaethau mwyaf y gall meddyginiaeth ei hennill, y cyfryw ag na ennillwyd am ganrifoedd. Yr wyf yn tybied ei fod yn briodol i hynodi y dydd ar yr hwn y gwneir y fath ddarganfyddiad yn hysbys, fel y galler ei gofio o hyn allan byth. Y mae yr hyn a ddarganfyddodd Dr. Koch yn ddernyn o waith o'r fath ddysgleiriaf. Nid oes dim i'w gymharu âg ef ond darganfyddiad buchfrechiad *(vaccination)*." Ychwanegai y Proffeswr yr elai cenedlaethau heibio cyn y gwneid darganfyddiad mor bwysig. A dywedai na byddai gan hanesyddiaeth enw ardderchocach i'w gofrestru na'r eiddo Koch.

Dywedai un meddyg medrus wrthym, pan y byddai meddyginiaeth wedi ei darganfod i'r ddau afiechyd yma—y darfodedigaeth a'r *cancer*, y byddai eisieu *byd* newydd i fyw ynddo, gan mor wahanol y byddai pethau o'i fewn!

YR WYTHNOS WEDDIAU YN NECHREU IONAWR, 1891.

Y MAE Cynghrair yr Undeb Efengylaidd wedi aufon allan eto, fel y maent wedi arfer gwneyd er ys llawer o flynyddoedd, wahoddiad taer a serchog at bobl yr Arglwydd o bob enwad Protestanaidd i neillduo yr wythnos gyntaf o Ionawr i gynnal Cyfarfodydd Gweddïau. Awgrymant y pethau canlynol fel testynau i'r pregethau a'r gweddïau:—

SABBOTH, ION. 4. *Mater i Bregethau. Gogoniant y Tri yn Un Duw.*—Jer. x. 6, 7; Hab. iii. 3, 4; 2 Cor. iv. 6; a xiii. 14.

LLUN, ION. 5. *Cyffes a Diolchgarwch.*—*Cyffesu* pechodau cenedlaethol a'u llywodraethwyr; Eglwysi a'u Gweinidogion; teuluoedd a phersonau. Gweddïo am argyhoeddiad dyfnach o wir natur a chanlyniadau pechod.

Diolchgarwch am heddwch ymysg y Cenedloedd; am dymmorau o lwyddiant; am gyfleusderau ychwanegol i helaethiad y gwaith Cenadol; am fwy o zel ymhlith yr Eglwysi; am fwy o gariad brawdol ymysg pobl yr Arglwydd.—Salm li.; Nehem. ix. 1—19; 1 Ioan i. 4—10; Esa. xxvi. 1—14; Seph. iii. 14—20; Salm cxlvii.

MAWRTH, ION. 6. *Yr Eglwys Gyffredinol. Gweddi* dros Eglwys Crist, ar i nerth yr Ysbryd Glân orphwys arni er mwyn ei neillduo oddiwrth y byd a'i sancteiddio i'r Arglwydd; am undeb ymhlith yr holl ddysgyblion; dros Eglwysi proffesedig, ar i bawb a alwant eu hunain yn Gristionogion gael eu gwir fywhau a'u dychwelyd; ar i Gristionogion ymhob man fod yn dystion i Grist trwy sancteiddrwydd, zel, a chariad; ar i gynnydd ofnadwy Pabyddiaeth a'r syniadau offeiriadol gael ei attal.

Gweddi ar i'r Gynnadledd Gydgenedlaethol yn Florence, yn Ebrill nesaf, gael ei choroni â bendith neillduol.—Rhuf. xii.; Ioan xvii.; Esa. xli. 10—20; 1 Cor. xii. 12—28; Ephes. iv. 1—16; 2 Tim. iii.

Mercher, Ion. 7. *Cenedloedd a'u Llywodraethwyr. Gweddi* am gyfiawnder a heddwch cenedlaethol; ar i'r duedd at ddirmygu y gyfraith, eiddigeddau cymdeithasol, ac anghydfyddiaethau rhwng gweithwyr a meistriaid, gael eu lleihau trwy barch i gyfraith Duw, a thrwy oddefgarwch o bob tu; ar i genedloedd beidio troseddu yn erbyn eu gilydd trwy y fasnach mewn *opium*, diodydd meddwol, a nwyddau dinystriol eraill; ar i'r gaethfasnach gael ei diddymu; ar i bawb mewn goruchafiaeth lywodraethu mewn doethineb ac yn ofn yr Arglwydd. Ar i dôn uwch o foesoldeb cyhoeddus ffynu; ar i ddydd yr Arglwydd gael ei gadw yn well; ac ar i gynnydd celfyddyd, gwyddor a masnach fod â'i duedd i ddyrchafu y ddynoliaeth, ac i ogoneddu Duw.—Rhuf. xiii.; Mat. v. 1—20; Esa. lvi. 1—8; 1 Tim. ii. 1—10; Iago iv. 1—12; 1 Petr ii. 11—25.

Iau, Ion. 8. *Efengyleiddiad Cartrefol a Chenadaethau i'r Iuddewon. Gweddi* dros y lliaws mewn gwledydd Cristionogol sydd yn byw heb Dduw; dros anffyddwyr ac ammheuwyr; dros yr ymdrechion i efengyleiddio Pabyddion; dros waith Cristionogol ymysg dosbarthiadau neilltuol—megys milwyr, morwyr, heddgeidwaid, &c.

Gweddi dros Israel—ar i ragfarn ac anwybodaeth gael eu symud, ac am fendith ar gylchredniad y Testament Newydd ymhlith yr Iuddewon; ar i Gristionogion ddangos mwy o gydymdeimlad; ar i Dduw gyflawni ar fyrder ei fwriadau o berthynas i'w bobl, a phrysuro dyfodiad dydd Crist.—Esa. lx.; Actau iv. 13—31; Mat. x. 1—16; Luc xv.; Ioan iii. 14—21; Rhuf. xi.; 2 Petr iii.

Gwener, Ion. 9. *Cenadaethau at Fahometaniaid a Phaganiaid. Diolchgarwch* am ddyddordeb ychwanegol yn cael ei deimlo, am gynnygion o wasanaeth personol, am rydd rediad y Gair, ac am ddrysau agored trwy y byd.

Gweddi ar i nerth yr Ysbryd orphwys ar yr holl Genadon a chydfyned â phregethiad y Gair; ar i lawer gael eu dychwelyd at yr Arglwydd; ar i ymofynwyr gael eu dwyn i benderfynu; ar i gredinwyr ofnus gael eu gwneyd yn hyf i broffesu Crist; ar i Gristionogion beidio rhoddi tramgwydd trwy anghysondeb eu bywyd â'u proffes; ar i'r fraint a'r ddyledswydd o efengyleiddio y byd gael eu deall yn llawn gan yr Eglwys, ac ar i fwy o feibion a merched gael eu tueddu i ymroddi i'r Genadaeth Dramor. Gweddi dros y cenadon eu hunain; am iechyd corff ac enaid; am iawn farn, a meddwl parod i gariad, amynedd a sancteiddrwydd.—Salm lxvi.; Joel ii. 23—32; Esa. lv.; Salm lxvii.; Marc xvi. 14—20; Ephes. vi. 10—20; Actau xxvi. 12—18.

Sadwrn, Ion. 10. *Ein Teuluoedd. Gweddi* ar i'n meibion a'n merched gael eu gwir ddychwelyd; ar iddynt gael eu maethu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, a'u galluogi i orchfygu temtasiynau yr oes. Dros bob ymdrech neilltuol ar ran yr ieuenctyd; dros Brifysgolion, Athrofeydd ac Ysgolion; am fendith helaeth ar Gymdeithasau Cristionogol o ddynion a merched ieuainc; am ras i rieni i arwain eu plant at yr Arglwydd, trwy air ac esiampl.—Marc x. 13—22; Diar. iv.; Deut. vi. 4—15; Ephes. vi. 1—4; 2 Tim. ii. 1—10; Marc x. 13—22; Esa. xliv. 1—8.

Sabboth, Ion. 11. *Mater i Bregethau. Crist yn cael ei amlygu yn ei bobl.*—Ioan xvii. 21—23; Col. i. 27; 2 Thes. i. 12; Eph. iii. 10—21.

Bywgraffiaeth.

ADGOFION AM Y DIWEDDAR MR. HUGH LEWIS, LLANBERIS.

Yr wyf yn deall nad ymddangosodd gair o hanes y diacon duwiol a defnyddiol uchod yn y Drysorfa. Gwir i Draethawd "Bywgraffyddol a Beirniadol" gael ei wneyd a'i gyhoeddi yn llyfr destlus am swllt, gan y Parch. G. Tecwyn Parry. Ond ni ddarfu ond nifer bychan, mewn cymhariaeth, o dderbynwyr y Drysorfa weled y Bywgraffiad hwnw. A chan fod "coffadwriaeth" ein diweddar frawd mor "fendigedig," nis gallaf lai nag ysgrifenu yn fyr am dano. Ond nis gellir galw yr hyn a ysgrifenaf fi yn Fywgraffiad, am fy mod yn cymeryd cryn lawer o gynnwys y Bywgraffiad gwerthfawr a nodwyd i'w wneyd. Ond mi a adawaf yr englynion sydd yn y Traethawd o farddoniaeth ein diweddar frawd, a'r llythyr effeithiol a ysgrifenodd at gyfaill gwrthgiliedig, ynghyd a'r canlyniad hapus a fu i hyny, yn gystal a'r anerchiad neu y cynghor rhagorol a draddodwyd ganddo i nifer o ddiaconiaid pan yn cael eu derbyn yn aelodau o'r Cyfarfod Misol. Fy amcan yn hyn o ysgrif ydyw rhoddi rhyw syniad i'ch darllenwyr am gymeriad ein diweddar frawd fel dyn ac fel Cristion, yr hyn a ddengys i ieuenctyd ein heglwysi, a phawb o ran hyny, mor ddwfn y mae dyn duwiol a gweithgar, ac o gymeriad uchel, yn sugno serch a chalon cymydogaeth, heb son am yr effeithiau bendithiol a wna ar ysbrydoedd dynion.

Yr oedd ein ffyddlawn frawd Mr. Hugh Lewis wedi ei ddyrchafu yn is-oruchwyliwr yn chwarelau Dinorwig er ys tua deng mlynedd cyn ei farwolaeth; ond yn helynt fawr y cload allan, diswyddwyd ef ac amryw eraill, er na roddwyd unrhyw gyhuddiad yn erbyn neb o honynt. Ond profodd y tro yn farwol. Yr oedd yr amgylchiad yn ormod iddo i'w ddal. Nis gallai ddygymmod a bod i ddim gael ei roddi yn ei erbyn. Heblaw hyny yr oedd ei ddyfodol ef a'i deulu, y rhai oedd yn anwyl iawn ganddo, yn pwyso yn drwm ar ei feddwl. A chan fod ein cyfaill bob amser yn fwy tueddol i gredu ei ofnau na'i obeithion, aeth ei feddwl i lawr er pob ymdrech o eiddo ei lïaws cyfeillion i'w ddal i fyny. A

chan fod y gymydogaeth yn teimlo ei bod yn dra rhwymedig i wneyd rhyw gydnabyddiaeth iddo am ei lafur mawr a diflino gyda phob achos da er ys deugain mlynedd, yn arbenig y llafur a ddangosodd gyda llenyddiaeth a chrefydd, penderfynasant wneuthur tysteb iddo. Yr oedd y gwahanol enwadau yn frwdfrydig gyda'r symudiad; a phan yr oedd pawb wrthi yn zelog, a'r cyfraniadau yn dyfod i law yn brysur, wele y newydd sydyn yr hwn oedd fel taran, yn ymdori ar y gymydogaeth ei fod ar gael ei anrhydeddu yn y byd ysbrydol, trwy dderbyn "anniflanedig goron y bywyd." Parodd y cwmwl du, brochus, alar dwys a chyffredinol; oblegid yr oedd pawb o'r gwahanol gylchoedd yn teimlo colled fawr, anadferadwy mewn amryw ystyriaethau. Ond er ei holl ragoriaethau, yr oedd yn rhaid i bob cylch daearol ollwng eu gafael o hono, oblegid yr oedd yr ysbryd mawr, rhyddfrydig, dyngarol a duwiolfrydig, wedi dychwelyd at "yr Hwn a'i rhoes." Cafodd gladdedigaeth anrhydeddus. Yr oedd holl weinidogion a phregethwyr y rhan yma o'r Sir, a llu mawr o'i frodyr y diaconiaid, yn gystal a thyrfa fawr o'r ardaloedd, yn ei angladd. Cerfiwyd ar un ochr i'r gofgoloſn y geiriau hyn:—

"Er serchog goffa am Hugh Lewis, Penybryn, Llanberis, yr hwn a fu farw Mawrth 10, 1886, ac a gladdwyd yr 16eg yn mynwent Llanberis. Yr oedd yn llenor gwych, bardd medrus a duwinydd rhagorol. Gweinyddodd y swydd o ddiacon yn Rehoboth am 12 mlynedd, gyda ffyddlondeb, defnyddioldeb, a gallu mawr, a bu yn noddwr gwresog i lenyddiaeth, moesoldeb a chrefydd."

Ac ar yr ochr arall y mae yr englyn canlynol gan ei gyfaill Tecwyn:—

"Doniau enaid y dyn anwyl—a fu
Yn fywyd pob gorchwyl,
Yn hwyr oi oes, O! mor ŵyl
Yn Iesu cadwodd noswyl."

Erys adgof maith, dwys a hiraethlawn am dano fel dyn a Christion. Yr oedd y ddau nodwedd yma wedi eu cyfuno ynddo. Tystia Mr. R. H. Parry, un o'i gydswyddogion, a'i gyfeillion mwyaf mynwesol, am dano ei fod yn bur, unplyg, ac yn yr oll a wnai yn amcanu at ogoneddu Duw a'i Geidwad. Dodwn yma y llinellau swynol a gyfansoddodd ei serchog gyfaill Tecwyn, wrth adael ei fedd:—

"O Gristion cywir, tlws oi ddawn,
Ei lwch a orwedd dros brydnawn
Yn meddrod oer y llan;
Yr ywen werdd a'i changau fydd
Yn gwylio drosto nos a dydd,
A'r Iesu wylia 'r fan;
Ac ar ei air, Archangel rydd
A'i udgorn, lef—a thŷr yn ddydd,
Ac egyr dôr ei fedd;
Ail-unir of â'i ysbryd cân
Ar ddelw 'r Iesu yn y fan,
I fyw mewn Dwyfol hedd."

Ymhen yspaid ar ol y claddedigaeth daeth yr amser i bwyllgor y Gylchwyl Lenyddol fyned at eu gilydd i ddewis testynau at y flwyddyn ddyfodol, a phenderfynasant roddi pum' gini o wobr am y "Traethawd Bywgraffyddol a Beirniadol goreu ar Hugh Lewis a'i Ysgrifeniadau." A chaed traethawd rhagorol—un oedd yn rhoddi boddlonrwydd llawn i'r beirniad craff a gonest, y Parch. Thomas Roberts, Jerusalem, gan y Parch. G. T. Parry, Gorphwysfa. Fel y sylwyd, argraffwyd y Traethawd, a darfu i Mr. Parry, yn unol â'i haelioni arferol, gyflwyno y wobr at dalu am argraffu. Gellir dyweyd yn ddibetrus fod y traethawd yn deilwng o'r awdwr ac o'r gwrthddrych y mae yn ei ddesgrifio. A thybygwn ni, pe buasem heb ddim ychwaneg i'w ddyweyd, fod yr hyn a nodwyd a wnaed iddo ac a ddywedwyd am dano, yn ddigon o brawf fod ei enw yn anwyl iawn yn y cylchoedd hyn. Pa fodd yr aeth felly? Wel, trwy iddo gysegru ei holl alluoedd, a'i wybodaeth, a'i holl ddoniau, i wasanaethu ei genedlaeth a'i Ddnw. Y mae wedi bod yn gysylltiedig â phob symudiad er dyrchafiad cymdeithasol a meddyliol y dosbarth gweithiol; ac ni pharodd ei ddyrchafiad i swydd iddo adael na phellhau oddiwrth ei ddosbarth. Ni fynai ei gyfrif yn ddim ond gweithiwr. Ac un o dywysogion y gweithwyr ydoedd. Dywed y Parch. G. T. Parry yn ei draethawd, ei "fod yn meddu synwyr cyffredin cryf," ac yr ydym yn credu mai hyn oedd cuddiad ei gryfder. "Yr oedd ei synwyr cryf yn ei alluogi gyda chyflymder mawr i gymeryd i fewn wahanol agweddau y pwnc dan sylw, ac mewn canlyniad i ffurfio barn am dano yn ol yr agweddau hyny. Yr oedd hyn yn nodwedd amlwg ynddo. Yr ydym yn cofio am lawer o amgylchiadau ynglŷn â gwahanol achosion dyrys, y dangosodd allu arbenig i roddi trem ar yr achos, ac mewn canlyniad rhoddi cyfeiriad priodol i'r ymdriniaeth. Yr oedd ei amgyffrediad yn gryf ac yn gyflym, yr hyn oedd yn ei alluogi i ffurfio barn addfed a chlir." Ac mor werthfawr ydyw y cyfryw ddynion mewn oglwys ac mewn cymydogaeth!

Dywed Dr. Hughes, Liverpool (Caernarfon yn awr), mewn llythyr o'i eiddo sydd yn y Bywgraffiad hwn "Ei fod yn meddu coethder, treiddioldeb a barn. Synai ambell un," meddai, "pe dywedid ei fod yn ddyn dysgedig; ond dyna y ffaith. Y diwylliant uchaf ydyw yr un a ddyry allu i iawn ymresymu ac fawn farnu, ac yr oedd Hugh Lewis yn feddiannol ar y diwylliant hwn. Defnyddiwn y cyfle pan ddeuwn yna i ofyn ei farn ar rai pynciau na chlybu am danynt o'r blaen, a mawr yr awyddfryd a amlygid ganddo; ac ar ol ymddyddan am ychydig, traethai syniadau fyddent yn profi ei fod yn alluog i feddwl a barnu ar unrhyw bwnc. Mwynhai y barddonol yn fawr. Yr oedd yn meddu synïad addfed am wir farddoniaeth. Ond yr oedd ei feddwl o nodwedd mwy athronyddol; amcanai dreiddio trwodd at graidd a chalon y mater fyddai dan sylw. Er cymaint y dyddordeb a deimlai mewn llenyddiaeth gyffredin, gwirioneddau y Bibl oedd ei brif hyfrydwch, y rhai y llafuriai nid yn unig am eu deall ond hefyd am eu

profi a'u mwynhau. Hoffwn yn fawr ei glywed yn gweddïo, gan mor llawn o symledd a difrifoldeb ydoedd wrth nesâu at y Duw mawr ac anfeidrol. Mae dynion o ddeall a barn fel H. Lewis o werth annhraethol i ardal fel yr eiddoch chwi."

Dywed ei gyfaill Mr. Tecwyn Parry, yr hwn fe allai a'i hadwaenai oreu o'i holl gyfeillion, "Y gellir crynhoi rhagoriaethau ei gymeriad personol i dri gair, sef *unplygrwydd, cywirdeb* a *ffyddlondeb*. Yr oedd uniondeb yn nodwedd amlwg ynddo, ac o'r nodwedd hon yr oedd ei gyfeillgarwch pur a diblygion yn tarddu. Yr oedd yn gyfaill yn ystyr fanylaf y gair. Bu llawer dadl frwd rhyngom, ond ni effeithiodd hyny yn y gradd lleiaf ar ei gyfeillgarwch. Nis gallai oddef gwneyd dim tu cefn i neb. Yr oedd am chwareu teg i'r distadlaf, a mynai i bob peth gael ei wneyd yn y golwg ac yn hollol agored. Yr oedd felly yn ddirgel a chyhoeddus, ac yn arbenig gyda gwaith crefydd. Y mae un mlynedd ar bymtheg o fyw yn ei gymdeithas yn rhoddi hawl i mi ysgrifenu fel hyn am dano. Nid ydym trwy hyn yn awgrymu ei fod heb ei ffaeleddau; yn hytrach, yr ydym yn ysgrifenu am dano yn yr ymdeimlad mai dyn ffaeledig ydoedd; ond yr oedd ei ragoriaethau yn llawer mwy na'i ffaeleddau, a diau fod y rheswm am y cwbl yn cyfodi o'r ffaith ei fod yn Gristion. Gallai ef ddywedyd gyda phriodoldeb, 'Trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf,' a gwnaeth gras ef yn gymeriad gloew a phur i'w waelodion."

Gan mai fy amcan yn yr adgofion hyn, fel y dywedais, ydyw rhoddi syniad lled glir i ddarllenwyr y Drysorfa o'r dyn a'r Cristion anwyl a defnyddiol hwn, teimlwyf nas gall fy amcan fod wedi ei gyrhaedd heb i mi gael dyfynu un llythyr arall, sydd i'w weled yn *Nhraethawd Bywgraffyddol* Tecwyn, yr hwn a dderbyniodd oddiwrth un o hen gyfeillion Hugh Lewis, sef Dr. Parry, Aberystwyth.

Brynteg, Aberystwyth,
Hydref 20, 1889.

Anwyl Gyfaill,

Yr oedd yn dda genyf ddeall eich bod wedi ymgymeryd âg ysgrifenu cofiant i'n diweddar hen gyfaill Mr. Hugh Lewis. Yr oedd ef yn deilwng o gofiant; ac yr wyf yn llawen ei fod wedi ei ymddiried i un oedd yn ei adnabod mor dda, wedi bod yn cydlafurio yn yr un eglwys am lawer o flynyddoedd, ac yn abl ymhob modd i wneyd cyfiawnder â'i goffadwriaeth. Drwg genyf na buasai genyf rywbeth gwell i'w gyfranu tuag at y cofiant. Ar yr un pryd, y mae yn dda genyf ddwyn tystiolaeth i rai o'r rhagoriaethau ag oeddynt yn tywynu mor amlwg yn ei gymeriad. Daethum i adnabyddiaeth âg ef yn fuan wedi i mi ddechreu pregethu, a byddwn yn mwynhau ei gyfeillach yn fawr pan y deuwn i Lanberis. Yr oedd yn un o'r dynion mwyaf naturiol. Nis gellid cysylltu âg ef hyd yn nod mewn dychymyg ddim tebyg i rodres na mursendod. Yr oedd yn wir bientyn natur, ac yr oedd ei natur ef yn un gref a chyfoethog. Nid oedd nemawr neb ag yr oedd natur ei hun yn dwyn tystysgrif gryfach iddo o onestrwydd trwyadl. Yr oedd gonestrwydd yn ffiachio allan ynddo. Adnabyddid tinc neu *ring* y gwir fetel yn ei lais; goleuai hyn i fyny ei holl wynebpryd. Meddai farn hynod o gywir; synwyr cyffredin o'r fath oreu. Geilid ymddiried yn ei benderfyniadau ar bob achlysur; a meddai allu naturiol mawr. Ac yr oedd y meddwl cryf hwn wedi ei amaethu a'i drysori â gwybodaeth, mor bell ag yr oedd hyny yn bosibl i un yn ei amgylchiadau ef—chwarelwr yn gweithio wrth ei alwedigaeth y rhan fwyaf o'i oes. Y mae yn gofus iawn genym fod yn Llanberis tua deng mlynedd yn pregethu ar noson waith. Ar ol yr oedfa daeth Mr. Hugh Lewis yn ddifêth, fel arferol, i edrych am danom i'r tŷ lle yr oeddym yn llettŷa; ac un neu ddau o weinidogion a chyfeillion eraill. Wrth ymddyddan ar ryw bynciau, yn cyfodi, fe allai, o fater y bregeth, darfu i ni ein dau yn anfwriadol lithro i *ddadl* ddifrifol a brwd—ond yn y dymher oreu o'r ddau tu—a barhaodd am ddwy awr a hanner; credwn mai nyni a orchfygodd, am ein bod ar y tir cryfaf; ond nid hyny yw y pwnc—yr oeddwn yn gorfod synu at fedrusrwydd ein cyfaill yn ymresymu, ei graffder a'i barodrwydd. Nid ydym yn cofio clywed neb yn dwyn ymlaen ddadl, ar ei ochr ei hun, yn fwy teg a galluog nag yr oedd ef yn gwneyd y noson hono.

"Yr oedd ein cyfaill yn Gristion da ac yn ddiacon cryf. Yr oedd nerth ei egwyddor, purdeb ei gymeriad, nerth ei feddwl a'i ddoethineb a'i wybodaeth, yn rhoddi iddo o anghenrheidrwydd ddylanwad mawr ar ddynion. Ac yr oedd ei holl ddylanwad o blaid y gwirionedd, ac o blaid amcanion mawr teyrnas ein Harglwydd Iesu Grist. Pe buasai raid i ni symio i fyny brif hynodion a rhagoriaethau ei gymeriad mewn un gair, y gair hwnw fuasai *nerth*. Yr oedd wedi ei gadarnhau â phob nerth—nerth corff, nerth meddwl, nerth ysbryd ac egwyddor. Yr oedd ei osodiad yn gadarn, ei gerddediad yn gadarn a digryn, ei aceniad yn gryf a'i barabliad yn rymus. Rhoddai feddyliau cryfion mewn iaith gref, a chymhellid ef gan egwyddor a bywyd cryf. Dyn hynod ydoedd, er bod yn ddyn cyffredin, a gwnaeth ddefnydd da o fywyd iddo ei hun ac i eraill. Gan ddymuno i chwi lwyddiant ynglŷn â'r cofiant,

"Ydwyf, yr eiddoch,

"G. Parry."

Yr wyf yn teimlo fod desgrifiadau Mr. Parry a Dr. Hughes a Dr. Parry yn hynod o dda a *byw* o'm diweddar gyfaill, ac yn annhraethol well na dim a allaswn I wneyd, er fy mod yn gwybod agos gymaint a hwythau am dano; o leiaf, yr wyf yn gwybod digon i allu dyweyd nad ydynt hwy yn rhy dda gyda golwg ar ei ffyddlondeb fel cyfaill. Credwyf nas gallai neb o'i gyfeillion ammheu ei ffyddlondeb am foment, ond gellir dyweyd y byddai calon pob cyfaill yn ymddiried ynddo. Os byddai anghen amddiffyniad ar rai o honynt yn rhywle, os byddai Hugh Lewis yno, nid oedd waeth pa mor bell fyddai y cyfaill, byddai yn sicr o chwareu teg.

Dywed Dr. Parry "y gellid ymddiried yn ei benderfyniadau ar bob achlysur." Nis gallaf gofio am un achlysur sydd yn peri i mi ammheu cywirdeb ei ddywediad; a buom yn synu lawer gwaith mor fuan y byddai yn dyfod i benderfyniad, ac mor gryf y gallai ei amddiffyn yn y fan, ac ateb pob gwrthddadl; a thrwy hyny attaliodd i'r argae dori lawer pryd. Ond nid oedd efe o'r meddygon fydd am gau briw heb ei lanhau.

Dywed Dr. Hughes "ei fod yn alluog i

feddwl a barnu, ac mai gwirioneddau y Bibl oedd ei brif hyfrydwch, y rhai y llafuriai ar hyd ei oes nid yn unig i'w deall, ond eu profi a'u mwynhau." Felly yr oedd, ac yr oedd ei fedrusrwydd i'w hesbonio a'u hegluro yn profi hyny, a dyna oedd yn ei wneyd yn athraw mor ragorol. Byddai yn astudio drosto ei hun, a byddai yn darllen esboniadau i'w gynnorthwyo yn y gwaith, nid i'w cofio a'u dyweyd yn y dosbarth. Clywsom ef droion yn traethu syniad ambell i esboniwr y byddai yn ei ddwyn i sylw, ond byddai yn dyner wrth bob un yn ei ddosbarth, yn enwedig y gwan. Ond os byddai un yn treio bod yn fawr tu hwnt i bawb ac yntau heb fod, gwae hwnw; ond helpiai y gwan i ddyfod â'i syniad i eglurdeb. Yr oedd yn ddigon craff i weled pob syniad y byddai rhywbeth ynddo, pa mor garpiog bynag y byddai, a dygai ef i sylw. Nid oedd ef fel ambell un heb allu i weled fod dim yn esboniad neb yn y dosbarth os na byddent yn hollol, ie bron yn yr un geiriau a'r esboniad ag y bu ef yn ei ddarllen cyn dyfod i'r ysgol.

Yn awr yr wyf am ddybenu fy adgofion gydag "Ymson Hiraethus" ei gyfaill Tecwyn am dano:—

I.

Fel tònau 'r môr yn golchi 'r làn
Ar nawnddydd yn Mehefin,
Y daw adgofion hiraeth, gan
Ail ennyn hedd ein cyfrin;
Y dòn ddychwela yn ei hol
I fynwes tragwyddoldeb,
Ac eilwaith daw yn fyw o'i gôl
I olchi glàn marwoldeb.

O gyfaill anwyl, 'r wyf o hyd
Yn wylo am ei golli,
Ond gwèna 'r nefoedd—gwyn ei fyd
Ymhlith anfarwol gwmni;
Ei yrfa yma fu yn glir,
A gloew ei gymeriad,
Ac erys yn wyrddlesni îr
O dan y nef eneiniad.

II.

Ei feddwl mawr gyfunai lu
O wir elfenau llwyddiant,
A'u llawn ddadblygiad ynddo fu
Yn geinder gwir ardduniant;
Fel lliwiau 'r enfys yn y nen,
Ymdoddi wnaent i'w gilydd,
Gan ffurfio 'n goron ar ei ben,
Fel anian dlos ar haf-ddydd.

Yn mro goleuni—uchel nod—
Ei glod oedd am egluro;
Ei feddwl craff a garai fod
Ag adnod yn ymgomio:
Arweddion dwyfol air ei Dduw
A swynai 'n llwyr ei galon,
A'i nef-feddyliau wisgai 'n fyw
Yn ngheinder ei nodweddion.

III.

Mor llawn eneiniad fu ei oes,
Fel gwlith y nefoedd yn ei rin;
Fe drengai 'i eiriau ar ei fin
Yn ngolwg ingoedd marw 'r groes.
Ei ysbryd yn ei weddi gae i
Yn esgyn ar adenydd ffydd
I ganol nefoedd—gwlad y dydd,
Yn rhin haeddianau 'r dwyfol waed.

Llifeirio 'n loew wnai ei ddawn
Wrth bortreadu Crist a'i drefn
I ddwyn y byd yn ol drachefn
I heddwch Duw, mewn dwyfol lawn.

IV.

Ond ar amrantiad, wele genad nef
Yn d'od ymlaen, i ddwyn ein ffyddlawn dad
Oddiwrth ei lafur at ei wobr gain:
A chyda chwâ ei edyn diffodd wnai
Y ganwyll wan o fywyd oedd yn bod
Yn rhwymyn undeb rhwng yr ysbryd mawr
A'r babell bridd, ar len y ddaear hon;
A dianc wnaeth i Wynfa, heb ddyweyd gair,
Nac ysgwyd llaw â hoff gyfeillion prudd.
O! gyfaill anwyl, wylaf ar ei ol!

R. Thomas.

Llanberis.

MR. ROBERT GRIFFITH, CRICCIETH.

Gan John Owen, *Brynymor.*

Ychydig o ddarllenwyr y Drysorfa oeddynt yn adnabod Mr. Robert Griffith, a llai na hyny o nifer, mae yn debyg, a feddent syniad cywir am ei ddefnyddioldeb a'i ffyddlondeb gydag achos ein Gwaredwr. Diacon ydoedd efe gyda'r achos yn y Capel Seisonig, Criccieth. Dewiswyd ef yn flaenor yn y flwyddyn 1877, ac felly bu yn ddiacon am 13eg o flynyddau; am y deg cyntaf o ba rai y bu yn cyflawni gwaith y swydd yn y Capel Mawr, ac am y tair diweddaf yn y Capel Seisonig. Yn ystod y tair blynedd hyn collodd yr eglwys hon amryw o aelodau ffyddlawn ac amlwg mewn gwir grefydd. Ynddynt oll yr oedd crefydd i'w theimlo yn hytrach nag i'w gweled. Anweledig bresennoldeb ydoedd, hyd nes y daeth cystudd i ddechreu dyosg y gorchudd. Yna daeth goleuni mor gryf yn esboniad ar y ffyddlondeb dystaw a deimlasid am flynyddoedd. Dau frawd o'r nodwedd uchod oeddynt R. W. Jones ac Owen Griffith. Cyn cyrhaedd 40 oed galwyd hwy adref, gan adael priod a phlant ar ol. Ond aethant yn dawel a siriol, gan gredu mai eu Tad "wyddai oreu."

Chwaer o'r un nodwedd ydoedd Mrs. Thomas, priod un o'r diaconiaid, un â'i chariad at yr achos—fel arogl y rhosyn yn ddystaw—ond ar yr un pryd yn cyffwrdd yn sancteiddiol bob dyledswydd a berthynai iddi. Mrs. Hughes, Arfonia Terrace, hefyd yn ei chystudd a wleddai ar adnodau mawrion yr Epistolau. Tynai ddwfr o adnodau ydynt yn greigiau celyd i lawer o grefyddwyr. Am y rhai uchod ac am Mr. R. Griffith, gallwn ddyweyd heb ormodiaeth, "Wele Israeliaid yn wir, yn y rhai nid oedd twyll." Ofn marw? dim o'i arlliw ar yr un o honynt. Ond am Mr. R. Griffith, yn moreu ei ddyddiau gweithiwr ydoedd; ond trwy ddiwydrwydd a gofal gallodd gychwyn masnach mewn glo a blawd, &c., a bu yn llwyddiannus, er "gwasgaru a rhoddi i'r tlodion," i gyrhaedd amgylchiadau clyd. Mewn gwleidyddiaeth, Rhyddfrydwr cadarn ydoedd, ac yn Etholiad 1868 pleidleisiodd yn unol â'i argyhoeddiad yn gyhoeddus. Dyoddefodd lawer o'r herwydd wedi hyny, ond nid oedd dim yn tycio i'w siglo y gronyn lleiaf o ran ei egwyddorion. A llwyddodd yn ei fasnach er gwaethaf y gwrthwynebwyr. Gwerthai flawd a glo a nwyddau eraill, ond ni werthodd egwyddorion erioed. Ni fu-

asai neb yn ei synwyr yn meddwl ammeu ei air na'i weithred. Gan ei fod yn ddi ddichell yr oedd hefyd yn wyneb-agored. Teimlai yn gryf dros ddirwest, a llefarai yn llym yn yr eglwys yn erbyn diota. Nid oedd yn berchen dawn rydd nac athrylith gref. Nid oedd wedi cael manteision addysg, ond er hyny ychydig a lanwant ystyr y gair *blaenor* yn well nag ef. Blaenorai mewn cymeriad dysglaer, mewn llettŷgarwch a haelioni, a blaenorai yn arbenig mewn cysondeb yn y moddion. Byddai ymhob moddion, ac yno yn brydlawn, a gwir ofalai am yr eneidiau a berthynent i'r eglwys. Byddai yn siriol a digrif gyda phawb, ond byddai cynghor caredig—un gair bron—yn fynych yn cael ei roddi neu ei awgrymu cyn ymadael. Perchid a cherid ef gan bawb. Nodweddïid ei weddïau gan daerineb a difrifwch mawr iawn ar brydiau. Byddai yn ymaflyd yn nerth Duw ambell waith nes peri fod y dylanwad yn dra thoddedig. Er ys dwy flynedd bellach ymaflodd y *cancer* ynddo oddifewn, ofnaiyntau nad oedd ymwared. Iddo ef oedd mor serchog, ac yn gyfaill mor bur, anhawdd oedd gadael hen gyfeillion. Teimlai o herwydd hyn yn ddwys. Ond tynai nerth a dyddanwch o'r holl Fibl a'r oll o'r llyfr hymnau. Ofer i ni ddethol. Yr oedd geiriau y Bibl fel ffrwythau pêr yn ei enau yn wastadol, a breichiau hen bennillion yn barhaus yn cofleidio ei feddwl. Nid ofnai angeu o gwbl, ond yr oedd yn awyddus am ychwaneg o oleuni. Credwn fod ei enaid yn teimlo rhyw gywreinrwydd ysbrydol wrth nesâu at ymylon y byd arall. Credai, a dywedai fod ei Dad yn fwy na phawb, ac na ddygai neb ei enaid ef o law ei Dad, ond awyddai am gael gweled yn fwy clir; y drych a'r ddammeg oedd yn dechreu cilio, a'r wawr oedd wanaidd eto. Cafodd gystudd trwm, ond gofalwyd yn dra thyner a medrus am dano gan Mrs. Griffith. Nid oedd modd i ofal a charedigrwydd dymheru mwy ar gystudd caled. Bu farw Gorph. 23, 1890, yn 70 mlwydd oed, a chladdwyd ef gan dyrfa lïosog a pharchus yn Nghladdfa Newydd Criccieth, Gorph. 26ain. Nid digon ydyw dyweyd fod colled ar ei ol. Teimlir yn hir chwithdod a hiraeth dwys am dano. Y dydd Sadwrn diweddaf y bu fyw cafodd seibiant oddiwrth boen, a nerth a goleuni i'w feddwl. Galwodd ei berthynasau a'i gyfeillion ato i gadw seiat, a dywedodd wrthym, "Seiat sydd i fod yma yrwan," a chan droi golwg serchog atom, 'ychwanegai, "A fi sydd yn myn'd i'w chadw cofiwch." Cynghorodd ni oll yn bersonol a charedig dros ben. Dywedodd nad oedd ganddo arian nac aur i'w gadael i ni, ond ei fod yn ein cyflwyno yn wastadol yn ei weddïau i Dduw. Annogai ni i ymroddi o lwyrfryd calon i wasanaethu yr Arglwydd. Credai na byddai byw i weled y Sabboth, ond tua pedwar o'r gloch boreu Sabboth dywedai, "Yn wir, yr oeddwn yn meddwl neithiwr y buaswn wedi eich gadael cyn hyn, ond yr wyf yn gweled erbyn hyn y caf aros heddyw gyda chwi eto." Cyfnewidiodd prydnawn y Sabboth, ond bu fyw hyd foreu Mercher. Ni cheid dim ganddo ond adnodau a phennillion yn ystod y dyddiau hyn, oddieithr yr ymadroddion "O Iesu anwyl," ac "O Arglwydd, cymer fi atat dy hun." Unig wrthddrych ei bryder yn ei gystudd ydoedd yr Eglwys, ond teimlai yn ffyddiog gyda golwg ar ei dyfodol. Yr oedd iddo air da gan bawb a chan y gwirionedd ei hun yn ystod ei holl yrfa grefyddol, ond yr oedd diwedd ei ymarweddiad yn rhywbeth gwerth i'w gofio a'i ystyried. Yr oedd cariad Duw uwchlaw ei wybodaeth, a thaugnefedd Duw uwchlaw ei ddeall, ond mwynhai y naill a'r llall i fesur mawr iawn. Nid ydym yn gwybod iddo gael tâl erioed am unrhyw wasanaeth i grefydd, ond teimlem ni oeddym yn dystion o'i oriau olaf, fod ei wobr yn deilwng o'i Arglwydd. Fe'i cofir am amser maith yn Nghriccieth, ond fe'i cofir bob amser yn gysylltiedig â daioni a rhinwedd.

Cronicl Cenadol.

Llydaw.

Llythyr oddiwrth y Parch. W. Jenkyn Jones.

10, Rue Mesoloaguen, Quimper,
Tachwedd 8, 1890.

Fel eich hysbysais fis yn ol trwy gerdyn, lluddiwyd fi i ysgrifenu y mis diweddaf gan ddamwain fu agos bod yn ddifrifol i mi pan yn dychwelyd gyda'r cerbyd o Pont l'Abbé, ond cefais waredigaeth gyfyng o ganol y perygl, er i mi ddyoddef oddiwrth effeithiau y codwm am rai dyddiau. Mae cysgod y ddamwain yn fynych yn ei rhagflaenu, beth bynag ddywed ammheuwyr; nid oedd unrhyw berygl yn y golwg pan y tarawyd fi gan y syniad am ryw ddamwain oedd yn yr ymyl. Diolch i Dduw, ni chef ais ond rhybudd i fod yn barod; credaf fod fy mater rhyngof â'm Barnwr wedi ei benderfynu, ond gyda sicrwydd am nefoedd gobeithiaf gael llawer o flynyddoedd eto i lafurio dros Grist yn fy anwyl Lydaw. Y nos o'r blaen cawsom gyfarfod digon hapus, gwrandawiad difrifol, a chynnulliad lled dda. Yr oedd yn y cyfarfod un na welir mo hono mwy yn ein mysg, er mor hoff oedd genym weled ei wyneb yn y cyfarfodydd. Cyfarfyddodd â'i ddiweddd drwy foddi yn yr afon ddau ddiwrnod ar ol hyny. Yr oedd yn hyddysg yn ei Fibl, ac yn ddarllenwr cyson o hono, er ys dros ugain mlynedd. Drwy Mr. Planta, y Cenadwr yn Lorient, y dygwyd ef i garu ei Fibl, ac efe roddodd iddo y copi a ddarllenai hyd ei fedd. "Haua dy hâd, ni wyddost pa un a ffyna ai hwn yna ai hwn acw," &c.

Collodd Coleg Quimper ddechreu y mis

diweddaf wasanaeth un o'r proffeswyr mwyaf dysgedig oedd yma, drwy iddo gael ei symud i safle mwy pwysig; a chollais i ynddo un a roddodd i mi lawer o galondid a chefnogaeth. Ymwelai â mi yn fynych, a chawsom lawer o ymddyddan am wirioneddau mawrion Cristionogaeth, ac weithiau parhai ein hymgom am dair awr o amser. Yr oedd yn edmygydd mawr o Calvin, Agrippa D'Augbigné, Coligny, ac eraill o brif ddynion y Diwygiad yn Ffrainc; amlygodd hyny unwaith mewn anerchiad cyhoeddus yn Neuadd y dref, a chafodd yr anrhydedd o ddyoddef ymosodiadau y papyrau clerigol o'r herwydd. Mewn canlyniad i hyny anfonais ato nodyn o gydymdeimlad âg ef. Talodd ymweliad â mi, cefais y pleser o'i weled yn dyfod drosodd yn raddol o dir anffyddiaeth, ac ychydig cyn ymadael amlygai i mi ei fwriad i ymddiried i mi addysg grefyddol ei fachgen bach can gynted ag y gwelai ei feddwl yn dechreu ymagor. Gwnaeth lawer o ddaioni ymysg y dosbarth y troai yn eu canol drwy ei wroldeb i amddiffyn gwirioneddau mawrion yr efengyl pa bryd bynag y caffai gyfleusdra i hyny.

Cefais eisoes y fraint o groniclo tröedigaeth dyn ieuanc o ysgolfeistr a ddaethai am y waith gyntaf i wrando yr efengyl ar fwrdd y llong genadol yn Audierne. Y mae genyf bellach y pleser i hysbysu ei fod erbyn hyn yn astudio ar gyfer y weinidogaeth. Cyffyrddodd y gwirionedd â'i galon y Sulgwyn, bedair blynedd yn ol, pan y pregethid ar dywalltiad yr Ysbryd Glân, ac aeth allan o'r cyfarfod yn ddyn newydd. Daliodd yn gadarn yn wyneb llawer o erlidiau, ac ni thyciodd na gwg nac addewidion teg i gael un argraff arno, ac o'r diwedd penderfynodd roddi ei hun i *achos* Iesu Grist. Hyfryd oedd genyf ddarllen nodyn oddiwrtho o Paris yn ddiweddar, yn fy hysbysu o'i fwriad i ddychwelyd i Lydaw i lafurio, "gan mai yn Llydaw y gwelodd yr Arglwydd yn dda agor ei lygaid i weled ei gyflwr, ac ymwared Duw ar ei gyfer." "Beth dybygech," meddai, "pe dywedwn wrthych mai mab i Brotestant ydwyf wedi y cwbl. Protestant oedd fy nhad yn moreu ei oes, ond trodd ei gefn ar ryddid yr efengyl er mwyn manteision bydol. Cyfaddefodd hyny wrthyf ychydig wythnosau yn ol, ac y mae y cyfnewidiad amlwg yn ei ymddygiad at ei fab yn peri i mi gredu y gwelaf yr holl deulu yn fuan yn coffeidio y gwirionedd. Y mae fy mam yn fy nghalonogi bellach i ddal ymlaen i ddwyn tystiolaeth dros y Gwaredwr, am y gwêl ei fod wedi newid calon ei mab." Darllenais y llythyr hwn i amryw o gyfeillion yma, a gwelais lawer deigryn yn disgyn yn ddystaw i'r llawr drwy y darlleniad. Yr oedd ei ymddygiad gwylaidd a'i hynawsedd naturiol yn ennill serch pawb a'i hadwaenai, a dywedai un o'i athrawon yn Paris mai "perl o uchel bris yw Mr. Chopin." Y mae yn ymddiried yn ei Dad am foddion cynnaliaeth. Dywedai wrthyf mai y peth pwysig iddo ef oedd cael sicrwydd ei fod wedi ei alw a'i fod o dan arweiniad.

Ar y 27ain o'r mis diweddaf cefais y fraint o wneyd yr hyn na wnaed erioed, mi gredaf, yn y capel yma, sef uno mewn glân briodas ddyn ieuanc o Paris â merch ieuanc o Quimper oedd yn Babyddes. Gwaith anhawdd yw cael gwraged i ildio ar bwnc fel hwn, gan y dysgir hwy mai anlladrwydd yw bywyd priodasol pawb sydd heb basio drwy yr Eglwys Babaidd. Yr oedd mawr ddysgwyliad am y seremoni briodasol yn y lle, ac yr oedd y capel yn orlawn. Cafodd y gwasanaeth ddylanwad hynod ffafriol ar y gynnulleidfa, a daeth amryw i ysgwyd llaw â ni ar y terfyn, yn ol dull y Ffrancod o amlygu eu cymeradwyaeth. Dengys y ffaith hon i'r rhai a adnabuant ysbryd y cenedloedd Pabyddol fod cyfnewidiad pwysig yn cymeryd lle yn meddyliau y bobl yn gyffredinol; y mae yn gam pwysig ymlaen yn y lle, a chredaf fod teulu y ferch ieuanc wedi ei ennill i gryn raddau.

Y mae ein tymmor gauafol bellach wedi dechreu, a gobeithiwn gael gwyneb ein Meistr gyda ni yn ystod y gauaf. Y mae ein cynnulliadau eisoes yn dechreu llïosogi, yn neilduol felly yn Douarnenez, lle y ceir ystafell lawn o bysgotwyr astud am fisoedd y gauaf.

Gyda gofid dwys y deallasom fod y Pabyddion yn ceisio dadwneyd gwaith y brodyr anwyl yn yr India Y mae yn rhaid eu cyfarfod ar eu tir eu hun; ond y maent hwy yn barod i ddefnyddio pob ystrywiau cythreulig i gyrhaedd eu hamcan, fel y gŵyr y rhai sydd wedi bod wyneb yn wyneb â hwy yn eu cartref, er fod rhai yn condemnio y rhai a ddywedant y gwir o fod yn gul ac yn ddiffygiol mewn cariad brawdol. Y mae yn debyg y swyna eu Cristionogaeth arwynebol hwy amryw o'r dosbarth ysgafn; ond nid oes llawer o berygl i'r rhai sydd wedi eu creu o'r newydd fyned ar gyfeiliorn. Gweddïwch drosom ni a hwythau; a gofalwch rhag i'r gelyn-ddyn eich cael yn cysgu yn Nghymru, ac iddo fanteisio ar eich cwsg i hau hadau llygredigaeth a chyfeiliornad.

Bryniau Khasia.

DOSBARTH CHERRA.

LLYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. JOHN ROBERTS.

Cherra, Medi 26, 1890.

Y MAE yn hen bryd i mi ddyweyd gair am y gwaith yma yn ystod y misoedd diweddaf. Y mae yma gryn lwyddiant wedi bod ar hyd y flwyddyn. Pa mor ddiffygiol bynag ydym, y mae yr Ysbryd Glân wedi bendithio ein llafur yn lled helaeth.

Y rhai cyntaf a dderbyniwyd oedd gwraig o bentref Cherra, a phedwar o'i phlant. Y mae ei gŵr hefyd yn mynychu y moddion yn lled gyson. Wedi hyny derbyniwyd dyn mewn oed o bentref Cherra. Yr un noson yr oeddym yn derbyn geneth ieuanc o Nongsawlia yma. Yna aethum am daith

tua'r Dyffrynoedd, pryd y derbyniwyd pump. Y 30ain o Ebrill yr oeddym yn derbyn gwraig o Cherra, o'r enw Ka Shirabon, a dyn ieuanc o Nongsawlia, o'r enw U Mileshon, a gŵr a gwraig o bentref Nongjiri. Mai y 14eg yr oeddym yn derbyn gwraig a dau o blant o Cherra, a dyn ieuanc o'r enw U Bashing, o Cherra. Yn fuan wedi hyn yr oeddym yn derbyn chwech yn Sohbar: wedi hyny, dwy ddynes ieuanc o Mawlong. Yr un mis derbyniwyd gwraig o Cherra, o'r enw Kymi U Noson, a dau blentyn. Yn Mehefin derbyniwyd chwech o Wahlong; gwraig a dau o blant o Nongsawlia, a dyn mewn oed o'r enw U Kypa U Olishon, a dau o'i blant. Y mis dilynol yr oeddym yn derbyn teulu cyfan o bentref sydd i lawr o dan Cherra yma, o'r enw Nongphriang, tri o fechgyn o Cherra, a dau o Umniuh. Yn Awst derbyniwyd un o Mawlong, un o Tyrna, dau o Nongkroh, dau o Sohbar, pump o Mawmluh, gwraig a thri o blant o Cherra, a dyn ieuanc o Cherra. Yn gynnarach yn y flwyddyn hefyd derbyniwyd dau yn Mawmluh. Y mis hwn hefyd derbyniwyd hen wraig o'r enw Kymi U Ramon, a dau ŵyr bychan, a dynes ganol oed, Ka Kymi U Olison. Ar y 10fed derbyniwyd dyn ieuanc o'r enw U Dubin, un a fuasai ar gyfeiliorn. Daeth hefyd bedwar o Sohbar, ac un o Ryngud. Yr un noson yr oeddym yn derbyn tad a mam a'u plentyn o bentref Cherra. Yr wythnos ddilynol derbyniwyd brawd a chwaer sydd yn aros yn Nongsawlia, a dau ddyn mewn oed, a dwy eneth ieuanc ac un plentyn o Wahlong. Yr wythnos hon hefyd yr oedd geneth ieuanc o Cherra yn cael ei chynnyg i'r eglwys; a derbyniwyd bachgen ieuanc o Cherra sydd yn yr ysgol yma. Y mae yn ddrwg genyf fy mod yn rhoddi crybwyllion mor fyr am danynt, ond nid oes mo'r help. Chwi welwch nad yw Duw yn anfoddlawn i'n gwaith. Y mae yma amryw wedi cael eu bedyddio hefyd, ac wedi eu derbyn yn gyflawn aelodau. Nid wyf yn meddwl y bu blwyddyn erioed hefyd ag y bu raid i mi dori llai allan o'r eglwys na'r flwyddyn hon.

Y mae golwg wir obeithiol ar y gwahanol bentrefi o gwmpas hefyd. Bum yn ymweled â'r rhan fwyaf o honynt yn ystod y tymmor gwlawog—yn Umniuh, Nongjiri, Sohbar, Wahlong, Tyrna, Nongkroh, a Myrteng.

Y mae yr Henaduriaeth yn ymyl bellach—yr Henaduriaeth bwysicaf yn ddiau a gawsom erioed, Henaduriaeth ein Jiwbili. Bydd yr ordeiniio cyntaf yn cymeryd lle yn yr Henaduriaeth hon. Yr wyf yn teimlo yn hyderus fod yr eglwys yna yn gweddio llawer drosom, am i ni gael ein harwain a'n cyfarwyddo, ac ar i ni gael ein llanw â'r Ysbryd Glân, yn ysbryd nerth, a chariad a phwyll.

LLYTHYR ODDIWRTH RAI O'R BRODORION.

Derbyniwyd llythyr hefyd, wedi ei arwyddo gan y pregethwyr brodorol U Khnong, U Ksan Bin, ac U Amirkha a chan Kyrtonroy, un o flaenoriaid Cherra, gyda golwg ar y cyfnewidiadau a gynnygir ar hyn o bryd yn ein trefniadau ar y maes Cenadol. Maent yn ysgrifenu ar ran y Cristionogion yn nghylch Cherra. Bydd y dyfyniadau canlynol yn ddyddorol i'n darllenwyr: — "Cyn myned ymlaen i draethu yr hyn sydd ar ein meddyliau, teimlwn nas gallwn ymattal heb ddatgan ymlaenaf oll ein diolchgarwch i chwi, ein hanwyl rieni yn yr Arglwydd, y rhai a fuoch yn garedig i ni am hanner can' mlynedd gyda llawer o amynedd a thraul. Yr ydym wedi gweled eisoes fod yr Arglwydd wedi bendithio eich llafur a'ch caredigrwydd. Gobeithiwn y bydd i'r Arglwydd barhau i fendithio eich caredigrwydd trwy ddwyn ein cydwladwyr oll at iachawdwriaeth ein Harglwydd Iesu Grist. Yr ydym yn mawr lawenhau wrth glywed fod mantais arall, sef y *Dispensary*, i fod yma. Yr ydym yn gwir obeithio y bydd yn offerynol iawn i hyrwyddo cynnydd yr efengyl. Pan ystyriwn eich caredigrwydd, nis gallwn beidio dyweyd fod ein llesiant corfforol ac ysbrydol yn dibynu i fesur mawr ar eich haelfrydedd chwi.

"Da genym eich hysbysu fod y gwaith Cenadol, yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf, wedi gwneyd mwy o gynnydd nag erioed. Yn ystod y naw mis diweddaf mae tua chant o bersonau wedi cael eu derbyn i'r eglwys, peth na bu er dechreuad y gwaith. Mae golwg addawol ar bethau yn awr. Cymerir dyddordeb neillduol gan bobl ieuainc Cherra mewn gwrandaw gair Duw, naill ai yn eu tai neu yn y capel. Mae genym obaith cryf y bydd i'r pentref hwn, sydd yn ystyfnig, ac yn ymlynu yn dŷn wrth ei grefydd ei hunan, o'r diwedd syrthio i'r llawr."

YR ORDEINIAD CYNTAF YN KHASIA.

Ddydd Sadwrn, Hydref 1leg, yn Nongsawlia, ger Cherrapoonjee, ordeiniwyd pedwar o'r pregethwyr brodorol i gyflawn waith y weinidogaeth. Dyma'r ordeiniad cyntaf a gymerodd le yn Khasia. Fe gofia ein darllenwyr i'r Gymanfa Gyffredinol ddiweddaf gymeradwyo ordeiniad y pedwar Efengylydd a gyflwynasid gan yr Henaduriaeth fel rhai cymhwys, sef U Juramon, U Iang Lalu, U Ksanbin, ac U Ksan, Shella. Nid ydym wedi derbyn ond crybwyllion byrion am y cyfarfod ordeinio, a hyny mewn llythyrau oddiwrth y Parch. J. Roberts a'r Parch. C. L. Stephens pan y mae y *Cronicl Cenadol* ar fyned i'r wasg. Fel hyn yr ysgrifena Mr. Roberts,—"Bydd yn dda genych wybod i ni gael Henaduriaeth dda iawn. Yr oedd tua mil o bobl yn y cyfarfod ordeinio ddydd Sadwrn, pan ordeiniwyd y pedwar pregethwr. Ac ar y Sabboth bu raid pregethu allan yn yr awyr agored; rhifai y gynnulleidfa dros ddwy fil. Rhoddodd y Cristionogion fwyd a llety i rhwng 500 a 600 o bobl am dri diwrnod. Yr oedd ymhob ystyr yn Gyfarfod Jiwbili hollol."

Mr. Stephens a ysgrifena fel y canlyn o Shillong,—"Yr wyf yn cymeryd cyfle, ar awr hamddenol ar fy nhaith, i anfon i chwi ychydig linellau ar ol Cyfarfod yr Henaduriaeth. Nid oedd gwaith y *District Committee* drosodd hyd boreu ddoe (dydd Iau), ac yn union wed'yn cychwynodd Mr. J. Jones, Dr. Hughes, a minnau, am Mawphlang, gan ddwyn gyda ni adgofion dedwydd am y derbyniad caredig a roddwyd i ni yn Nongsawlia. Yr wyf yn awr ar fy ffordd i Jiwai i gyfarfod Mrs. Stephens, yr hon sydd wedi bod yn aros am rai dyddiau gyda Mrs. Evans. Gobeithiaf allu gwneyd yr holl daith o 34 o filldiroedd yfory, fel ag i ddychwelyd i'n dosbarth mor gynnar ag y gellir yr wythnos nesaf. Yr oedd y Jiwbili yn llwyddiant mawr. Ar ddydd Sadwrn cafodd y pedwar efengylydd a ddewisasid yn flaenorol eu hordeinio i waith y weinidogaeth. Dynion ydynt sydd wedi bod yn hir yn ngwasanaeth y Genadaeth, ac ydynt wedi profi eu hunain yn deilwng o ymddiried yr holl eglwysi ar y Bryniau hyn. Cafodd pob un o'r cenadon yr anrhydedd o gael gwneyd rhywbeth mewn cysylltiad â'r gwasanaeth hwn, tra yr ymddiriedwyd y rhan fwyaf bwysig i'r cenadon hynaf, y Parchn. J. Roberts a J. Jones. Sylfaenodd Mr. Jones ei araeth ar '*Natur Eglwys*,' ar 1 Tim iii. 15; a rhoddodd Mr. Roberts y Cynghor oddiar Ioan xx. 20—23. Rhaid fod llawn ddwy fil o bersonau yn bresennol yn yr oedfaon y bore a'r prydnawn Sabboth. Yn ystod y dydd cawsom chwech o bregethau difrifol ac ymarferol gan Dr. Hughes, R. Evans, J. P. Jones, W. Williams, a dau o'r Efengylwyr. Mae golygydd ein cylchgrawn brodorol 'Nongkit Khubor,' wedi cael ei awdurdodi i ddwyn allan adroddiad cyflawn o Henaduriaeth y Jiwbili."

YMADAWIAD Y PARCH. DR. GRIFFITHS.

Nos Lun, Tachwedd 10fed, aeth Dr. Griffiths a Mrs. Griffiths, ynghyd a'u bachgen bach, John Phillips, ar fwrdd y "Clan Macpherson" i ddychwelyd yn ol i faes eu llafur yn India, a boreu yr 11eg cychwynodd yr agerlong o afon Lerpwl. Daeth llawer o gyfeillion i'r *Landing Stage* i ffarwelio â hwy, er fod yr awr yn un anghyfleus. Nos Wener, y 7fed, yn Nghapel Anfield Road, dan lywyddiaeth y Parch. E. J. Evans, Walton, Cadeirydd y Cyfeisteddfod Gweithiol, cynnaliwyd cyfarfod ymadawol. Yr oedd amryw o'r Cyfarwyddwyr Sirol yn bresennol yn y cyfarfod hwn ac yn y Pwyllgor a gynnaliwyd y prydnawn. Pasiwyd penderfyniad yn dadgan teimladau cynhes at Mr. a Mrs. Griffiths ar ei hymadawiad, gyda'r dymuniadau goreu am eu llwyddiant yn ystod y fordaith, ac am fendith y Nefoedd ar eu llafur; anfonwyd cofion cynhes at y cenadon a'r holl Gristionogion ar y Bryniau, a rhoddwyd annogaethau i ymdrech egniol o blaid y Genadaeth ar y flwyddyn nodedig hon yn ei hanes. Cymerwyd rhan yn y cyfarfod gan y Parchn. J. Thomas, Dr. H. Jones, Dr. O. Thomas, Dr. Griffiths, J. Hughes, M.A., Dr. Parry, Griffith Hughes, G. Ellis, M.A., J. Davies, Bontddu, A. Roberts, J. Evans, Llanfaircaereinion, a Mr. Evan Jones, Bala.

[D. S.—Gellir cael copïau o "*Bapyr Chlysurol*," yn cynnwys adroddiad cyflawn am y Cyfarfod Ymadawol ond ymofyn â'r Ysgrifenydd.]

RHODDION AT WASANAETH Y GENADAETH.

Teimlir yn dra diolchgar i'r cyfeillion a anfonasant roddion at wasanaeth y Genadaeth, ac yn arbenig i'r rhai a anfonasant restr o gynnwys y sypynau. Bydd hyny yn arbediad trafferth yn Calcutta, gan y bydd Goruchwylwyr y Genadaeth yno yn gallu pasio y nwyddau trwy y Toll-dŷ heb iddynt gael eu hagor a'u chwilio, os gellir dangos rhestr o gynnwys pob sypyn. Mae rhai cyfeillion wedi gofyn i ni roddi yn y Cronicl Cenadol restr o enwau y personau a anfonasant sypynau. Nis gallwn yn hawdd, o ddechreu gwneuthur hyny, beidio rhoddi yr oll a dderbyniwyd. Cymerai ormod o le i ni geisio rhoddi rhestr o'r defnyddiau a anfonwyd gan bob un. Ni chawn ond rhoddi rhestr o'r enwau y derbyniwyd hysbysrwydd am danynt gan yr Ysgrifenydd. O Aberdâr dwy gist fawr wedi eu gwneyd i fyny yn gadarn a thaclus, ac yn cynnwys *prints*, *calicoes*, gwlaneni, *lindseys*, edafedd, *reels*, nodwyddau, *merinos*, &c., &c., &c., oddiwrth Miss M. A. Thomas, Mrs. Jones, Rose Villa; Mrs. Davies, Commercial House; Mrs. Jones, *hosier;* Miss Annie Powell, Mr. Edward Edwards, Miss Roberts, Commercial Place; Mrs. Davies, Cardiff Street; Miss Ann Davies, Wind Street; Mrs. Davies, Mary Street; Mrs. J. Harris, Miss Katie Griffiths, Miss Jennie Thomas, Miss S. Scourfield, Mr. John Davies, Mrs. Morgans, Monk Street, Mrs. Richards, Wind Street; Mrs. Morgans, Clifton Street; Miss Gwladys Read, Mrs. Mills, Mrs. Bessie Mills Davies, Bethania Band of Hope and Little School; Mrs. Davies, Albert Street; Mrs. Christmas, y Parch. W. James, Mrs. Evans, Wind Street; Mrs. G. Thomas, Mrs. Jane Davies, Mrs. S. Jones, Mr. Thomas Thomas, Carmel; Mrs. Joshua Davies, Mrs. Sarah Morgans, Miss M. A. Moses, Mrs. M. Phillips, Philadelphia, Morriston. I'r Parch. J. Pengwern Jones, Sylhet, sypyn oddiwrth Miss S. J. Thomas, 8, Little Wind Street. O Bwllheli, trwy law Mrs. R. Rowland, Plas heulog:—Mr. T. M. Owen, Glasfryn; Mr. G. Jones, Caerhydderch; Mr. W. R. Jones, High Street; Mr. Hugh Williams, Shop Goch; Mr. O. Williams, Pwlldefaid; Mri. O. a J. Robinson, "*The Liver;*" Mrs. Griffith, Factory; Mr. W. Edwards, Shop Crugan; Mrs. Roberts, Ivy House; K. Williams ac A. Roberts, Plas Heulog. Sypyn oddiwrth Mrs. Jones

District Bank, Bethesda. Sypyn oddiwrth Gyfeillion, Twr Gwyn, Upper Bangor, trwy law Mrs. Price, Normal College, a Mrs. J. E. Roberts. Sypyn oddiwrth Mrs. Evans a phlant bach Llanwrtyd, i blant Bhoilymbong. Sypyn oddiwrth gyfeillion yn Aberystwyth, trwy law Mr. Daniel Thomas, *draper*. Oddiwrth Mr. a Mrs. Ebenezer Morgan. Oddiwrth Miss Jones, Cambridge. Oddiwrth Gymdeithas y Dorcas, Bala. Oddiwrth Mrs. Jerman Jones. Oddiwrth Mr. Edward David, Nant y Moel, tua 200 o latheni o *prints*, &c., i Mrs. Ceredig Evans; 270 eto i'r cenadon eraill; Mr. Llewelyn, Tynewydd. Oddiwrth Miss Jeannie E. Roberts, Penygroes. Cistiad o lyfrau i'r Llyfrgell Genadol oddiwrth y Parch. Dr. Saunders.

JIWBILI Y GENADAETH.

A OES un o'n heglwysi yn rhywle heb ddechreu symud gyda chasgliad y Jiwbili? Da fyddai i'n cyfeillion gofio fod yr adeg pan y rhaid cau i fyny y casgliad yn tynu yn brysur i'r pen. Gresyn fyddai fod un aelod mewn unrhyw eglwys heb gael rhan yn y gwaith. Cwblheir y casgliad ar y 31ain o Fawrth, ac mor fuan ag y byddo yn bosibl ar ol hyny cyhoeddir Adroddiad y Jiwbili, yn cynnwys enw pob cyfranydd o hanner coron ac uchod. Gellir cael llyfrau casglu a phapyrau yn egluro amcan y symudiad ond ymofyn â'r Ysgrifenydd. Gofaler am benodi Ysgrifenydd a Thrysoryddd a chasglyddion ymhob eglwys.

Y CASGLIAD CENADOL AM 1890.

Os ydyw y Casgliad Cenadol am 1890 eto heb gael ei wneyd mewn rhyw eglwysi, gofaler am iddo gael ei wneyd yn ddioedi. Yr ydys yn mawr hyderu na bydd y casgliad arferol am y flwyddyn hon—blwyddyn y Jiwbili—yn ol i'r un a wnaed mewn unrhyw flwyddyn o'r dechreuad. Gan fod y FLWYDDYN ARIANOL YN TERFYNU AR YR 31AIN O RHAGFYR, dymunir ar i'r Trysoryddion lleol anfon y casgliadau i'r Trysoryddion Sirol yn ddigon prydlawn fel y gallont eu hanfon i'r Trysorydd Cyffredinol CYN DIWEDD Y FLWYDDYN. Bydd yr Adroddiad Cenadol yn cael ei barotoi mor fuan ag y gellir ar ol yr 31ain o Rhagfyr, a bydd yn anghenrheidiol i restrau o'r tanysgrifiadau y dymunir iddynt ymddangos gael eu hanfon i'r Ysgrifenydd yn *nechreu Ionawr*.

CASGLIAD CENADOL Y PLANT.

RHODDIR gwobrwyon o lyfrau i'r plant fyddont wedi casglu 5s. ac uchod, yn ol gwerth tua thair ceiniog am bob hanner coron a gesglir. Ond *rhaid i'r enwau fod yn llaw* yr *Ysgrifenydd erbyn* y 25AIN O IONAWR, ac anfonir y gwobrwyon erbyn diwedd yr wythnos gyntaf yn Chwefror.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

DYMUNA y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
Fitzclarence Street, Liverpool ...	33	15	4
Chatham Street, ychwanegol	10	0	0
Mrs. Donne, Bronwylva, Llandudno	1	0	0
Am y llyfr *Ymweliad â Brymiau Khasia*	0	3	0
Cyfaill o Colwyn Bay, trwy law y Parch. O. Evans a Dr. Frazer ...	5	0	0
Un o Benmaenmawr, tuag at Gapel Sohka	2	0	0
Eto, at gynnal athraw yn Lapangap	2	0	0
Eto, i'r Parch. J. Jones, i'w defnyddio fel y gwel yn oreu	2	0	0
Cyfaill, i'w defnyddio gan Dr. Griffiths er lles y gwaith (trwy law Dr. Griffiths)	5	0	0
Mrs Evans, Llainfadryn, i Mrs. Griffiths eto	0	5	0
"Cymro," i'w defnyddio gan Dr. Griffiths yn ol ei ddoethineb er lles y gwaith (un o'r Cyfarwyddwyr oedd yn analluog i fod yn bresennol yn y Cyfarfod Ymadawol a anfonodd y swm hwn)	10	0	0
Oddiwrth Mr. Roberts, Stockport, ar "bymthegfed a deugain cylchwyl undeb dedwydd, Tach. 11"	1	0	0
[Ar y ddegfed gylchwyl a deugain anfonodd J. ac S. R. £50 i'r Genadaeth er coffâd am fendithion yr Arglwydd iddynt. Mae Mrs. R. ar ol hyny wedi "blaenu" ei phriod i'r orphwysfa nefol.]			
Rhodd Mrs. Hughes, Ty Cerrig, Caergwrle, tuag at gael gwely yn yr Ysbytty yn Jiwai i ferch glaf, trwy law y Parch. T. Hughes, Kenchester	5	0	0
Tuag at Gof-golofn y Parch. T. Jerman Jones:—			
Beatrice Elizabeth Jones, Central Buildings, Rhyl (merch ieuengaf y Parch. John Jones, Jiwai)	0	3	0
Mr. J. Herbert Lewis	5	0	0
Mr. H. Rees Davies, Treborth ...	5	0	0
Mr. J. Herbert Roberts, Bryngwenallt	5	0	0

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, DAVID HUGHES, ESQ., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of the Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. HERBERT LEWIS, ESQ., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev* JOSIAH THOMAS, 28, *Breckfield Road South, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.